

# Tai a phobl anabl

## Argyfwng cudd Prydain

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Equality and Human Rights Commission

# Rhagair

# Susan Johnson, Comisiynydd

**Hawl ddynol sylfaenol yw tai boddhaol sydd yn helpu pobl i fyw bywydau annibynnol llawn.**

Dylai pawb allu byw mewn man o'i dewis, coginio bwyd ac ymolchi'u hunain, osgoi cwympiadau, penderfynu peidio byw mewn gofal preswyl, mynd allan i gwrdd â ffrindiau a'u gwahodd yn ôl atynt. Yn y bôn, dylen nhw allu byw'n urddasol fel rhan o gymuned. Dyma'n gweledigaeth ar gyfer pob person anabl ym Mhrydain sydd ar hyn o bryd heb allu mwynhau eu hawl i fyw'n annibynnol - rhywbeth mae llawer ohonom yn ei gymryd yn ganiataol.

Mae'r dystiolaeth, y byddwch yn ei darllen yn yr adroddiad hwn, yn dorcalonnus weithiau, tystiolaeth nid yn unig gan bobl anabl, ond gofalwyr, therapyddion galwedigaethol ac aelodau teulu y mae bywyd pob un ohonynt wedi'i effeithio gan dai anhygyrch.

Gwyddom nad oes rhaid iddi fod felly. Mae'n hadroddiad yn galw am newidiadau syml i'r system gynllunio gyfredol fel y gall awdurdodau lleol sicrhau bod mwy o dai hygyrch yn cael eu hadeiladu. Mae angen data a gwybodaeth well ar awdurdodau lleol i baru eiddo hygyrch â phobl sydd ei angen, ac mae angen iddynt gynnig cymorth da i denantiaid anabl. Mae angen llai o fiwrocratiaeth arnom i gyflymu addasiadau hanfodol.

Nid yn unig mai dyma'r peth gweddus i'w wneud ond mae'n gwneud synnwyr o ran y gronfa gyhoeddus. Mae'n hysbytai o dan bwysau mawr i ollwng cleifion cyn gynted â phosibl ond yn methu gwneud hynny oherwydd tai anaddas, mae cyllidebau gofal cymdeithasol o dan bwysau, ac mae costau retro-ffitio cartrefi yn fwy na'r gost o'u gwneud yn gartrefi addas o'r cychwyn deg.

Mae rhai awdurdodau lleol o flaen y gad yn rhoi anghenion pobl anabl yn ganolog i'w cynlluniau, ac mae wedi talu ar ei ganfed iddynt. Ond dyma'r eithriad yn hytrach na'r arfer.

Dros y deuddeg mis nesaf byddwn yn ceisio am newidiadau  i bolisi cynllunio cenedlaethol i helpu adeiladu mwy o gartrefi hygyrch. Gwnawn weithio ochr yn ochr ag awdurdodau lleol i ddarparu'r arfau i'w helpu i gyflawni'u dyletswyddau cydraddoldeb a chael tai priodol i bobl anabl. Yn bwysig, byddwn hefyd yn sicrhau bod pobl anabl sydd yn ceisio am dai cymdeithasol hygyrch yn gwybod am eu hawliau a lle i fynd pan y'u torrir.

Fodd bynnag, ni allwn wneud hyn wrth ein hunain. I wneud gwahaniaeth rydym angen i lywodraethau yng Nghymru, Lloegr a'r Alban i gymryd camau yn awr i fabwysiadu'n pedwar argymhelliad  i gael gwared â'r gwahaniaethu ar sail tai y mae pobl anabl ar hyn o bryd yn ei brofi.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Crynodeb gweithredol | 4 |
| 1. Cyflwyniad | 15 |
| 2. Adeiladu cartrefi mwy hygyrch ac addasadwy | 19 |
| 3. Gwella gosod addasiadau i'r cartref | 38 |
| 4. Paru cartrefi gyda'r bobl sydd eu hangen | 53 |
| 5. Cefnogi pobl i fyw'n annibynnol | 70 |
| 6. Casgliadau | 84 |
| Llyfryddiaeth | 87 |
| Geirfa | 96 |
| Atodiad: Cylch gorchwyl | 103 |

# Crynodeb gweithredol



**Mae cartref yn gonglfaen o fyw’n annibynnol, ac eto mae nifer o bobl anabl yn byw mewn cartrefi nad ydynt yn bodloni eu gofynion. Os yw pobl anabl i gael dewis a rheolaeth dros eu bywydau, yna mae angen gweithredu ar frys i Sicrhau bod y cyflenwad o dai yn y dyfodol yn addas i bawb.**

Yn Rhagfyr 2016, lansiodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (‘y Comisiwn’) ymchwiliad ffurfiol ar dai ar gyfer pobl anabl. Edrychodd yr ymchwiliad ar os oedd argaeledd tai hygyrch ac addasadwy, a’r gwasanaethau cefnogaeth cysylltiedig â hyn, yn bodloni hawliau pobl anabl i fyw’n annibynnol.

Mae hawliau pobl anabl i fyw’n annibynnol wedi eu gwarchod yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (UNCRPD). Mae’r egwyddorion sy’n sail i’r Confensiwn yn cydnabod fod pobl anabl yn arbenigwyr yn eu bywydau eu hunain, ac mai nhw sydd yn y safle gorau i nodi a phennu eu gofynion tai a chefnogaeth. Agwedd ganolog i’r ymchwiliad hwn oedd casglu tystiolaeth gan bobl anabl ynghylch eu profiadau tai.

## Effaith peidio â chael cartref hygyrch



Problemau symudedd



4 gwaith yn llai tebygol o fod mewn gwaith



Diffyg urddas o beidio â gallu byw’n annibynnol



Teimladau o ynysu cymdeithasol a phryder



Iechyd meddwl tlotach

Mae'r prinder tai ym Mhrydain wedi derbyn sylw cynyddol gan wleidyddion a'r wasg, ac eto nid yw effeithiau'r argyfwng hwn yn unffurf; mae effaith tai anaddas ar bobl anabl yn arbennig o lym.

Datgelodd ein hymchwiliad bedair her allweddol, sy'n sail i'n hargymhellion:

## 1. Mae'r system dai yn gwangalonni a rhwystredig i bobl anabl

Mae pobl anabl yn adrodd prinder difrifol o dai hygyrch ar draws pob daliadaeth. Mae pobl anabl yn fwy tebygol o fyw mewn tai cymdeithasol, gan ei fod yn fwy fforddiadwy, yn dueddol o ddarparu mwy o sicrwydd daliadaeth, ac mae landlordiaid yn fwy parod i osod addasiadau a darparu cefnogaeth, os oes angen. Mae pwysau arbennig ar dai cymdeithasol, gyda rhestrau aros hir. Mae gwybodaeth ar hygyrchedd eiddo yn arbennig o wael yn y sector preifat. Nid yw asiantau tai, er enghraifft, fel arfer yn darparu gwybodaeth am hygyrchedd tai gosod preifat na thai sydd ar werth.

Gall pobl anabl wynebu gwaethygiad difrifol yn eu llesiant meddyliol oherwydd byw mewn llety anaddas. Fe glywsom dystiolaeth am bobl yn bwyta, cysgu ac ymolchi mewn un ystafell. Rydym wedi clywed am aelodau'r teulu yn cario pobl i fyny'r grisiau a rhwng ystafelloedd. Mae digon o ddogfennaeth ynghylch costau tai anhygyrch, gan gynnwys effeithiau ar fyw'n annibynnol, angen cynyddol am ofal cymdeithasol, mwy o ddibynadwyaeth ar ofalwyr a theulu, damweiniau (yn cynnwys rhai sy'n newid bywyd neu'n angheuol) a derbyniadau i'r ysbyty y gellid eu hosgoi.

Mae pecynnau gofal cymdeithasol a thai yn gwbl gysylltiedig; weithiau mae pecyn gofal person anabl yn ffactor allweddol o ran sicrhau y gall fyw'n annibynnol.


Adroddodd pobl anabl ddeilliannau tai positif ble roeddynt yn gallu cael mynediad at dai lleol wedi eu rheoli'n dda a gwasanaethau cefnogaeth a chyngor, p'un ai'n wirfoddol neu'n statudol. Yn y pen draw, gall canfod cartref addas, hygyrch drawsnewid bywydau pobl er gwell. Adroddodd pobl anabl welliant mewn iechyd a lles, a rhagolygon gwell ar gyfer cyflogaeth ac astudio pan oedd eu cartrefi yn bodloni eu gofynion hygyrchedd.

'Gall pobl anabl brofi dirywiad difrifol yn eu lles meddyliol oherwydd byw mewn llety anaddas.'

**Yn Lloegr yn unig**

# 7%

**o gartrefi yn cynnig nodweddion lleiaf hygyrchedd**



## 2. Mae yna ddiffyg parhaol o gartrefi hygyrch

Nid yw awdurdodau lleol yn adeiladu digon o gartrefi hygyrch i fodloni'r galw. Mae'r nifer o bobl anabl yn cynyddu; yn 2016, amcangyfrifwyd bod yna 13.3 miliwn o bobl anabl ym Mhrydain, i fyny o 11.9 miliwn yn 2013/14 (ONS, 2017).

Mae rheoliadau adeiladu yng Nghymru a Lloegr ac, tan yn ddiweddar, yr Alban, wedi cynhyrchu tai sy'n gyffredinol anhygyrch, yn arbennig ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn. O ganlyniad, dim ond saith y cant o gartrefi yn Lloegr sy'n cynnig isafswm nodweddion hygyrchedd (DCLG, 2015a) ac yn yr Alban dim ond 0.7 y cant o gartrefi awdurdodau lleol, ac 1.5 y cant o gartrefi a reolir gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, sy'n hygyrch i ddefnyddwyr cadair olwyn (Independent Living in Scotland, 2017).

Canfu ein harolwg o awdurdodau lleol a gyflawnwyd yn rhan o'n sail dystiolaethol ar gyfer yr ymchwiliad fod systemau a ddefnyddir i nodi gofynion pobl anabl a darparu cartrefi hygyrch yn wan (EHRC, 2018a). Maw awdurdodau lleol yn gwneud penderfyniadau ynghylch angen presennol a galw yn y dyfodol ar gyfer tai hygyrch yn seiliedig ar ddata cyfyngedig iawn; dim ond 12 y cant o awdurdodau lleol oedd yn graddio'r data sydd ar gael iddynt fel 'da' neu 'dda iawn'.

Ychydig iawn o awdurdodau lleol ar draws Prydain sy'n gosod targedau ar gyfer tai hygyrch ac mae nifer wedi adrodd fod datblygwyr yn amharod i adeiladu tai hygyrch, gan eu bod yn eu gweld fel llai proffidiol. Mae yna eithriad nodedig i hyn yn Llundain, ble mae safonau hygyrchedd ac addasadwy uwch wedi bod y norm yn ystod y 10 mlynedd diwethaf. Mae yna dystiolaeth gref y bydd tai sy'n bodloni gofynion pobl yn arbed ar gostau iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol, yn ogystal â gostwng cost addasiadau yn sylweddol pan fydd eu hangen.

Adroddodd nifer o awdurdodau lleol nad oedd datblygwyr yn cydymffurfio gyda rheoliadau hygyrchedd. Er gwaethaf hyn, dim ond saith awdurdod (tri y cant) oedd wedi cymryd camau ffurfiol neu anffurfiol yn erbyn datblygwr nad oedd yn darparu'r nifer ofynnol o eiddo hygyrch ac/neu addasadwy i'r safon ofynnol yn ystod y tair blynedd diwethaf.

Mae wyth o awdurdodau lleol yn Lloegr yn wynebu her benodol wrth drafod gyda datblygwyr, yn arbennig o ganlyniad i werthusiadau gweledeedd dan y Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol (NPPF), sy'n gallu bod yn rhwystr i gyflenwi tai hygyrch. Dehongliad awdurdodau lleol yw bod polisi cynllunio presennol yn ffafrio datblygwyr, gyda'r pwyslais ar ddarparu tai ynddo'i hun, yn hytrach na darparu'r math priodol o dai. Gall datblygwyr ddadlau fod tai hygyrch yn ddrytach ac, felly, yn llai proffidiol, a thrafod er mwyn adeiladu tai i'r safonau isaf a ganiateir. Mae'r diffyg cydbwysedd hwn mewn grym trafod hefyd yn debygol o fod wedi ei waethygu gan natur dechnegol asesiadau hyfywedd, a diffyg arbenigedd mewn awdurdodau lleol (a chyllid cyfyngedig i gael yr arbenigedd sydd angen o'r tu allan) i ddadansoddi a, ble fo angen, herio'r gwerthusiadau hyfywedd yn briodol.

**32%** o gynghorau yn cytuno bod rheolwyr fel rheol yn cydymffurfio'n llwyr â rheoliadau hygyrchedd

ond dim ond

**3%** wedi cymryd camau yn erbyn un ar sail hygyrchedd



## 3. Mae gosod addasiadau i'r cartref yn golygu biwrocratiaeth ac oedi annerbyniol

Nid yw pob person anabl angen addasiadau i'w gartref, ond mi fydd nifer eu hangen. Mae'r addasiadau hyn yn amrywio o fân newidiadau fel gosod rheiliau cydio, i newidiadau mwy megis gosod lifftiau grisiau, ystafelloedd gwlyb a thaclau codi. Gall addasiadau hefyd gynnwys ychwanegu ystafelloedd gwely ychwanegol, er enghraifft ar gyfer plentyn gydag awtistiaeth nad yw'n gallu rhannu gyda'i siblingiaid. Mae yna dystiolaeth arwyddocaol fod gosod addasiadau yn brydlon yn creu arbedion arwyddocaol i bwrs y wlad.

Yn aml bydd pobl anabl yn gorfod aros am gyfnodau hir o amser, hyd yn oed ar gyfer mân addasiadau. Canfu ein harolwg mai'r amser rhwng gwneud cais a gosod yw, ar gyfartaledd, 22 o wythnosau (wyth wythnos am benderfyniad ac 14 wythnos i osod), er bod gan rai awdurdodau lleol amserau aros o flwyddyn neu fwy.

Mae pobl anabl yn wynebu problemau arbennig yn y sector rhent preifat, sy'n tyfu, yn arbennig yn Lloegr. Roedd pobl anabl, therapyddion galwedigaethol ac awdurdodau lleol i gyd yn adrodd fod landlordiaid sector preifat yn gyndyn i ganiatáu addasiadau.

Clywsom enghreifftiau o bobl anabl yn cael eu hatal rhag gwneud addasiadau i 'rannau cyffredin', er enghraifft, rampiau at ddrws ffrynt.



## 4. Nid yw pobl anabl yn cael y gefnogaeth maent angen i fyw’n annibynnol

Mae’n cymryd mwy na phedair wal i sicrhau y gall pobl anabl fynnu eu hawl i fyw’n annibynnol. Mae mynediad at gyngor, cefnogaeth ac eiriolaeth yn chwarae rôl bwysig, ac eto mae darpariaeth yn dameidiog a phobl yn adrodd nad oes ganddynt unman i droi pan fydd eu tai yn anaddas, os oes ganddynt benderfyniad anodd ei wneud, neu os byddant yn wynebu argyfwng. Thema gyson o’r dystiolaeth oedd bod llywio trwy’r systemau cymhleth ar gyfer dyraniadau ac addasiadau yn ingol a heriol.

Clywsom fod cymorth tenantiaeth a chymorth fel y bo’r angen yn arbennig o bwysig i bobl gydag anableddau dysgu, namau synhwyraidd a chyflyrau iechyd meddwl; fodd bynnag, mae newidiadau a gynigiwyd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig mewn polisi a threfniadau cyllido wedi creu ansicrwydd ymysg darparwyr tai. Adroddodd darparwyr tai cymdeithasol fod gwneud iawn am fethiant mewn gwasanaethau eraill yn her gynyddol iddynt, gydag iechyd meddwl yn bryder arbennig. Mae hyn wedi gadael bwlch amlwg mewn cefnogaeth ar gyfer rhai mewn llety rhent preifat neu berchennog preswyl.

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cynnal arolwg ar hyn o bryd o lety â chymorth, ynghylch sut fyddai’r ffordd orau i gefnogi amrywiaeth helaeth o grwpiau ‘mewn perygl’ a’r mecanweithiau priodol ar gyfer cyllido. Mae ein casgliadau wedi pwysleisio fod dewis a rheolaeth ar gyfer pobl anabl yn ganolog i sylweddoli’r hawl i fyw’n annibynnol. Dylai’r hawliau hynny fod yn ganolog i unrhyw bolisi newydd ar gyfer llety â chymorth. Mae’r adolygiad presennol a phwysau ar gyllidebau tai wedi arwain at ansicrwydd ar gyfer darparwyr tai. Nododd un arolwg gan y Ffederasiwn Tai Cenedlaethol fod darparwyr tai wedi gohirio 85 y cant o ddatblygiadau yn ystod blwyddyn.



## Argymhellion

Mae'r hawl i fyw'n annibynnol yn cydnabod fod pobl anabl yn arbenigwyr o ran pennu a hyrwyddo gwell datrysiadau. Mae angen i lywodraethau ar lefel genedlaethol a lleol fod yn llawer mwy effeithiol **wrth ymgysylltu â phobl anabl** ar lefelau strategol a gweithredol i gynnwys eu mewnbwn mewn ffordd ystyrlon, mewn cylch parhau o welliant.

## 1. Adeiladu tai mwy hygyrch ac addasadwy

### Yng Nghymru, Lloegr, a'r Alban rydym yn galw:

- **Ar lywodraethau i gyflwyno strategaeth genedlaethol** i sicrhau bod yna gyflenwad digonol o dai newydd wedi eu hadeiladu i safonau dylunio cynhwysol/cyffredinol ac i safonau hygyrch i gadeiriau olwyn, ar draws pob daliadaeth. Dylai hyn gynnwys adolygiad o'r modd y gorfodi safonau adeiladu, yn arbennig yn y sector rhentu preifat. Dylai'r strategaeth gydnabod fod cymorth tai, cyngor ac eiriolaeth yn aml yn angenrheidiol i alluogi pobl i gynnal eu cartrefi a'u hawl i fyw'n annibynnol.
- Ar lywodraethau cenedlaethol a lleol i weithredu i wella'r modd y **cesglir ac y rhennir data**, ar ofynion pobl anabl ac ar hygyrchedd y stoc tai presennol.

### Yn Lloegr rydym yn galw:

- Ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i **addasu** gofyniad M4(2) Atodlen 1 y Rheoliadau Adeiladu 2010 (fel y'i diwygiwyd), fel nad yw'n ofyniad dewisol bellach, ond yn hytrach yn ddiofyn a'r safon ofynnol ar gyfer cynllunio a darparu tai newydd i gyd. Yn ogystal, dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig fandadu fod yn rhaid i awdurdodau lleol sicrhau isafswm o **10 y cant o gartrefi newydd ar draws pob math o ddaliadaeth i gael eu hadeiladu i safonau hygyrch i gadeiriau olwyn** (M4(3) safonau dylunio). Dylid monitro ac adolygu hyn.
- Ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i asesu sut y cydymffurfir â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, yn eu hadolygiad o'r **Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol** (a chanllawiau ymarfer). Dylai ddynodi fod yna wybodaeth ddigonol am ofynion tai pobl anabl mewn Cynlluniau Lleol.
- Ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i **ddarparu canllaw cynllunio gofynnol** ar gyfer awdurdodau lleol, gan roi methodoleg gadarn iddynt asesu angen a darparu tai hygyrch ac addasadwy, yn ogystal â chartrefi hygyrch i gadeiriau olwyn.
- **Ar yr Arolygiaeth Gynllunio** i roi mwy o bwyslais ar fodloni ei rwymedigaethau dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wrth ddelio gyda'r archwiliad o Gynlluniau Lleol.

## Yng Nghymru rydym yn galw:

- Ar awdurdodau lleol i fodloni eu dyletswydd i gyhoeddi **Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb** ynghyd â'u Cynlluniau Datblygu Lleol ac Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol.
- I Lywodraeth Cymru ei wneud yn ofynnol bod pob cartref newydd yn cael ei adeiladu yn ôl Gofynion Ansawdd Datblygu ac i fandadu i Awdurdodau Lleol sicrhau bod 10% o **gartrefi newydd yn cael eu hadeiladu i safonau hygyrch i gadeiriau olwyn**. Dylid monitro ac adolygu hyn.
- Ar awdurdodau lleol i **weithredu'r pum dull o weithio yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn eu cynllunio strategol** ar gyfer cartrefi hygyrch, yn arbennig wrth ddatblygu Cynlluniau Datblygu Lleol ac Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol. Mae hyn yn **gofyn iddynt ystyried y tymor hir, gynnwys pobl, atal problemau, cydweithredu gydag eraill ac integreiddio'r nodau llesiant yn eu hamcanion**.

## Yn yr Alban rydym yn galw:

- Ar Lywodraeth yr Alban i ofyn fod i awdurdodau lleol sicrhau bod **isafswm o 10 y cant o gartrefi newydd ar draws pob math o ddaliadaeth i gael eu hadeiladu i safonau hygyrch i gadair olwyn**. Dylid monitro ac adolygu hyn.
- Ar Lywodraeth yr Alban i addasu ei Raglen Cyflenwad Tai Fforddiadwy (AHSP) i alluogi **adrodd clir ar dai newydd hygyrch a hygyrch i gadeiriau olwyn, gyda manylion maint, eiddo a math**.
- Ar awdurdodau lleol i fodloni eu dyletswydd i gyhoeddi eu **Hasesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb** ynghyd â'u Strategaethau Tai Strategol a Chynlluniau Buddsoddi Strategol mewn Tai.
- Ar Lywodraeth yr Alban i gyflawni adolygiad sylfaenol o Dai ar gyfer Amrywiol Anghenion, gan sicrhau dyluniad cynhwysol a safonau dylunio hygyrch i gadeiriau olwyn i fod yn berthnasol ar draws pob math o ddaliadaeth.

# 2. Gwella gosod addasiadau i'r cartref

## Yng Nghymru, Lloegr, a'r Alban rydym yn galw:

- Ar awdurdodau lleol i edrych ar frys ar y **rhwystrau biwrocrataidd ac oedi sy'n bodoli yn y systemau addasiadau**, i sicrhau y gellir gosod addasiadau rhad, mân yn arbennig yn gyflym a rhwydd. Dylid monitro ac adolygu hyn.
- Ar lywodraethau i ddarparu **cyllid atodol i sefydliadau pobl anabl ac asiantaethau cynghori, i gynyddu'r cyflenwad o gyngor a gwybodaeth annibynnol parthed opsiynau tai, yn cynnwys addasiadau**, gyda ffocws arbennig ar y sector rhentu preifat.

## Yng Nghymru a Lloegr, rydym yn galw:

- Ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig **i adolygu a thaclo'r rhwystrau i osod addasiadau yn y sector rhentu preifat**, gyda ffocws penodol ar sicrwydd daliadaeth.
- Ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i **weithredu'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol i rannau cyffredin eiddo prydles, fel y sefydlir yn narpariaethau adran 36 Deddf Cydraddoldeb** 2010 ar gyfer Cymru a Lloegr, erbyn diwedd 2018.
- Ar Lywodraeth yr Alban i daclo'r **gwahaniaeth mewn daliadaeth trwy** adolygu ac addasu elfennau o Ddeddf Tai (yr Alban) 2006 sy'n ymwneud â'r ddeddfwriaeth Cynllun Cymorth ynghyd ag adolygiad o'r cyllid a chanllaw cysylltiedig, er mwyn sicrhau cysondeb mewn canlyniadau, arfer da a hawliau cyfartal ar gyfer pobl anabl, waeth beth yw eu math o ddaliadaeth. Ar Lywodraeth yr Alban i **gynyddu'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer addasiadau ar draws daliadaeth** i fodloni galw cynyddol.
- Ar Lywodraeth yr Alban i **gyflwyno rheoliadau yn unol ag adran 37 Deddf Cydraddoldeb 2010, sy'n darparu fod gan bobl anabl hawl i wneud addasiadau i rannau cyffredin parthed yr Alban**.

## Yng Nghymru rydym yn galw:

- Ar Lywodraeth Cymru i beilotio hyfforddiant ar gyfer landlordiaid sector preifat ar hygyrchedd yn rhan o'r cynllun Rhentu Doeth Cymru, i drwyddedu landlordiaid ac asiantau dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

## 3. Paru cartrefi gyda'r bobl sydd eu hangen

### Yng Nghymru, Lloegr, a'r Alban rydym yn galw:

- Ar awdurdodau lleol a Darparwyr Cofrestredig Tai Cymdeithasol/Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i **fewnosod egwyddorion byw'n annibynnol i bolisïau asesu a dyrannu** ar gyfer tai cymdeithasol, i sicrhau dewis a rheolaeth wirioneddol.
- Ar awdurdodau lleol i **gynyddu eu gwybodaeth o stoc tai cymdeithasol hygyrch presennol yn arwyddocaol**, ac i ddatblygu gwasanaethau cymorth a gwybodaeth arbenigol i hwyluso paru addas.
- Ar awdurdodau lleol i weithredu arferion gorau ar ddefnyddio **cofrestrau tai hygyrch**, gyda'r nod mwy hirdymor o ddefnyddio methodoleg safonol ar draws yr holl awdurdodau lleol.
- Ar awdurdodau lleol i weithio gyda'r GIG i sicrhau bod pobl yn byw mewn gofal sefydliadol a phreswyl yn cael eu cefnogi i fyw'n annibynnol.
- Ar lywodraethau i **gyhoeddi safonau, a monitro ac adolygu effeithiolrwydd Cofrestrau Tai Hygyrch**.

## 4. Cefnogi pobl i fyw'n annibynnol

### Ar draws Cymru, Lloegr, a'r Alban rydym yn galw:

- **Ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig** i sicrhau bod y polisi newydd **a'r model cyllido ar gyfer tai yn ategu hawliau tenantiaid**, ac nad yw rhyddidau a dewis wedi eu cyfyngu, yn unol â'r UNCRPD. Mae angen i'r model newydd daclo'r ansicrwydd presennol a darparu marchnad sefydlog i ddarparwyr tai a'r rhai sy'n darparu cymorth arbenigol.
- Ar awdurdodau lleol o sicrhau bod **gwasanaethau tai, gofal ac iechyd yn gwbl integredig a bod cronfeydd digonol ar gael i gefnogi pobl i fyw'n annibynnol**, a bod yna ffocws cynyddol ar ataliaeth.
- Ar awdurdodau lleol i **ddarparu gwasanaethau cyngor ac eiriolaeth anabledd arbenigol cynyddol** ar gyfer dewisiadau tai.

### Yng Nghymru a Lloegr rydym yn galw:

- Ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i sicrhau bod ei **adolygiad o'r Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012** yn ystyried effaith cael gwared ar dai o gwmpas cymorth cyfreithiol ar gyfer pobl anabl, ac yn cymryd camau effeithiol i liniaru unrhyw effeithiau a nodwyd.

# 1. Cyflwyniad



**Yn Rhagfyr 2016, lansiodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (‘y Comisiwn’) ymchwiliad ffurfiol ar dai ar gyfer pobl anabl. Edrychodd yr ymchwiliad ar os oedd argaeledd tai hygyrch ac addasadwy, a’r gwasanaethau cefnogaeth cysylltiedig â hyn, yn bodloni hawliau pobl anabl i fyw’n annibynnol.**

Mae ein hymchwiliad yn cwmpasu Cymru, Lloegr a’r Alban. Mae cyfraith a pholisi tai yn fater sydd wedi ei ddatganoli gan fwyaf yn yr Alban a Chymru, ond mae meysydd polisi cysylltiedig megis nawdd cymdeithasol a chyllid ar gyfer llety â chymorth wedi ei gadw ar gyfer Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

## Hanes Prydain o ran tai hygyrch a byw’n annibynnol

Cydnabyddir pwysigrwydd tai digonol yng Nghyfamod y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol, sy’n cynnwys ‘hawl pob unigolyn i safon byw digonol iddo ei hun a’i deulu, yn cynnwys tai digonol’.

Mae’r hawl i fyw’n annibynnol hefyd wedi bod yn ganolog i’w ymchwiliad hwn: mae wedi ei gorffori yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (UNCRPD), y mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi ymrwymo iddo.

Yn dilyn ei adolygiad o gofnod hawliau anabledd Prydain yn Awst 2017, amlygodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl gydag Anableddau bryderon fod y sefyllfa ym Mhrydain yn gwaethygu o ran hawl pobl anabl i fyw’n annibynnol a chael eu cynnwys yn y gymuned (UNCRPD Erthygl 19). Pwysleisiodd hefyd nad oedd yna safonau hygyrchedd digonol yn y Deyrnas Unedig parthed tai fforddiadwy (UNCRPD Erthygl 9) (Pwyllgor ar Hawliau Pobl ag Anableddau, 2017).

Amlygodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig bryderon penodol ‘fod mesurau cyni wedi llesteirio cynnydd hygyrchedd’, a phryderon parthed ‘y lleihad mewn cynlluniau diogelu cymdeithasol parthed tai, incwm yr aelwyd a chyllidebau ar gyfer byw’n annibynnol’. Galwodd am weithredu i daclo’r pryderon hyn (UNCRPD, 2017). Mae adolygiadau o fecanweithiau a phrosesau hawliau dynol eraill y Cenhedloedd Unedig hefyd wedi tynnu sylw at broblemau gyda thai addas a byw’n annibynnol i bobl anabl (OHCHR, 2014; ICESCR, 2016).

---

[1] Rydym yn defnyddio’r term Llywodraeth y Deyrnas Unedig i gyfeirio at gyfraith a pholisi sy’n berthnasol i Gymry, Lloegr a’r Alban ond sydd wedi ei gadw gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Rydym yn dynodi ble mae’r gyfraith a pholisi wedi datganoli i Lywodraethau’r Alban a Chymru.

## Ein hymchwiliad – cylch gorchwyl

Cyflawnwyd ein hymchwiliad dan adran 16 Deddf Cydraddoldeb 2010. Roedd y cylch gorchwyl ar gyfer ein hymchwiliad yn gosod profiadau pobl anabl o dai yn ganolog i'r gwaith.

Archwiliodd yr ymchwiliad y cyflenwad o dai hygyrch ar draws pob math o ddeiliadaeth, polisïau ac arferion dyrannu, mathau o gefnogaeth daliadaeth, addasiadau a rheoliadau cynllunio ac adeiladu. Ceir manylion y cylch gorchwyl yn yr atodiad i'r adroddiad hwn.

Mae gofal cymdeithasol a diwygio lles yn feysydd polisi pwysig a chysylltiedig sy'n cael effaith ar dai. Nid yw'r materion hyn wedi eu harchwilio mewn manylder yma. Fodd bynnag, amlygwyd goblygiadau polisi diweddar Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyflenwad llety â chymorth fel mater allweddol ar gyfer rhai pobl anabl, ac felly mae'r ymchwiliad yn ystyried y mater hwn ym Mhennod 6. Ni edrychodd yr ymchwiliad yn agos ar ofal preswyl, ond fe wnaeth ystyried tystiolaeth parthed y problemau mae pobl anabl yn wynebu wrth symud o ofal ysbyty a phreswyl – problemau sy'n gallu atal pobl anabl rhag byw'n annibynnol yn y gymuned.

**1 o bob 3**



o bobl anabl mewn **eiddo rhent preifat** yn byw mewn llety anaddas

**1 o bob 5**



o bobl anabl mewn **tai cymdeithasol** yn byw mewn llety anaddas

**1 o bob 7**



o bobl anabl yn **eu cartrefi eu hunain** yn byw mewn llety anaddas

# Methodoleg

Mae adroddiad yr ymchwiliad yn gwneud defnydd o ystod eang o ffynonellau tystiolaeth. Cynlluniwyd ein gweithgareddau casglu tystiolaeth i daclo bylchau yn y sylfaen o dystiolaeth, i gafael gwybodaeth gyfredol, ac i glywed yn uniongyrchol gan ymarferwyr a phobl anabl gyda phrofiad ymarferol o faterion yn ymwneud â thai hygyrch.

Fe wnaethom gyhoeddi 'galwad am dystiolaeth,' a gasglodd farnau gan:

- bobl anabl (419 ymateb)
- sefydliadau pobl anabl (DPOs) (65 ymateb), a
- darparwyr tai (87 ymateb).

Fe wnaethom gynnal arolwg ar-lein byw o therapyddion galwedigaethol, a gasglodd 98 o ymatebion. Tra'i fod yn aml wedi ei gyflwyno'n rhifol, ni ystyrir fod y data yma yn ystadegol arwyddocaol ac mae'r canrannau a roddir yn cyfeirio at y gyfran o ymatebwyr yn y sampl yn unig. Nid ydym yn hawlio bod y rhain yn ystadegol gynrychiadol; fodd bynnag, maent yn cynnig cipolwg gwerthfawr ar farnau a phrofiadau pobl.

Roedd ein staff hefyd yn defnyddio wyneb yn wyneb, ffôn ac e-bost i ymgysylltu'n uniongyrchol gyda rhanddeiliad a sefydliadau ym maes tai ac anabledd: yn achos cynnal cyfweliad ffurfiol, roedd y sesiynau yn cael eu recordio a thrawsgrifio.. Cyflwynir y dystiolaeth hon yn ddienw yn yr adroddiad hwn.

Mae adroddiad yr ymchwiliad yn defnyddio ymchwil a gyhoeddwyd, ystadegau swyddogol a dadansoddiadau polisi. Rhoddir cyfeiriadau at ffynonellau sydd wedi eu cyhoeddi a'u rhestru yn llawn yn y llyfryddiaeth.

Rydym hefyd wedi comisiynu dau brosiect ymchwil mawr yn rhan o'r ymchwiliad hwn. Cynhaliodd Prifysgol Stirling adolygiad llenyddiaeth cryno a chyfweliadau ansoddol gyda phobl anabl mewn oddeutu 50 o aelwydydd. Mae'r ymchwil yn rhoi cipolwg manwl ar y profiadau mae pobl anabl yn eu byw, ond nid yw'n ystadegol gynrychiadol. Cyflawnodd IFF Research arolwg meintiol o awdurdodau lleol parthed eu gallu i fodloni anghenion tai pobl anabl; cafwyd ymateb gan wythdeg tri y cant o holl awdurdodau lleol Prydain, sy'n golygu fod yr ystadegau yn ystadegol gynrychiadol.

Mae'r adroddiad yn cynnwys pedair prif bennod sy'n cwmpasu'r cyflenwad o dai hygyrch, addasiadau, dyraniadau, cyngor a chefnogaeth a llety â chymorth.



# 2. Cynyddu'r cyflenwad o gartrefi mwy hygyrch ac addasadwy

**Mae galw am dai hygyrch yn cynyddu, ond nid oes cyflenwad digonol ar draws pob math o ddeiliadaeth. Heb gynyddu'r cyflenwad o dai hygyrch ac addasadwy, bydd pobl anabl yn parhau i wyneb gwahaniaethu ac anfantais o ran tai.**

> **"Dwi heb fod allan ers 2011, ar wahân i gyfnodau allweddol mewn ysbytai. Mae fy fflat ar yr ail lawr, heb lifft; dydy o ddim yn hygyrch i gadair olwyn, ac er bod gen a fy mod angen cadair olwyn wedi ei phweru, dwi ddim hyd yn oed ei defnyddio tu fewn, gan nad yw'r fflat wedi ei addasu (fframiau drysau bach, ystafelloedd bach, dim lle i droi). Dwi wedi bod yn gaeth yn llorweddol ac yn gaeth i'm cartref ers chwe mlynedd. Mae'r awdurdod lleol wedi asesu fy sefyllfa fel un o angen uchel, ac eto yn disgwyl i mi ymgeisio'n wythnosol am eu heiddo a hysbysebir. Nid yw'r eiddo yma yn addas; er enghraifft, maent yn cynnwys fflatiau wedi eu lleoliad ar y pedwerydd llawr heb lifftiau, fflatiau gyda grisiau mewnol, a fflatiau gyda ramp (sy'n golygu y gallwch gyrraedd y drws ffrynt) ond ble nad yw'r eiddo ei hun wedi ei gynllunio ar gyfer defnydd o gadair olwyn a does dim lle i storio offer."**
>
> Ymatebydd i'r alwad am dystiolaeth

Mae'r argyfwng tai wedi bod yn destun trafodaeth genedlaethol ers rhai blynyddoedd bellach. Fe gydnabyddir yn eang nad oes cyflenwad digonol o dai fforddiadwy, tra nad yw'r cyflenwad tai cyfredol ar draws Prydain yn aml yn ddigon hygyrch neu wedi ei addasu i fodloni gofynion pobl anabl – mae maint ystafelloedd yn rhy fach, mae gan nifer faddonau wedi eu gosod yn hytrach na chawod, ac mae grisiau i'r drysau ffrynt.

Mae cydnabyddiaeth genedlaethol fod yna angen brys i adeiladu mwy o dai. Mae'r Llywodraeth wedi ymroi i adeiladu 300,000 o dai newydd y flwyddyn yn Lloegr (Trysorlys Ei Mawrhydi, 2017). Yng Nghymru a'r Alban, bwriedir adeiladu 20,000 a 50,000 o gartrefi newydd yn y drefn honno erbyn 2021. Mae Llywodraeth yr Alban wedi gwneud sawl cyhoeddiad polisi yn disgrifio tai hygyrch fel elfen allweddol o fyw'n annibynnol (Llywodraeth yr Alban, 2016; 2017). Fodd bynnag, nid oes cynllun clir yng Nghymru, Lloegr na'r Alban i daclo'r prinder amlwg o ran cyflenwad tai hygyrch.

## Cipolwg ar ofynion tai

- Yn y Deyrnas Unedig, mae 13.3 miliwn o bobl yn anabl, cynnydd o 11.9 miliwn yn 2013/14 (ONS, 2016).
- Yn Lloegr, dim ond 7% o gartrefi sy'n cynnig nodweddion hygyrchedd minimol (DCLG, 2015a).
- Yn Lloegr, mae gan oddeutu 365,000 o bobl anabl anghenion tai sydd heb eu bodloni (DCLG, 2016a).
- Yn yr Alban, dim ond 0.7% o dai awdurdod lleol yr Alban, ac 1.5% o eiddo cymdeithasau tai sy'n hygyrch i ddefnyddwyr cadair olwyn (Independent Living in Scotland, 2017).
- Yn yr Alban, mae oddeutu 87,340 a aelwydydd yn cynnwys rhywun sy'n defnyddio cadair olwyn. Mae dros 17,000 o bobl sy'n defnyddio cadair olwyn yn adrodd anghenion tai nad ydynt wedi eu bodloni (Horizon Housing, 2018).
- Yng Nghymru a Lloegr, mae pobl gydag anabledd dysgu sy'n byw gyda theulu a ffrindiau yn adrodd eu bod eisiau mwy o annibyniaeth, gydag oddeutu 70% yn adrodd eu bod eisiau newid eu trefniadau byw i gyflawni hyn (Mencap, 2012).
- Bydd poblogaeth sy'n heneiddio'n gyflym yn gweld y nifer o bobl anabl yn parhau i gynyddu – yn Lloegr disgwylir i'r nifer o bobl dros 65 godi o dros 50% rhwng 2010 a 2030 (Ymddiriedolaeth Habinteg a Papworth, 2016).
- Dengys rhagolygon Llywodraeth Cymru y bydd y nifer o bobl dros 65 oed gyda phroblemau mudoledd yn cynyddu o 58% erbyn 2035 (Swyddfa Archwilio Cymru, 2018).

## Profiad pobl anabl

Mae pobl anabl yn fwy tebygol na phobl nad ydynt yn anabl i fod yn anfodlon gyda'u cartrefi (DCLG, 2016a).

> **"Dwi methu gadael fy nghartref heb ofalwr, oherwydd problemau hygyrchedd. Dwi'n methu cael mynediad at fy ngardd heb ofalwr am yr un rheswm. Dwi'n methu cael fy nghadair pŵer wedi ei galluogi i'w defnyddio tu allan am nad oes ramp. Does gen i ddim annibyniaeth o gwbl. Dwi'n cysgu i lawr y grisiau ac yn aml yn methu cael mynediad at yr ystafell ymolchi i fyny'r grisiau, dim ond y toiled i lawr y grisiau. Dydy fy landlord ddim yn fodlon i mi newid pethau yn yr eiddo, felly dwi ddim yn gallu cael y rheiliau gafael dwi eu hangen na chymhorthion eraill, sydd unwaith eto'n fy ngwneud yn fwy dibynnol ar ofalwyr ac yn cyfyngu fy annibyniaeth."**
>
> Ymatebydd i'r alwad am dystiolaeth

Mae profiad pobl anabl yn amrywio yn ôl y math o ddaliadaeth sydd ganddynt: mae lefelau boddhad ar ei isaf ymysg y rhai sy'n rhentu gan landlord preifat. Canfu Arolwg Tai Lloegr fod pobl anabl sy'n rhentu'n breifat y mwyaf tebygol (32 y cant) i deimlo fod eu llety yn anaddas i'w hanghenion. Dywedodd oddeutu un pumed o bobl anabl sy'n byw mewn tai cymdeithasol (22 y cant o denantiaid cymdeithasau tai a 23 y cant o denantiaid awdurdodau lleol) nad oedd eu llety yn addas. Roedd pobl anabl sy'n berchen ar eu cartrefi eu hunain y lleiaf tebygol (15 y cant) i deimlo fod eu llety yn anaddas (DCLG, 2016a).

Mae rhieni a gofalwyr plant anabl yn wynebu heriau penodol o ran eu cefnogi i fyw'n annibynnol. Ar lefel awdurdod lleol, maent yn wynebu gofal cymdeithasol nad yw wedi ei ariannu'n ddigonol a diffyg ymroddiad i fyw'n annibynnol i sicrhau y gall pobl anabl symud allan o'u cartref teuluol os dymunant.

**“Rydym yn gofalu am ein merch, sydd â Syndrom Down’s ac sydd bellach yn 45 oed. Mae fy ngŵr a minnau yn ein saithdegau, ac yn poeni’n gyson am beth fydd yn digwydd pan na fyddwn yn gallu ymdopi gyda’n rôl gofalu llawn amser mwyach. Rydyn ni wedi bod yn holi ein hawdurdod lleol ers 20 mlynedd am help i ganfod llety gwarchod/a rennir/â chymorth i fyw yn lleol, ond heb weld unrhyw gynnydd o gwbl. Nawr, oherwydd cyfyngiadau ariannol difrifol mae pob awdurdod lleol yn wynebu, ni allwn ddychmygu y bydd fyth yn digwydd nes bydd un neu’r ddau ohonom yn rhy hen i ymdopi. Rydym yn teimlo bod ein merch wedi ei hamddifadu ‘r cyfle i fwynhau rhywfaint o annibyniaeth, ac wrth i’r blynyddoedd fynd heibio mae ei dibyniaeth arnom ni wedi cynyddu a’i galluoedd wedi gostwng; yn 25 oed byddai ganddi’r sgiliau a’r hyder i symud, ond nawr mae’n ddarlun gwahanol.”**

Ymatebydd i’r alwad am dystiolaeth

Ni ellir gor-ddweud effaith byw mewn cartref anhygyrch ar bobl anabl; roedd ynysiad ac unigrwydd yn themâu cyffredin a adroddwyd i’n hymchwiliad.

**“Dwi methu cael mynediad at y tŷ i gyd, yn cynnwys ystafell fy mhlant. Dwi’n methu defnyddio fy nghadair olwyn o amgylch y tŷ, felly dwi’n blino’n gyflym iawn dim ond yn mynd o’r grisiau i fy nghadair neu’r gegin – tua tair metr. Mae hyn yn cwtogi ar faint o ryngweithio alla i ei gael gyda fy nheulu, a hefyd yn golygu fy mod angen llawer mwy o help gyda phopeth nag y byddwn i petai fy nghartref yn hygyrch.”**

Ymatebydd i’r alwad am dystiolaeth

Mae yna gofnodion niferus o gostau ariannol, emosiynol a dynol tai anhygyrch. Maent yn cynnwys angen cynyddol am ofal cymdeithasol, dibyniaeth gynyddol a ofalwyr ac aelodau o'r teulu, damweiniau (sy'n gallu newid bywyd rhywun neu fod yn angheuol), a derbyniadau i ysbytai a chyfnodau hir mewn ysbytai y gellid eu hosgoi.

Mae tai anhygyrch hefyd yn gysylltiedig gyda deilliannau cyflogaeth gwael ymysg oedolion oed gwaith. Mae pobl gyda chartrefi anhygyrch bedair gwaith yn fwy tebygol o fod yn ddi-waith neu o beidio ceisio gwaith na'r rhai nad yw eu hanghenion wedi eu bodloni, neu sy'n anabl ond nad ydynt angen cartref hygyrch (Habinteg, 2016).

Canfu casgliadau o arolwg o bobl anabl fod oddeutu hanner ymatebwyr yr oedd eu gofynion tai wedi eu bodloni yn adrodd eu bod yn teimlo'n fwy diogel ac mewn rheolaeth. Yn ogystal, adroddodd tua hanner yr ymatebwyr well cyswllt cymdeithasol a gwelliannau yn eu iechyd a lles (Habinteg, 2016).

## Yw Safonau Adeiladu yn gweithio i gefnogi cyflawniad tai hygyrch?

Mae cynyddu'r cyflenwad o dai hygyrch newydd yn dechrau gyda gwella sut mae gofynion pobl anabl yn cael eu cynnwys mewn polisi chyfreithiau cenedlaethol. Mae safonau adeiladu yn amrywio ledled Prydain, ond maent oll yn darparu'r templed i ddatblygwyr ddilyn wrth adeiladu cartrefi newydd.

**Mae costau addasu cartref nodweddiadol hyd at**

**5 gwaith yn fwy**

**na gwneud un yn hyblyg yn ystod y cam dylunio**



## Lloegr

Rhaid i bob cartref newydd, gyda rhai eithriadau, fodloni Rhan M4(1) y Rheoliadau Adeiladu a gyflwynwyd yn Hydref 2015 ac a addaswyd ym Mawrth 2016. Tra bod hyn yn cynrychioli gwelliant bychan ar safonau adeiladu blaenorol, nid yw'n cynnwys toiled hygyrch i lawr y grisiau, ac nid yw'n cynnwys darpariaeth ar i dai gael eu haddasu'n hawdd i gynnwys nodweddion hygyrch eraill, os bydd angen y rhain yn ddiweddarach.

Mae Rhan M4(2) a Rhan M4 (3) dewisol yn darparu safon hygyrchedd llawer gwell i gartrefi newydd. Mae gan Ran M4(2) 16 o nodweddion hygyrchedd neu addasadwy, ac mae'n gyffredinol yn gyfatebol i'r Safonau Cartrefi Gydol Oes, sef cyfres o 16 maen prawf dylunio a fwriedir i wneud cartrefi yn haws i'w haddas ar gyfer defnydd oes heb lawer o gost. Er nad ydynt yn gwneud tai yn gwbl hygyrch, mae'r nodweddion hyn yn galluogi gosod y mwyafrif o addasiadau yn ddiweddarach yn gyflym a rhad. Mae'r safon hon hefyd yn dueddol o weithio'n well i bawb, gan ei bod yn ganiatáu ar gyfer mwy o le i symud, ac ar gyfer pethau fel cadeiriau gwthio a phramiau. Rhan M4(3) yw'r safon sy'n gwbl hygyrch i gadeiriau olwyn, ac mae'n cynnwys lle ar gyfer lifft trwy'r llawr.

Asesiad Llywodraeth y Deyrnas Unedig ei hun yw fod adeiladu i safonau rhan M4(2) yn cynyddu costau adeiladu o £1,100 fesul cartref (DCLG, 2014). Ar gyfer tai un i ddwy ystafell wely llai, yn gyffredinol mae angen mwy o dir ar gyfer pob tŷ i ddarparu ar gyfer mynedfa fwy, grisiau a thoiled i lawr y grisiau. Mae gwneud addasiadau diweddarach i dŷ sydd wedi ei adeiladu i safonau M4(1) fel arfer yn gostus a drud ac, mewn achosion eithafol, gall fod yn fwy na gwerth ailadeiladu'r tŷ o'r cychwyn. Dywedodd datblygwr preifat wrth yr ymchwiliad ei fod yn meddwl y byddai costau adeiladu cynyddol yn gysylltiedig ag adeiladu i Rhan M4(2) yn diflannu yn tymor hirach pe byddai'n dod yn safonol o fewn y diwydiant.

Ategwyd y farn hon gan ddatblygwr arall mewn tystiolaeth i ymchwiliad y Pwyllgor Menywod a Chydraddoldebau ar anabledd a'r amgylchedd adeiledig (WEC, 2017):

> 'Pan fyddwch chi'n codi'r safonau, mae yna boen yn y byrdymor.….Mae gennych chi safleoedd sy'n cael eu hadeiladu dan un disgwyliad o beth ydych chi'n mynd i'w wario ar ei gyflawni ac mae'n mynd i gostio mwy. Mae hynny naill ai'n mynd i effeithio ar broffidioldeb neu gyflawniad neu rywbeth arall... Os ydych chi'n codi'r holl safonau ar unwaith, bydd hynny'n effeithio ar gyflawniad tai. Pum mlynedd yn ddiweddarach mae pawb ar yr un lefel. Rydyn ni i gyd yn prynu tir yn seiliedig ar y safonau newydd ac efallai nad yw'n gymaint o broblem. Mae'n broses o drosiant. Pymtheg mlynedd yn ôl, roedd adeiladwyr tai wedi dychryn fod angen rhoi toiledau i lawr y grisiau mewn cantrefi dwy ystafell wely.'

## Yr Alban

Mae Llywodraeth yr Alban wedi cydnabod yr angen i gynyddu'r cyflenwad o gartrefi newydd ac wedi gwneud buddsoddiadau arwyddocaol i adeiladu 50,000 o gartrefi newydd – 35,000 ar gyfer rhent cymdeithasol – erbyn 2021 (Llywodraeth yr Alban, 2015).

Galwodd strategaeth dai Llywodraeth yr Alban, 'Homes Fit for the 21st Century 2011-2020', am gynnydd arwyddocaol yn y nifer o gartrefi a allai fodloni anghenion pobl anabl a phobl hŷn. Roedd 'Fairer Scotland for Disabled People' (Llywodraeth yr Alban, 2016) ac 'Age, Home and Community: A Strategy for Older Peoples Housing' (2017) yn eirioli ar gyfer egwyddorion byw'n annibynnol ac yn cydnabod yr angen i sicrhau cyflenwad digonol o dai ar draws pob deiliadaeth tai. Fodd bynnag, nid yw dogfen 'Joint Housing Delivery Plan' (2015) Llywodraeth yr Alban, sydd â'r nod o sicrhau cyflawniad amcanion polisi 'Homes Fit for the 21st Century' a strategaethau cysylltiedig, yn cyfeirio'n benodol at yr angen dybryd i adeiladu tai newydd hygyrch.

Mae rhan o'r broblem o gyflenwad cyfyngedig o dai hygyrch a hygyrch i gadeiriau olwyn yn yr Alban o ganlyniad i'r Rheoliadau adeiladu, a oedd â gofynion cyfyngedig cyn 2015 ar gyfer mynediad lefel a nodweddion hygyrchedd eraill. Roedd newidiadau diweddar i Reoliadau adeiladu yr Alban yn cynnwys mynediad lefel a lle ar y llawr gwaelod i drosi toiled yn ardal cawod.

Yn yr Alban, mae'n ofynnol i unrhyw dai cymdeithasol a adeiladwyd gyda chyllid grant fodloni'r Safon Tai ar gyfer Anghenion Amrywiol (HfVN). Awgrymodd tystiolaeth o gyfweliadau gyda darparwyr tai a DPOs fod tai wedi eu hadeiladu ar gyfer rhent cymdeithasol yn defnyddio'r HfVN yn gyffredinol o safon well ar gyfer pobl anabl gan ei bod yn 'rhydd o rwystrau'. Fodd bynnag, mae'r HfVN yn 20 oed ac mae angen ei ddiweddaru i adlewyrchu gofynion a disgwyliadau newidiol yn deillio o ddatblygiadau ym maint offer a dyluniad, technegol, amrywiaeth aelwydydd a ffyrdd o fyw.



**Bydd Llywodraeth yr Alban yn adeiladu**

**50,000**

**o gartrefi newydd erbyn**

**2021**

**ond nid oes targed i sicrhau bod cyfran yn cael eu hadeiladu i safon hygyrch i gadair olwyn**

## Cymru

Datganolwyd Rheoliadau Adeiladu i Lywodraeth Cymru yn 2011, ond ni chafwyd unrhyw newidiadau arwyddocaol i Ran M. Yng Nghymru, mae'r canllaw technegol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau Adeiladu yn gofyn '[am] wneud darpariaeth resymol i bobl gael mynediad at a defnyddio adeilad a'i gyfleusterau'. Golyga hyn y dylai pob cartref newydd sicrhau mynediad lefel, fod â chyfleusterau ystafell ymolchi ar y llawr gwaelod, ac bod modd eu haddasu.

Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn i unrhyw ddatblygiadau a ariennir yn gyhoeddus gael eu hadeiladu i'r Gofynion Ansawdd Datblygu (2005): i gyflawni hyn, rhaid i bob cartref gael ei adeiladu i Safonau Cartrefi Gydol Oes.

Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn i bob landlord cymdeithasol yng Nghymru sicrhau bod eu holl stoc tai cyfredol yn bodloni Safon Ansawdd Tai Cymru (WHQS) erbyn Rhagfyr 2020. Dylai'r holl gartrefi sy'n eiddo i landlord cymdeithasol fodloni Safon Ansawdd Tai Cymru, a chyn belled â phosibl weddu i ofynion penodol pob aelwyd. O 31 Mawrth 2017, roedd 86 y cant o dai cymdeithasol yng Nghymru yn cydymffurfio â'r Safon.

mae mwy na chwarter yr holl bobl sy'n byw yng Nghymru yn anabl

**Yn 2015/16 derbyniodd**

**32,000**

**o bobl addasiad i'w cartref, gan godi 11.7% ers 2013/14**



## Pa dystiolaeth mae awdurdodau lleol yn defnyddio i ragweld angen a galw am dai derbyniol?

Er mwyn datblygu Cynlluniau Lleol a strategaethau tai, ac i ddeall galw cyfredol ac yn y dyfodol am dai hygyrch, byddai angen i awdurdodau lleol yng Nghymru, Lloegr, a’r Alban gael cronfa ddata dda parthed pobl anabl. Mae hyn yn cynnwys gwybod, er enghraifft, faint o bobl anabl sy’n byw yn ardal yr awdurdod, y mathau o amhariad sydd ganddynt, ac amcangyfrifon o’r nifer o bobl sy’n debygol o fod angen cartref hygyrch yn y dyfodol.


Canfu ein harolwg mai dim ond 12 y cant o awdurdodau lleol ar draws Prydain oedd yn graddio’r data sydd ar gael iddynt fel ‘da’ neu ‘da iawn’ o ran ei ddefnyddioldeb cyffredinol, tra bod nifer sylweddol fwy (21 y cant) yn ei raddio fel ‘gwael’ neu ‘wael iawn.’ Roedd ansawdd ac argaeledd data ychydig yn well na’r cyfartaledd – er yn dal yn isel – yn yr Alban (24 y cant) o gymharu â Chymru a Lloegr (15 y cant ac 11 y cant yn y drefn honno) (EHRC, 2018a).

Yn ogystal, dywedodd mwyafrif yr awdurdodau lleol eu bod yn dibynnu ar y ffynonellau data hyn yn eu dogfennau strategol allweddol, sy’n darparu tystiolaeth o angen am wahanol fathau o dai. Dim ond 35 y cant o awdurdodau yn Lloegr a 26 y cant yng Nghymru a gomisiynodd arolygon mewnol i hysbysu datblygiad eu hasesiadau marchnad dai. Yn yr Alban, comisiynodd 62 y cant o awdurdodau lleol eu harolygon eu hunain i archwilio anghenion tai. O ystyried graddiad isel awdurdodau lleol o’r data sydd ar gael iddynt, mae hyn yn awgrymu fod nifer yn dibynnu ar sylfaen tystiolaeth gwan wrth asesu anghenion pobl anabl ar gyfer tai hygyrch a gwasanaethau cysylltiedig.

**Dim ond**

**12%**

**o gynghorau yn ystyried y wybodaeth sydd ganddynt ar anghenion pobl anabl lleol fel ‘da’ neu ‘dda iawn’**



**Mae pumed**

**21%**

**yn ei raddio fel ‘gwael’ neu ‘wael iawn**

Er mwyn bodloni gofynion tai pobl anabl, mae'n allweddol fod awdurdodau lleol yn ymgysylltu gyda phobl anabl i sicrhau eu bod yn cael cyfraniad ystyrlon i ddatblygiad Cynlluniau Lleol yn Lloegr, Cynlluniau Datblygu Lleol yng Nghymru a Strategaethau Tai Lleol yn yr Alban. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol fodloni eu rhwymedigaethau dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED). Mae'r PSED yn gofyn i awdurdodau cyhoeddus rhestredig ystyried yr angen i ddileu gwahaniaethu, hybu cydraddoldeb cyfle, ac i feithrin perthnasau da rhwng gwahanol bobl ac, yn y cyd-destun hwn, i ystyried anghenion pobl anabl.

## A yw cyfraith cynllunio a pholisi cynllunio cenedlaethol yn cefnogi awdurdodau lleol i gyflawni tai hygyrch?

Mae sawl elfen o gyfraith a pholisi cynllunio wedi datganoli ar draws Cymru, Lloegr, a'r Alban, ac mae gan bob gwlad systemau a phrosesau ychydig yn wahanol. Mae'r tair system wedi eu 'harwain gan gynllun', sy'n golygu y sefydlir y polisi cynllunio cenedlaethol a lleol mewn cynlluniau datblygu ffurfiol, yn disgrifio defnydd tir a meini prawf ar gyfer caniatâd cynllunio. Maent oll yn ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion masnachol a lles y cyhoedd.

Mae polisi a chyfraith yn y maes hwn yn datblygu'n gyflym, er enghraifft yn 2017 cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig Bapur Gwyn ar Dai, yn sefydlu amrediad o fesurau i 'ddiwygio'r farchnad dai a chynyddu'r cyflenwad o dai newydd' yn Lloegr. Cyhoeddwyd ymgynghoriad pellach ar y Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol diwygiedig ym Mawrth 2018.

Canfu ymchwiliad y Pwyllgor Menywod a Chydraddoldebau i anabledd a'r amgylchedd adeiledig nad yw Cynlluniau Lleol o reidrwydd yn adlewyrchu'r galw am dai hygyrch (WEC, 2017):

> 'Ni ddylid canfod nad yw Cynlluniau Lleol yn gadarn heb dystiolaeth eu bod yn taclo mynediad ar gyfer pobl anabl o ran tai, llefydd cyhoeddus a'r amgylchedd adeiledig ehangach; i gefnogi hyn, dylai'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ymchwilio i gydymffurfiad yr Arolygiaeth Gynllunio gyda'r Ddeddf Cydraddoldeb. Dim ond ble ceir tystiolaeth fod cynnig yn gwneud darpariaeth ddigonol ar gyfer hygyrchedd ddylid rhoi caniatâd cynllunio.'

Yn yr Alban, mae'r Fframwaith Cynllunio Cenedlaethol (NPF3) (Llywodraeth yr Alban, 2014) yn sefydlu strategaeth Llywodraeth yr Alban ar gyfer datblygiad yr Alban dros 20 i 30 mlynedd. Mae'n ofynnol i awdurdodau cynllunio ystyried polisïau NPF3 wrth ddrafftio cynlluniau datblygu. Mae Llywodraeth yr Alban yn darparu cynlluniau gweithredu wedi diweddaru rheolaidd ar sut ddylid gweithredu NPF3.

Amlygodd adolygiad annibynnol o system Gynllunio'r Alban yn 2016 yr angen i'r system gynllunio fod yn fwy ymatebol i anghenion tai amrywiol poblogaeth bresennol a dyfodol yr Alban, yn arbennig pobl anabl a phobl hŷn. Nododd yr adolygiad yr angen i gynllunwyr weithio gyda DPOs a safonau adeiladu i arloesi a mewnosod tai hygyrch, ac i ddilyn ymagwedd ragweithiol ar gyfer ehangu tai i bobl hŷn (Beveridge et al., 2016).

Yn 2017, cyflwynodd Llywodraeth yr Alban y Bil Cynllunio (yr Alban), a fwriadwyd i 'gryfhau cyfraniad y system gynllunio i dwf cynhwysol a grymuso cymunedau'. Nid yw'n glir ar hyn o bryd os bydd y Bil hwn yn gwneud darpariaethau a fyddai'n cefnogi cyflenwi tai hygyrch yn yr Alban.

Mae Polisi Cynllunio Cymru (2016) yn gofyn i awdurdodau cynllunio lleol gynnwys targed ar draws yr awdurdod ar gyfer ai fforddiadwy, yn seiliedig ar Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol (LHMAs). Mae hefyd yn sefydlu disgwyliad y bydd cynllunwyr yn ystyried anghenion amrywiol pobl yn eu cymuned:

> 'Dylai awdurdodau cynllunio lleol a datblygwyr ystyried y mater o hygyrchedd i bawb, yn cynnwys anghenion pobl gyda nam synhwyraidd, pobl gydag anawsterau dysgu a phobl gyda nam symudedd, fel defnyddwyr cadair olwyn, pobl hŷn a phobl gyda phlant ifanc, yn ystod cam gynnar o'r broses gynllunio.' (Rhifyn 9)

Yn 2018, dechreuodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad i adolygu'r canllaw Polisi Cynllunio Cymru i adlewyrchu'r gofynion dan y Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Ddeddf hon yn gofyn i gyrff cyhoeddus rhestredig wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol poblogaeth Cymru. Mae'r 'pum dull o weithio' a sefydlir yn y Ddeddf yn gofyn i gyrff cyhoeddus: gydbwyso effaith hirdymor eu penderfyniadau yn erbyn angen byrdymor; gweithredu i atal problemau rhag codi neu waethygu; cydweithio; cynnwys pobl gyda diddordeb; a sicrhau eu bod yn integreiddio nodau llesiant i amcanion a osodir. Gallai gweithredu'r dyletswyddau a'r 'pum dull o weithio' yn y Ddeddf i bolisi cynllunio fod yn ffordd dda o ddelio â'r prinder tai hygyrch ac addasadwy.

Yng Nghymru, canfu ein hymchwiliad fod yna ddiffyg data cenedlaethol ar alw am dai hygyrch ac addasadwy, er enghraifft does yna ddim arolwg tai cenedlaethol ar gyfer Cymru. Mae hyn yn rhwystr mawr i gynllunio effeithiol ar gyfer darpariaeth tai hygyrch ac addasadwy yn y dyfodol.

Yn Ionawr 2018, rhoddodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru Gydsyniad Brenhinol i'r Ddeddf Diddymu'r Hawl i brynu a Hawliau cysylltiedig (Cymru) 2018, ac yn yr Alban fe ddiddymwyd yr 'hawl i brynu' yn 2017. Dywedodd awdurdodau lleol yng Nghymru a'r Alban wrthym fod y ddeddfwriaeth hon yn eu galluogi i ddiogelu'r cyflenwad tai presennol a gwneud buddsoddiadau pellach mewn tai cymdeithasol. Awgryma tystiolaeth o'r Alban y bydd terfyn yr 'hawl i brynu' a buddsoddiadau yn y Rhaglen Cyflenwi Tai Fforddiadwy yn darparu 25,000 o dai atodol yn y sector tai cymdeithasol erbyn 2021. Yn Lloegr, mae'r Sefydliad Tai Siartredig yn rhagweld y gallai tai rhent cymdeithasol. Leihau o 120,000 yn yr un cyfnod (Shelter, 2018).

Ar draws Prydain, mae'n amlwg fod yna rai materion sylfaenol sy'n creu rhwystr i gyflenwi tai. Mae'r model economaidd presennol ar gyfer adeiladu tai yn drafferthus, ac yn arbennig felly y tuedd tuag at 'adeiladu tai sbeciannol', sef le bydd datblygwyr yn prynu tir heb unrhyw gynlluniau ffurfiol yn eu lle, nac unrhyw ymroddiad i ddefnyddwyr terfynol. Gall hyn gynnwys costau uchel iawn, ac felly mae datblygwyr yn ceisio lleihau'r risgiau a grëir trwy eu buddsoddiad. Yn y sefyllfa hon, nid yw'r datblygwr yn bwriadu adeiladu a gwerthu'n rhy gyflym, gan fod hyn yn peryglu tanseilio prisiau a gwneud colled ar ei fuddsoddiad yn y tir. Mae Shelter yn awgrymu fod y model hwn yn dibynnu ar gadw prisiau tai yn uchel, er mwyn i ddatblygwyr allu adfer cost uchel tir (Shelter, 2017).

Yn y cyfamser, mae datblygwyr o'r farn fod oedi wedi ei achosi gan brosesau awdurdodau lleol yn Lloegr. Awgryma ymchwil a gomisiynwyd gan Barratt Homes ei bod yn cymryd 21 o fisoedd i fynd o dderbyn cydsyniad manwl i gychwyn ar y safle (Chamberlain Walker, 2017). Mae'r oedi yn debygol o gael ei gynorthwyo yn dilyn deddfiad y Ddeddf Cynllunio Cymdogaeth 2017, Adran 14(5) sy'n darparu na ddylid cyflwyno amodau cyn cychwyn ar ganiatâd cynllunio heb gytundeb ysgrifenedig yr ymgeisydd i delerau'r amod. Nid yw'r ddarpariaeth hon mewn grym eto, ond gall yr Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau yn pennu'r ddarpariaeth hon, ac o bosibl cyfyngu arni.

Yn Lloegr, mae defnyddio gwerthusiadau hyfywedd wedi ei amlygu fel rhwystr i gynyddu tai hygyrch. Mae'r Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol (NPPF) yn sefydlu sut ddylid gweithredu cyfraith a pholisi cynllunio. Mae'r NPPF yn cynnwys gwerthusiadau hyfywedd a fwriedir i 'ddarparu elw cystadleuol i ddatblygwyr a thirfeddianwyr parod'. Mae'r asesiadau annibynnol hyn yn rhan statudol o'r broses gynllunio; maent yn ystyried os yw'r gofynion ar gyfer datblygiad penodol yn ariannol ddichonadwy ar gyfer datblygwr tai i'w gyflawni gydag elw rhesymol, o ystyried cost y tir, cost datblygu a pris gwerthu tebygol yr eiddo canlynol. Os yw elw disgwyliedig y datblygwr yn llai nag 20 y cant, gall ddadlau i'r awdurdod lleol y dylid lleihau'r nifer o unedau a allai fod yn llai proffidiol, ac sy'n fwy tebygol o fod ar gyfer tai fforddiadwy neu dai hygyrch.

Yn ein harolwg, adroddodd awdurdodau lleol Lloegr fod targedau ar gyfer tai hygyrch yn eu hardaloedd yn cael eu gwanhau neu ildio yn gyfan gwbl yn ystod y cam gwerthusiad hyfywedd. Fel arfer byddid disgwyl i eiddo hygyrch gostio ychydig yn fwy i'w hadeiladu, ac o bosibl byddent angen mwy o dir. Felly os yw gwerthusiad yn awgrymu fod hyfywedd yn ymylol neu'n wael, mae lleihau neu ddileu tai hygyrch neu addasadwy yn un ffordd o wneid prosiect adeiladu yn hyfyw.

Awgrymodd awdurdodau lleol Lloegr fod y gwerthusiadau hyfywedd safle annibynnol, a ddefnyddir fel arfer mewn trafodaethau rhwng datblygwyr ac awdurdodau lleol, yn aml yn arwain at ostyngiadau yn y gyfran o dai hygyrch sy'n ofynnol. Gall rywfaint o'r lleihad yma fod o ganlyniad i natur dechnegol gwerthusiadau hyfywedd a diffyg arbenigedd mewn awdurdodau lleol (a diffyg cyllid i ddefnyddio ymgynghorwyr hyfywedd arbenigol) i ddadlau yn erbyn gwerthusiadau hyfywedd, sy'n cyflwyno tystiolaeth o ddiffyg hyfywedd. Yn ymarferol, cafwyd dadleuon o ran hyfywedd yn bron i bob ardal, wedi eu cyfiawnhau naill ai gyda phrisiau gwerthiant eiddo isel neu gostau tir uchel:

> **"[Mae'n anodd darparu] tystiolaeth o'r angen penodol am lety o'r fath ynghyd ag [arddangos] hyfywedd darparu llety o'r fath."**
>
> Cyngor dosbarth, De-orllewin Lloegr

Wrth lunio eu Cynllun Lleol, Cynllun Datblygu Lleol neu Strategaeth Dai Leol, mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd dan adran 149 Deddf Cydraddoldeb 2010 i ystyried anghenion pobl anabl.

Yn ein harolwg, gofynnwyd i awdurdodau sut maent yn cyflawni'r ddyletswydd hon parthed llunio a monitro elfen asesiad tai y Cynllun Lleol (neu Gynllun Datblygu Lleol yn yr Alban). Ar draws Prydain, dywedodd mwyafrif yr awdurdodau lleol (64 y cant) y byddant yn gyffredinol yn cyflawni Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar y Cynllun Lleol. Adroddodd awdurdodau'r Alban eu bod yn llai tebygol o wneud hyn (41 y cant).



## A yw awdurdodau lleol yn gosod targedau ar gyfer tai hygyrch?


Canfu ein harolwg o awdurdodau lleol fod ychydig dros chwarter (28 y cant) o awdurdodau lleol Prydain yn gosod targed canrannol ar gyfer tai hygyrch. Roedd hyn yn wir ar gyfer 31 y cant o awdurdodau lleol yn Lloegr, yn gostwng yn is yn yr Alban (17 y cant) a Chymru (pump y cant). Awgryma ein tystiolaeth ar draws Prydain yr ymddengys fod awdurdodau lleol yn fwy tebygol o ddilyn y dull o drafod y gyfran o gartrefi hygyrch gofynnol ar sail fesul safle (49 y cant).

O'r awdurdodau lleol a osododd darged canrannol ar gyfer tai hygyrch ac/neu addasadwy, roedd cyfran gyfartalog cartrefi newydd oedd angen bod yn hygyrch ac addasadwy oddeutu pedwar ym mhob 10 (44 y cant). Ar gyfer tai hygyrch i gadeiriau olwyn, roedd y gofyniad cyfartalog hwn yn llawer is, ar ddim ond pump y cant.

O'r awdurdodau lleol oedd yn gosod targed canrannol ar gyfer tai hygyrch ac/neu addasadwy, dywedodd dau draean (66 y cant) nad oeddynt yn gwybod pa ganran o'r targed hwn sydd wedi ei gyflawni fel cyfran o'r holl dai newydd a adeiladir. Dim ond 66 y cant o awdurdodau y'n gosod targed a'i fonitro oedd yn credu eu bod wedi cyflawni fwy neu lai yn unol â'r targed. Roedd gan ychydig dros hanner (56 y cant) yr holl awdurdodau lleol swyddog neu swyddogion oedd yn gyfrifol am fonitro cydymffurfiad yn erbyn y targed.

Cytunodd tua traean (32 y cant) o'r awdurdodau fod datblygwyr fel arfer yn cydymffurfio'n llawn gyda rheoliadau hygyrchedd. Roedd cydymffurfiad yn cael ei ystyried i fod yn llawer llai cyffredin yn Lloegr (28 y cant yn cytuno) na'r Alban (59 y cant) a Chymru (55 y cant). Ac eto, er gwaethaf y lefel isel o gytundeb fod datblygwyr fel arfer yn cydymffurfio â rheoliadau hygyrchedd, yn ystod y tair mlynedd diwethaf dim ond saith awdurdod (3 y cant) oedd wedi cymryd camau ffurfiol neu anffurfiol yn erbyn datblygwr nad oedd yn darparu'r nifer ofynnol o eiddo hygyrch ac/neu addasadwy i'r safon ofynnol.

## Targed yr awdurdod lleol ar gyfer tai hygyrch



## Awdurdod Llundain Fwyaf

Mae Awdurdod Llundain Fwyaf wedi sefydlu gofynion polisi cynllunio ar gyfer tai hygyrch ers 2004; cyn 2015 roedd yn gofyn bod 100 y cant o gartrefi newydd yn bodloni Safonau Cartrefi Gydol Oes a 10 y cant yn hygyrch i gadeiriau olwyn ac yn addasadwy. Ers 2015 Mae polisi Cynllun Llundain wedi gofyn bod 90 y cant o anheddau adeiladau newydd yn cael eu hadeiladu i safonau M4(2) a 10 y cant i M4(3). Yn ôl Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Llundain 2015/16, (Awdurdod Llundain Fwyaf, 2017), adeiladwyd 93 o eiddo newydd i Ran M4(2) ac 11 y cant i'r safon cwbl hygyrch i gadeiriau olwyn Rhan M4(3).

## Cyngor Dinas Brighton a Hove

Ers 2005, mae Cynllun Lleol Cyngor Dinas Brighton a Hove wedi gofyn fod cartrefi newydd yn cael eu hadeiladu i Safonau Cartrefi Gydol Oes a bod gyfran o'r holl anheddau newydd ar safleoedd mwy (o ddim mwy na 10 annedd newydd) yn cael eu hadeiladu i safon hygyrch i gadeiriau olwyn.

## Cyngor Dinas Glasgow

Ers 2009, mae Cyngor Dinas Glasgow wedi cyhoeddi ei Gynllun Dinas 2, gyda phob datblygiad o 20 annedd neu fwy yn gorfod darparu 10 y cant o anheddau (yn fflatiau a thai) i safon hygyrch i gadeiriau olwyn neu barod i'w haddasu.



**Mae rhai cynghorau, fel**

**Brighton and Hove**

**yn dylunio cartrefi hyblyg**

## Beth sydd angen newid?

Mae Llywodraethau'r Deyrnas Unedig, yr Alban a Chymru oll wedi cydnabod yr angen am fwy o dai, ac wedi gwneud buddsoddiad ariannol arwyddocaol o ran cyflawni yn erbyn eu targedau. O ystyried hygyrchedd cyfyngedig y rhan fwyaf o dai, a'r diffyg dewis dilynol ar gyfer nifer o bobl anabl, mae angen cyflenwad newydd o dai hygyrch a hygyrch i gadeiriau olwyn ar draws pob math o ddeiliadaeth.

Yng Nghymru a Lloegr, mae'r Rheoliadau Adeiladu cyfredol yn gweithredu fel rhwystr i gynyddu hygyrchedd a gallu i addasu stoc tai newydd. Yn Lloegr, mae cartrefi sydd wedi eu hadeiladu i'r safon Rhan M4(1) yn cynnig ychydig iawn o hyblygrwydd ar gyfer addasiadau yn y dyfodol. Mae Awdurdod Llundain Fwyaf wedi llwyddo i weithredu'r safon Rhan M4(2) i'r holl dai newydd yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, gan arddangos y dylai fod yn bosibl cyflawni lefel well o hygyrchedd mewn tai newydd yn y marchnadoedd mwyaf heriol. Rhaid i gynlluniau lleol fod yn llawer mwy penodol, parthed y safonau adeiladu sy'n ofynnol mewn datblygiadau tai newydd. Yng Nghymru a Lloegr, dylai awdurdodau lleol ddynodi fod angen i bob cartref gael ei adeiladu i Ran M4(2) neu **Ofynion Ansawdd Datblygu**.

Mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb dan y PSED i sicrhau bod eu polisi a strategaeth tai yn ystyried gofynion pobl anabl yn eu hardal; mae hyn yn amhosibl heb ddata cenedlaethol a lleol o safon. Roedd yn arbennig o anodd i ni gael data da ar ofynion pobl anabl neu'r cyflenwad o stoc tai hygyrch yng Nghymru.

Mae gan awdurdodau lleol yng Nghymru a'r Alban ddyletswyddau atodol penodol i gyflawni Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb; fodd bynnag, ychydig iawn o dystiolaeth a welsom eu bod wedi cyflawni asesiadau trylwyr o'u Cynlluniau Datblygu Lleol ac Asesiadau o'r Farchnad (yng Nghymru) neu o'u Strategaethau Tai Lleol a chynlluniau Buddsoddi Tai Strategol (yn yr Alban).

Yng Nghymru, dylai awdurdodau lleol weithredu'r pum dull o weithio a sefydlir yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn eu cynllunio strategol ar gyfer cartrefi hygyrch, yn arbennig pan fyddant yn datblygu Cynlluniau Datblygu Lleol ac Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol.

Yng Nghymru a Lloegr, mae angen system archwilio gadarn i ddarparu trosolwg o gynlluniau tai awdurdodau lleol, i sicrhau nad yw'r angen am dai hygyrch yn cael ei anwybyddu. Dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig gyhoeddi methodoleg gadarn i sicrhau bod awdurdodau lleol yn bodloni eu PSED wrth gynhyrchu ac archwilio dogfennau Cynlluniau Lleol. Byddai'r Arolygiaeth Cynllunio mewn safle gwell i allu arddangos ei berfformiad ei hun o'r PSED trwy bennu ceisiadau yn unol â'r fethodoleg hon.

## Argymhellion

# Adeiladu tai mwy hygyrch ac addasadwy

### Yng Nghymru, Lloegr, a'r Alban rydym yn galw:

- **Ar lywodraethau i gyflwyno strategaeth genedlaethol** i sicrhau bod yna gyflenwad digonol o dai newydd wedi eu hadeiladu i safonau dylunio cynhwysol/cyffredinol ac wedi eu hadeiladu i safonau hygyrch i gadeiriau olwyn, ar draws pob daliadaeth. Dylai hyn gynnwys adolygiad o'r modd y gorfodi safonau adeiladu, yn arbennig yn y sector rhentu preifat. Dylai'r strategaeth gydnabod fod cymorth tai, cyngor ac eiriolaeth yn aml yn angenrheidiol i alluogi pobl i gynnal eu cartrefi a'u hawl i fyw'n annibynnol.
- Dylai llywodraethau cenedlaethol a lleol i weithredu i wella'r modd y **cesglir ac y rhennir data**, ar ofynion pobl anabl ac ar hygyrchedd y stoc tai presennol.

### Yn Lloegr rydym yn galw:

- Ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i **addasu** gofyniad M4(2) Atodlen 1 y Rheoliadau Adeiladu 2010 (fel y'i diwygiwyd), fel nad yw'n ofyniad dewisol bellach, ond yn hytrach yn ddiofyn a'r safon ofynnol ar gyfer cynllunio a darparu tai newydd i gyd. Yn ogystal, Llywodraeth y Deyrnas Unedig i fandadu fod yn rhaid i awdurdodau lleol sicrhau isafswm o **10 y cant o gartrefi newydd ar draws pob math o ddaliadaeth i gael eu hadeiladu i safonau hygyrch i gadeiriau olwyn** (M4(3) safonau dylunio). Dylid monitro ac adolygu hyn.
- Ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i asesu sut y cydymffurfir â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, yn eu hadolygiad o'r **Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol** (a chanllawiau ymarfer). Dylai ddynodi fod yna wybodaeth ddigonol am ofynion tai pobl anabl mewn Cynlluniau Lleol.
- Ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i **ddarparu canllaw cynllunio gofynnol** ar gyfer awdurdodau lleol, gan roi methodoleg gadarn iddynt asesu angen a darparu tai hygyrch ac addasadwy, yn ogystal â chartrefi hygyrch i gadeiriau olwyn.
- **Ar yr Arolygiaeth Gynllunio** i roi mwy o bwyslais ar fodloni ei rwymedigaethau dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wrth ddelio gyda'r archwiliad o Gynlluniau Lleol.

## Yng Nghymru rydym yn galw:

- Ar awdurdodau lleol i fodloni eu dyletswydd i gyhoeddi **Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb** ynghyd â'u Cynlluniau Datblygu Lleol ac Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol.
- Ar Lywodraeth Cymru i wneud yn ofynnol bod pob cartref newydd yn cael ei adeiladu i Ofynion Ansawdd Datblygu ac i fandadu Awdurdodau Lleol i sicrhau bod 10 y cant o **gartrefi newydd yn cael eu hadeiladu i safonau hygyrch i gadeiriau olwyn**. Dylid monitro ac adolygu hyn.
- Ar awdurdodau lleol i **weithredu'r pum dull o weithio yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn eu cynllunio strategol** ar gyfer cartrefi hygyrch, yn arbennig wrth ddatblygu Cynlluniau Datblygu Lleol ac Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol. Mae hyn yn **gofyn iddynt ystyried y tymor hir, gynnwys pobl, atal problemau, cydweithredu gydag eraill ac integreiddio'r nodau llesiant yn eu hamcanion**.

## Yn yr Alban rydym yn galw:

- Ar Lywodraeth yr Alban i ofyn fod i awdurdodau lleol sicrhau bod **isafswm o 10 y cant o gartrefi newydd ar draws pob math o ddaliadaeth i gael eu hadeiladu i safonau hygyrch i gadair olwyn**. Dylid monitro ac adolygu hyn.
- Ar Lywodraeth yr Alban i addasu ei Raglen Cyflenwad Tai Fforddiadwy (AHSP) i alluogi **adrodd clir ar dai newydd hygyrch a hygyrch i gadeiriau olwyn, gyda manylion maint, eiddo a math**.
- Ar awdurdodau lleol i fodloni eu dyletswydd i gyhoeddi eu **Hasesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb** ynghyd â'u Strategaethau Tai Strategol a Chynlluniau Buddsoddi Strategol mewn Tai.
- Ar Lywodraeth yr Alban i gyflawni adolygiad sylfaenol o Dai ar gyfer Amrywiol Anghenion, gan sicrhau dyluniad cynhwysol a safonau dylunio hygyrch i gadeiriau olwyn i fod yn berthnasol ar draws pob math o ddaliadaeth.

## Yng Nghymru rydym yn galw:

- Ar Lywodraeth Cymru i wneud yn ofynnol bod pob cartref newydd yn cael ei adeiladu i Ofynion Ansawdd Datblygu ac i fandadu Awdurdodau Lleol i sicrhau bod 10 y cant o **gartrefi newydd yn cael eu hadeiladu i safonau hygyrch i gadeiriau olwyn**. Dylid monitro ac adolygu hyn.
- Ar awdurdodau lleol i **weithredu'r pum dull o weithio yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn eu cynllunio strategol** ar gyfer cartrefi hygyrch, yn arbennig wrth ddatblygu Cynlluniau Datblygu Lleol ac Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol. Mae hyn yn **gofyn iddynt ystyried y tymor hir, gynnwys pobl, atal problemau, cydweithredu gydag eraill ac integreiddio'r nodau llesiant yn eu hamcanion**.

# 3. Gwella gosod addasiadau i’r cartref



**Mae addasiadau yn allweddol i gefnogi pobl er mwyn iddynt allu byw yn annibynnol ac yn eu cartrefi eu hunain. Er bod yna enghreifftiau o arfer da o ran cyflenwi a gosod addasiadau, ar drws Prydain mae pobl anabl yn canfod y broses o wneud addasiadau i fod yn gymhleth ac araf.**

> **"Fe gymerodd flwyddyn i'r tîm gytuno, ariannu a chynllunio'r addasiadau, er gwaethaf cael gwybod pan dderbyniom yr eiddo y byddai angen gwneud y pethau hyn. Roedd gwaith papur yn 'mynd ar goll' yn aml. Doedden ni ddim yn cael cynlluniau na gohebiaeth hygyrch pob tro (trwy e-bost); er gwaethaf gofyn dro ar ôl tro am hyn (mae'r ddau ohonom wedi cofrestru'n ddall). Roedden ni'n byw mewn cartref oedd yn anniogel trwy gydol y cyfnod hwnnw."**
>
> Ymatebydd i'r alwad am dystiolaeth

Gall addasu cartref gynyddu ei ddefnyddioldeb, a galluogi pobl i gynnal eu hannibyniaeth. Mae addasiadau yn amrywio o addasiadau bychan a chymharol rhad i'r cartref, fel rheilen gydio neu ramp at y drws, cloch drws sy'n fflachio i bobl gyda am ar eu clyw neu gynlluniau lliw ar gyfer pobl gyda nam ar eu golwg; hyd at addasiadau mawr a allai gynnwys newidiadau strwythurol, fel estyniad i'r cartref i ganiatáu ar gyfer ystafell ymolchi neu ystafell wely ar y llawr gwaelod.

Yn 2014–15, roedd tua 1.9 miliwn o gartrefi yn Lloegr yn cynnwys un neu fwy o bobl gyda nam cyfyngol hirdymor oedd angen addasiadau i'w cartref. Nid yw hyn wedi newid ers 2011–12, pan ofynnwyd cwestiynau am hyn ddiwethaf yn Arolwg Tai Lloegr (DCLG, 2015a). Yn 2015, roedd 61,000 o bobl yn yr Alban angen addasiadau i'w cartref (Llywodraeth yr Alban, 2015a). Adroddodd adroddiad diweddar gan Swyddfa Archwilio Cymru fod 32,000 o bobl yn derbyn addasiadau pob blwyddyn; mae yn wedi cynyddu o 11.7 y cant rhwng 2013-14 a 2015-16 (Swyddfa Archwilio Cymru, 2018).

Cafwyd diddordeb polisi cynyddol ym muddiannau addasiadau i'r cartref, yn arbennig cyn belled ag y gallant leihau costau iechyd a gofal cymdeithasol. Gall darpariaeth amserol o addasiadau arwain at arbedion cost arwyddocaol, gan eu bod yn helpu osgoi cyfnodau hir yn yr ysbyty, neu'r angen am opsiynau tai mwy dwys fel cartrefi gofal (Heywood a Turner, 2007). Mae astudiaeth yn mesur yr elw cymdeithasol ar fuddsoddiad yn arddangos, ar gyfartaledd, fod pob addasiad yn arbed dros £10,000 i system iechyd a gofal cymdeithasol yr Alban (Kempton a Warby, 2013). Amcangyfrifodd astudiaeth yn Seland Newydd, yn y cyfamser, fod 60 y cant o gwympiadau yn digwydd yn y cartref, a chanfod y gall addasiadau cymharol rad leihau cwympiadau o oddeutu 26 y cant (Keall et al., 2015).

Adroddodd pobl anabl ar draws Cymru, Lloegr, a'r Alban faterion tebyg gydag addasiadau. Clywsom sawl enghraifft o addasiadau yn cael effaith bositif ar fywydau pobl.

**"Fe wnaethom gais llwyddiannus am Grant Anabledd i addasu ein cartref ar gyfer ein mab ifanc. Cafodd ein garej ei drosi yn ystafell wely ac ystafell wlyb ar y llawer gwaelod. Yn dilyn hyn, fe osodwyd teclyn codi yn yr ystafell wely a lifft cadair ar du allan yr eiddo."**

Ymatebydd i'r alwad am dystiolaeth

**"Ers i'r RSL [Landlord Cymdeithasol Cofrestredig] gymryd drosodd, mae'r gegin a'r ystafell ymolchi wedi eu haddasu. Mae hyn yn golygu bod gen i gegin sydd wedi ei chynllunio'n llawer gwell, gyda llefydd ble gallai eistedd gyda fy nghoesau dan yr arwyneb gwaith a 'thriongl gwaith'. Yn yr ystafell ymolchi, mae gen i bellach gawod cerdded i mewn gyda sedd sy'n plygu i lawr, sydd wedi gwneud ymolchi yn llawer haws. Mae yna hefyd rheiliau cydio naill ochr i'r toiled, sydd wedi ei ddyrchafu hefyd."**

Ymatebydd i'r alwad am dystiolaeth

Adroddodd therapyddion galwedigaethol a ymatebodd i'n harolwg hefyd y manteision niferus o gyflawni addasiadau:

> **"Dwi'n gwneud llawer o addasiadau yn fy ngwaith, ac mi fyddwn i'n dweud eu bod i gyd yn newid bywydau, o'r addasiadau ystafell ymolchi symlaf si alluogi rhywun i ymolchi'n annibynnol gydag urddas, heb orfod cael eu partner yn eu codi i mewn/allan o'r bath, neu'n eu hymolchi â llaw."**
>
> Therapydd galwedigaethol

> **"Darparwyd addasiadau ar gyfer cleient gydag arthrogryposis dwys, heb unrhyw ddefnydd ymarferol o'i gymalau dwyochrol uchaf. Darparwyd addasiadau ar gyfer eu hystafell ymolchi, mynd i'r toiled, sychwr corff, systemau agor drysau a chegin. Mae'r cleient nawr yn gallu ymdopi heb becyn gofal, mae wedi dechrau gweithio, ac wedi cynyddu ei hyder a chyswllt cymdeithasol."**
>
> Therapydd galwedigaethol

Adroddodd DPOs ar draws y tair gwlad nifer o broblemau gyda'r systemau addasiadau sydd ar waith. Roedd dehongliad fod cyllid wedi dod i ben, sy'n ymddangos i fod yn arbennig o drafferthus ar gyfer tenantiaid anabl Landlord Cymdeithasol Cofrestredig (RSLs) yr Alban. Roedd pobl anabl yn credu fod toriadau mewn cyllidebau wedi effeithio ar allu awdurdodau lleol i ymateb i'w hanghenion. Roedd pryderon and oedd y terfyn £30,000 ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl.(DFG) yn ddigonol a'i fod yn achosi oed gan fod rhaid i bobl anabl sicrhau cyllid atodol ar gyfer addasiadau mawr.

**"Uchafswm y grant oedd £30,000, a gafodd ei roi, ond roedd gwir gost beth oedd ei angen yn £47,000 – fe dalodd fy rhieni y gwahaniaeth gan nad oedd gan y cyngor ragor o arian."** -

Ymatebydd i'r alwad am dystiolaeth

**"Fe osodwyd ystafell wlyb oherwydd roeddwn i fwy neu lai'n syrthio dros y bath, a'i diwedd hi oedd pan wnes i lewygu a tharo fy mhen a deffro yn gorffwys ar y rheiddiadur. Mae fy therapydd galwedigaethol wedi ei ddarparu gan [bwrdeistref yn Llundain], ac mae nhw wir yn arbennig. Yr unig beth fyddan nhw ddim yn ei ddweud yw fod y cronfeydd ar gael o 5 Ebrill hyd at ddiwedd Mawrth, felly os byddwch chi'n gwneud y cais yn Ebrill/Mai, mae'r arian wedi darfod erbyn Mehefin. Felly aeth fy nghais i fewn yn mis Mehefin a dyma nhw'n dweud 'yn anffodus bydd rhaid i ti aros blwyddyn', a dyna beth wnaeth effeithio arna i fwyaf."**

Ymatebydd i'r alwad am dystiolaeth

## Gwaith diffygiol ac oedi i gwblhau'r gwaith

Adroddodd therapyddion galwedigaethol a staff awdurdod lleol broblemau o ran contractwyr yn achosi oedi ac anawsterau ar gyfer pobl anabl, a gwaith gweinyddol hirfaith ar gyfer y gweithwyr proffesiynol dan sylw.

**"Roedd cynlluniau yn anghywir a thystysgrifau cwblhau heb eu darparu. Roedd y contractwr yn wael ac yn codi llawer gormod. Fe wnaeth y contractwr waith gwael. E wnes i gwyno a'i drwsio fy hun yn y diwedd."**

Ymatebydd i'r alwad am dystiolaeth

## Anawsterau gyda thenantiaethau sector preifat

Canfu ein hymchwiliad fod yna amharodrwydd ymysg pobl anabl i ofyn i landlord preifat am addasiadau – mae'r rhesymau yn cynnwys diffyg gwybodaeth ar y ddwy ochr ynghylch y cyllid sydd ar gael a'r broses dan sylw, dryswch o ran pwy sy'n gyfrifol am gynnal yr addasiad os yw wedi ei ariannu trwy grant i'r tenant, a'r elfen o hyblygrwydd gan yr awdurdod lleol parthed meini prawf asesu DFG, sydd weithiau'n effeithio ar y tebygolrwydd o gael addasiadau i'r cartref.

Yn Lloegr, mae tenantiaethau tymor byr yn anghymhelliad i osod addasiadau. Rhaid i berchennog yr eiddo gytuno i gyflawni'r addasiadau, a rhaid i'r tenant gadarnhau ei fwriad i fyw yn yr eiddo fel ei unig neu brif breswylfa am o leiaf dair blynedd. Mae hyn yn cael ei gadarnhau wrth i'r tenant a'r perchennog gyflwyno 'tystysgrif tenant' a 'thystysgrif perchennog'.

> **"Mae'r rhan fwyaf o fy nghartref yn hygyrch i gadair olwyn ar hyn o bryd, ond dwi methu cyrraedd unrhyw gyfleusterau ymolchi gan ei fod yn gawod dros fath, ac fe wrthododd fy landlord adael i mi arwyddo prydles pum mlynedd, sy'n golygu na fedra i gael Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl i'w drosi yn ystafell wlyb hygyrch."**
>
> Ymatebydd i'r alwad am dystiolaeth

Y dystiolaeth gan Age UK oedd nad oedd nifer o bobl hŷn yn ymwybodol o'u hawliau ac, yn yr un ffordd ag yr oeddent yn teimlo wrth ofyn am waith atgyweirio, roedd amharodrwydd i ofyn am addasiadau ble gallai wneud iddynt edrych fel 'tenant trafferthus' (Age UK, 2017).

Ar hyn o bryd, mae llawer o'r tai newydd sy'n cael eu hadeiladu yn Lloegr yn cael eu hadeiladu ar gyfer rhent preifat, ac yn gyffredinol yn cael ei adeiladu i safon hygyrchedd is – Rhan M4(1). Mae hyn yn siŵr o arwain at broblemau yn y dyfodol, gan y bydd y tai yma yn debygol o fod yn amhosibl i'w haddasu yn rhad.

Yn ogystal, mae nifer o forgeisi prynu i osod yn dynodi uchafswm tenantiaeth o 12 mis, sy'n golygu nad yw landlordiaid yn gallu cytuno i ofynion tair neu bum mlynedd y DFG hyd yn oed os ydynt eisiau, sydd unwaith eto yn creu anfantais i bobl anabl yn y sector rhentu preifat.

Mae yna gyfleoedd posibl yn yr Alban a Chymru i gynlluniau trwyddedu hyrwyddo a hysbysu landlordiaid am y cynlluniau ariannu a manteision addasiadau.

Cyflwynodd Deddf Tai (Cymru) 2014 gynllun cofrestru a thrwyddedu gofynnol ar gyfer landlordiaid y sector rhentu preifat, sy'n cynnwys gofyniad ar gyfer hyfforddi landlordiaid.

Yn yr Alban, cyflwynodd Deddf Tai Preifat (Tenantiaethau) (yr Alban) 2016 'denantiaeth breswyl breifat' sy'n darparu prydles penagored, ac amddiffyniad o gynnydd mewn rhent. Mae'n rhy fuan i ddweud sut fydd y cofrestriad newydd hwn yn effeithio ar hawliau pobl anabl i ofyn am addasiadau ac addasiadau i rannau cyffredin.

## Rôl eiriolaeth, gwybodaeth dda a chyngor

Fe welsom fod cyngor a chefnogaeth ar dai yn dameidiog ac anghyson. Mae pobl yn byw mewn tai cymdeithasol yn llawer mwy tebygol o fod yn ymwybodol o ffynonellau cyngor, cefnogaeth a gwybodaeth am addasiadau na pherchnogion cartrefi neu ria yn bwy mewn llety rhent preifat.

**"Yn wreiddiol roedd gan fy fflat ystafell wlyb a gafodd ei throsi yn ystafell ymolchi ac yna ei throsi yn ôl, a gymerodd ddwy flynedd. Dwi wedi cael mân addasiadau – rheiliau llaw, cloeon ac ati – gan Asiantaethau Gwell Cartrefi. Cafodd y rhain eu gwneud yn gyflym."**

Ymatebydd i'r alwad am dystiolaeth

## Blychau mewn darpariaeth

Cododd pobl anabl a'u gofalwyr y pryder nad yw gweithwyr proffesiynol mewn awdurdodau lleol yn ddigon ymwybodol o anghenion pobl gyda namau synhwyraidd, anableddau dysgu neu anhwylderau ar y sbectrwm awtistiaeth.

**"Mae anghenion synhwyraidd wedi eu hanwybyddu'n bennaf gan awdurdodau tai cynghorai a therapyddion galwedigaethol. Dwi'n cael gwybod nad oes gen i hawl i addasiadau i'm galluogi i fyw yn fy nghartref (dim ond pe byddwn i ag anabledd corfforol fyddai gen i hawl)."**

Ymatebydd i'r alwad am dystiolaeth

> **“Fe fuon ni’n aros chwe mis am therapydd galwedigaethol, ond wedyn doedden nhw ddim yn arbennig o sympathetig i anghenion synhwyraidd ac anabledd dysgu ein plentyn. Yn y diwedd fe wnaethom yr addasiadau i’n gardd a chartref ein hunain.”** -
>
> Ymatebydd i’r alwad am dystiolaeth

Yng Nghymru a Lloegr, rhaid i awdurdod tai gymeradwyo grantiau o fewn chwe mis i dderbyn cais DFG. Yn ôl canllawiau’r Llywodraeth, mewn achosion brys dylai cynghorau anelu i gwblhau’r cam hon o’r broses o fewn pum niwrnod gwaith i dderbyn atgyfeiriad ar gyfer addasiadau anabledd.

Mae DPOs yn adrodd fod eu haelodau wedi bod yn aros blynyddoedd am gymeradwyaeth. Cynhaliodd Leonard Cheshire Disability arolwg o awdurdodau lleol a chanfod fod bron i hanner (44 y cant) ag enghreifftiau o bobl anabl yn aros mwy na dwy flynedd i dderbyn taliad eu grant (Leonard Cheshire, 2015).



**Bydd y gronfa ar gyfer grantiau i dalu am addasiadau yn cynyddu o**




**£220m** yn 2015/16 i

**£500m** yn 2019/20

## Sut mae addasiadau wedi eu hariannu?

### Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yng Nghymru a Lloegr

Mae gan awdurdodau lleol rôl allweddol o ran darparu addasiadau i bobl anabl, p'un a ydynt yn berchen-feddianwyr neu mewn eiddo wedi ei rhentu. Yng Nghymru a Lloegr, prif ffynhonnell cyllid ar gyfer addasiadau yw'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl (DFG).

- Mae'r DFG yn cefnogi oddeutu 50,000 o bobl y flwyddyn yng Nghymru a Lloegr.
- Mae'r DFG yn grant prawf modd, er y gall awdurdodau lleol arfer eu doethineb.
- Uchafswm y cyllid sydd ar gael yw £30,000 y pen yn Lloegr a £36,000 yng Nghymru.
- Mae'r grant cyfartalog yn £7,000, ond mae 58 y cant o grantiau yn llai na £5,000.
- Dim ond saith y cant o grantiau sy'n mynd i denantiaid yn y sector rhentu preifat

(Mackintosh and Leather, 2016).

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cynyddu cyllid ar gyfer DFGs o £220m yn 2015/16 i £500m yn 2019/20, ac wedi ymgorffori'r cyllid mewn cyllideb iechyd a gofal cymdeithasol ar y cyd, y Gronfa Gofal Gwell. Y nod yw i ddyblu'r nifer o grantiau i 85,000 erbyn 2020, ac atal 8,500 o bobl rhag gorfod symud i ofal preswyl (DoH a DCLG, 2016).

Adroddodd Leonard Cheshire Disability fod galw ar gyfer DFGs yn tyfu'n gynt na gallu awdurdodau lleol i'w rheoli. Yn 2015, roedd ceisiadau wedi codi 66 y cant ers 2011/12, ond roedd y nifer o addasiadau a ariannwyd wedi codi o 33 y cant yn unig yn ystod yr un cyfnod (Leonard Cheshire, 2015).

## Cymru

Yng Nghymru, gall tenantiaid Landlord Cymdeithasol Cofrestredig hefyd wneud cais am Grant Addasiadau Corfforol Llywodraeth Cymru, sydd â chyllideb flynyddol o £8m.

Gellir darparu mân addasiadau, ar gyfer perchen-feddianwyr a thenantiaid sector preifat, trwy'r Rhaglen Addasiadau Ymateb Cyflym (RRAP), a gyflawnir gan Gofal a Thrwsio Cymru. Amcangyfrifir fod pob £1 a warir ar RRAP yn arwain at £7.50 o arbedion costau ar gyfer y GIG a gwasanaethau gofal cymdeithasol (Llywodraeth Cymru, 2015). Yn 2016/17 darparodd Llywodraeth Cymru £4m o gyllid atodol ar gyfer addasiadau trwy ei rhaglen HWYLUSO.

## Yr Alban

Yn yr Alban, darperir cyllid trwy Ddeddf Tai (yr Alban) 2006 a Rheoliadau Deddf Tai (yr Alban) 2006 (Cynllun Cymorth) 2008. Mae dwy brif ffrwd cyllid yn yr Alban; ariennir Landlord Cymdeithasol Cofrestredig (RSLs) i ddarparu addasiadau ar gyfer eu tenantiaid, tra bod addasiadau ar gyfer tenantiaid mewn eiddo preifat, tenantiaid awdurdod lleol a pherchnogon cartrefi yn cael eu hariannu gan yr awdurdod lleol perthnasol. Amlygodd pobl anabl yr anghysondeb rhwng daliadaeth fel rhywbeth cymhleth a dryslyd. Canfu gwerthusiad diweddar o brosiectau peilot yn profi ffyrdd i wella asesiad a chyflawniad addasiadau yn yr Alban fod yna gefnogaeth helaeth ar gyfer ymagwedd 'daliadaeth niwtral' i ddarparu addasiadau (Llywodraeth yr Alban, 2017). Roedd hyn yn adlewyrchu tystiolaeth a gyflwynwyd i'r ymchwiliad fod trefniadau ariannu presennol yn cyflawni deilliannau anghyfartal i bobl anabl gan fod arferion yn amrywio cymaint.

Dan Ddeddf Tai (yr Alban) 2006 mae gan denantiaid sector preifat yr hawl i addasu eiddo maent yn ei rentu i'w wneud yn addas i berson anabl, ond dim ond os bydd y landlord yn cydsynio. Gall landlord wrthod cyn belled â'r bod yn rhesymol i wneud hynny. Os byddant yn cydsynio, gallant hefyd ychwanegu amodau penodol, cyn belled eu bod yn ystyried oed a chyflwr yr eiddo a'r costau i'r tenant o gydymffurfio â'r amodau. Os nad yw'r landlord yn ymateb i gais i ganiatáu addasiadau, fe gymerir eu bod wedi gwrthod cydsyniad.

Yn rhan o integreiddiad gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn yr Alban, mae'r dyletswyddau ar awdurdodau lleol i ddarparu cynorthwyon ac addasiadau bellach yn gyfrifoldeb i'r Byrddau Integredig ar y Cyd (IJBs). Mae hyn yn golygu fod gan bob IJB gyfrifoldeb strategol i asesu, cynllunio a darparu adnoddau ar gyfer addasiadau i berchnogion cartrefi, tai rhent preifat a thai sy'n eiddo i'r cyngor. Mae yna wahanol drefniadau ar gyfer tenantiaid RSLs.

Mae hon yn ymagwedd bositif sy'n cynyddu'r ffocws ar ataliaeth a chyflawni addasiadau a ddylai liniaru yn erbyn derbyniadau amhriodol i'r ysbyty neu leoliadau gofal tymor hir.

# Sut mae addasiadau yn cael eu cyflawni ar lefel leol?

## Ceisiadau am addasiadau

Canfu ein harolwg o awdurdodau lleol, yn 2015/16 roedd awdurdodau ym Mhrydain yn derbyn 194 o geisiadau ar gyfartaledd i ddarparu addasiadau i gartrefi. Mae'r duedd yn y nifer o geisiadau wedi bod yn wastad yn gyffredinol ers 2013/14, gydag oddeutu 200 fesul awdurdod pob blwyddyn (EHRC, 2018a).

## Cyfraddau cymeradwyo ar gyfer ceisiadau

Yn Lloegr, ar gyfartaledd bydd awdurdodau lleol yn cymeradwyo 75 y cant o geisiadau am DFGs, yn codi i bron i 90 y cant yng Nghymru. Mae gwrthodiad llwyr o geisiadau wedi ei gyfyngu'n bennaf i Loegr, ble mae'r awdurdod lleol cyfartalog yn gwrthod pedwar y cant o gymharu â llai nag un y cant yng Nghymru. Efallai bod yr ystadegau hyn yn creu darlun o lefel uchel o dderbyn ar gyfer grantiau, ond maent yn celu'r ffaith fod yna leiafrif o awdurdodau lleol sy'n ymddwyn yn wahanol. Mae tua chwech y cant o awdurdodau yn Lloegr yn gwrthod mwy na chwarter yr holl geisiadau a wnaed am addasiadau, ac mae 16 y cant yn talu'r gost lawn mewn ymateb i lai na hanner yr holl addasiadau (EHRC, 2018a).

Yn yr Alban, mae'r rhan fwyaf o addasiadau angen cyfraniad gan ddefnyddwyr o 20 y cant o gyfanswm y gost. Mae tua traean (36 y cant) o ymgeiswyr yn derbyn grantiau ar 100 y cant o'r gost, a thua dau o bob pump (59 y cant) yn derbyn grantiau ar 80 y cant o wrth yr addasiad. Mae gwrthodiad llwyr yn brin (un y cant), ac mae cyfran llawer fwy o geisiadau (saith y cant) yn cael eu tynnu'n ôl gan yr ymgeisydd (EHRC, 2018a).

## Amserau aros

Yn ogystal â chyfran resymol o geisiadau yn cael eu cymeradwyo, er mwyn i addasiadau fod yn ddefnyddiol rhaid eu cyflawni o fewn cyfnod amser rhesymol.

Y cam cyntaf mewn proses arferol yw'r asesiad therapydd galwedigaethol, sef ble bydd llawer o'r oedi yn digwydd. Mae hyn yn rhannol oherwydd prinder o therapyddion galwedigaethol a phrosesau maith mewn awdurdodau lleol (HEE a COT, 2016). Yna mae'r amser a gymer i benderfynu ar gymeradwyaeth. Canfu ein harolwg nad oedd gan isafswm (13 y cant) o awdurdodau lleol a gyflawnodd addasiadau wybodaeth ar amserau aros ceisiadau ar gael. Mae hyn yn cynyddu ymysg awdurdodau bychan gyda llai na 100,000 o breswylwyr (17 y cant). O'r rhai sydd â data ar gael, dywedodd dros hanner (57 y cant) eu bod fel arfer yn cyflawni penderfyniad o fewn chwe wythnos.

Wedi eu cymeradwyo, rhaid cyflawni'r cais – roedd y rhan fwyaf o awdurdodau yn cymryd rhwng chwech a 15 wythnos i gyflawni gosodiad. Roedd chwarter (23 y cant) o awdurdodau lleol yr Alban yn cyflawni addasiadau o fewn chwe wythnos i benderfyniad.

Er bod mwyafrif yr awdurdodau yng Nghymru a Lloegr yn cyflawni'r gymharol gyson, roedd lleiafrif o awdurdodau lleol Lloegr (saith y cant o'r holl awdurdodau lleol, neu 10 y cant yn Lloegr) yn cymryd dros chwe mis i gyflawni addasiadau wedi rhoi cymeradwyaeth.

Awgryma ein tystiolaeth fod gwneud addasiadau yn haws ar gyfer tenantiaid tai cymdeithasol nag ar gyfer tenantiaid preifat neu berchnogion cartrefi. Ond roed y broses yn aml yn faith, ac nid oedd rhai cyfranogwyr yn gallu fforddio ychwanegu at y grant i gael y newidiadau gofynnol.

> **"Gwnaethpwyd y cais i'n tŷ fod yn hygyrch i gadeiriau olwyn yn 2011, ac fe gwblhawyd y gwaith yn y diwedd yn Chwefror 2014. Bu farw fy nhad, oedd wedi bod yn gaeth i'r tŷ am bum mlynedd, wyth mis wedi cwblhau gosod y lifft cadair olwyn. Cyn hynny, roedd rhaid i ni gario fy nhad i fyny ac i lawr y grisiau."**
>
> Ymatebydd i'r alwad am dystiolaeth

Nododd awdurdodau lleol ym Mhrydain yr heriau canlynol o ran gwneud addasiadau amserol:

- Anhawster wrth ganfod is-gontractwyr dibynadwy
- Cyfyngiadau o ran lle mewnol
- Pobl anabl yn ei chael yn anodd llywio'r system i ymgeisio
- Natur 'fympwyol' y prawf modd
- Anhawster i berswadio landlordiaid i ganiatáu addasiadau
- Prinder therapyddion galwedigaethol, yn aml yn achosi croniad.

## Systemau cymhleth ac oedi

O ystyried fod cyn lleied o dai yn hygyrch a'r gyfradd araf o adeiladu yng Nghymru a Lloegr, maw addasiadau i gartrefi a ariennir yn breifat a thrwy'r DFG yn chwarae rhan allweddol wrth alluogi pobl anabl i fyw'n annibynnol. Mae'r cynnydd mewn cyllid yn gam pwysig, ond fe glywsom dystiolaeth fod natur araf a thrwsgl y broses DFG yn aml yn arwain at bobl yn treulio cyfnodau estynedig yn yr ysbyty tu hwnt i'w dyddiad rhyddhau neu' cael eu rhyddhau i lety anaddas.

Mae'r system ar gyfer asesu a chyflawni DFGs yn araf a chymhleth. Clywsom dystiolaeth fod pobl gydag anafiadau i fadruddyn y cefn yn cael eu rhyddhau i gartref heb ei addasu neu'n cael eu gorfodi i fyw mewn cartref nyrsio er mwyn rhyddhau gwely ysbyty. Mae'n costio tua £1,000 y dydd am wely mewn canolfan anafiadau madruddyn y cefn (Aspire, 2016). Mae addasiadau o safon yn gost effeithiol ac yn allweddol er mwyn byw'n annibynnol. Ar hyn o bryd, dim od unwaith pob pum mlynedd ellir gwneud cais am DFG. Mae hyn yn dileu unrhyw gyfle i rywun wneud addasiadau sylfaenol yn gyflym unwaith y byddant yn gwybod beth yw eu hanghenion sylfaenol, i'w galluogi i ddychwelyd adref a pheidio bod yn 'gaeth' mewn ysbyty neu gartref gofal.

Gan mai dim ond unwaith pob pum mlynedd y caniateir ceisiadau ar gyfer DFGs, mae'n rhaid iddynt, fodd bynnag, aros nes bydd yr ystod llawn o anghenion wedi eu nodi. Mae angen galluogi'r system DFG i fod yn fwy ymatebol i anghenion newidiol pobl ac i osgoi cyfnodau diangen yn yr ysbyty.

## Addasiadau i ardaloedd cyffredin

Darparodd Deddf Cydraddoldeb 2010 ofyniad newydd, yn Adran 36 ac Atodlen 4, i wneud addasiadau cysylltiedig i anabledd i rannau cyffredin eiddo preswyl ar osod, neu eiddo sydd dan berchnogaeth cyfunddaliad; fodd bynnag, nid wy'r darpariaethau wedi dod i rym unman ym Mhrydain eto.

Mae 'ardaloedd cyffredin' yn cynnwys y strwythur, tu allan ac unrhyw gyfleusterau cyffredin mewn adeilad nad yw dan berchnogaeth unigol. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, grisiau, mynedfa neu faes parcio a rennir.

Yng Nghymru a Lloegr, mae ardaloedd cyffredin yn gyfrifoldeb i berchennog y cyfunddaliad neu rydd-ddaliwr, ond yn yr Alban mae gan berchnogion gwahanol gartrefi yn yr un adeilad gyfrifoldeb ar y cyd am ardaloedd cyffredin.

Dywedodd pobl anabl wrthym fod ceisiadau am addasiadau i rannau cyffredin weithiau'n cael eu gwrthod yn 'afresymol', hyd yn oed ble nad oedd cost ar wahân i bobl eraill yn byw yn yr eiddo.

> **"Er bod fy eiddo presennol yn hygyrch, fe gymerodd dros ddwy flynedd i sicrhau hynny. Yn benodol, roedd gan y fynedfa flaen gyffredin ris yn wreiddiol. Roedd rhaid i ni gael caniatâd gan berchennog pob fflat er mwyn ei gwneud yn fynedfa lefel/gosod ramp. Roed un perchennog yn gwrthod am hydoedd gan y byddai'n 'creu'r argraff anghywir' a 'does dim disgwyl i rywun fel fi fyw mewn lle fel hyn'."**
>
> Ymatebydd i'r alwad am dystiolaeth

## Beth sydd angen newid?

Mae angen gwella cyflawniad addasiadau ar lefel awdurdod lleol, gan fod pobl anabl yn aros yn rhy hir am asesu a gosod addasiadau. Nid oes un modd unigol ar gyfer cyflawni gwasanaeth, ond ymysg yr enghreifftiau o arfer da archwiliwyd gennym, roedd y gorau yn ffocysu ar uno gwasanaethau o amgylch gofynion yr unigolyn, fel bod pobl anabl yn cael eu cefnogi wrth iddynt lywio'r llwybrau gwasanaeth cymhleth. Mae cyflawniad gwasanaeth hefyd yn gwella os yw timau amlddisgyblaethol yn cydweithio ac yn cynnwys pobl anabl yn effeithiol wrth wneud penderfyniadau.

Mae awdurdodau lleol angen gwella cyhoeddusrwydd i DFGs a delio â'r gamddealltwriaeth gyffredinol 'nad oes arian ar gael', sy'n gallu peri pobl i dybio nad oes rheswm i geisio cyngor a chefnogaeth. Mae angen darparu cyngor ac eiriolaeth, i helpu pobl anabl ar draws pob math o ddaliadaeth.

Mae rhentu yn y sector preifat yn arbennig o heriol ar gyfer pobl anabl: yn ein ymchwiliad amlygwyd natur fyrdymor cyfreithiau tenantiaeth yn Lloegr fel rhywbeth arbennig o anodd, gan fod DFGs wedi ei bwriadu i ddarparu datrysiadau tymor hwy ar gyfer pobl anabl. Mae nifer o bobl anabl mewn tenantiaethau preifat wedi eu cyfyngu i brydlesi blynyddol, nad ydynt yn darparu diogelwch a hirhoedledd gofynnol er mwyn i addasiadau fod yn effeithiol.

Yng Nghymru a Lloegr, mae'r Rheoliadau Adeiladu ar gyfer tai sector preifat angen eu gwella, fel bod addasiadau i'r eiddo hynny yn gymharol rhad a hawdd i'w gosod. Yn Lloegr, dylai Rhan M4(2) y Rheoliadau Adeiladu ac yng **Nghymru y Gofynion Ansawdd Datblygu** fod yn ddiofyn ar gyfer pob cartref newydd.

Mae landlordiaid sector preifat ac asiantau gosod yng Nghymru, Lloegr a'r Alban hefyd angen gwybodaeth gyfredol ar y gyfraith a pholisi parthed addasiadau ac addasiadau rhesymol.

Darparodd Deddf Cydraddoldeb 2010 ar gyfer gofyniad newydd ar gyfer addasiadau i rannau cyffredin eiddo preswyl ar osod, neu eiddo sydd dan berchnogaeth cyfunddaliad. Er hynny, yng Nghymru a Lloegr nid yw'r darpariaethau (yn Adran 36 ac Atodlen 4 Deddf 2010) wedi dod i rym eto. Yn yr Alban, mae Adran 37 mewn grym ond nid yw Llywodraeth yr Alban wedi cyhoeddi rheoliadau atodol eto i ddod â darpariaethau'r Adran i rym yn ymarferol.

# Argymhellion

## Yng Nghymru, Lloegr, a’r Alban rydym yn galw:

- Ar awdurdodau lleol i edrych ar frys ar y rhwystrau biwrocrataidd ac oedi sy’n bodoli yn y systemau addasiadau, i sicrhau y gellir gosod addasiadau rhad, mân yn arbennig yn gyflym a rhwydd. Dylid monitro ac adolygu hyn.
- Ar lywodraethau i ddarparu cyllid atodol i sefydliadau pobl anabl ac asiantaethau cynghori, i gynyddu’r cyflenwad o gyngor a gwybodaeth annibynnol parthed opsiynau tai, yn cynnwys addasiadau, gyda ffocws arbennig ar y sector rhentu preifat.

## Yng Nghymru a Lloegr, rydym yn galw:

- Ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i adolygu a thaclo’r rhwystrau i osod addasiadau yn y sector rhentu preifat, gyda ffocws penodol ar sicrwydd daliadaeth.
- Ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i weithredu’r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol i rannau cyffredin eiddo prydles, fel y sefydlir yn narpariaethau adran 36 Deddf Cydraddoldeb 2010 ar gyfer Cymru a Lloegr, erbyn diwedd 2018.

## Yn yr Alban rydym yn galw:

- Ar Lywodraeth yr Alban i daclo’r **gwahaniaeth mewn daliadaeth trwy** adolygu ac addasu elfennau o Ddeddf Tai (yr Alban) 2006 sy’n ymwneud â’r ddeddfwriaeth Cynllun Cymorth ynghyd ag adolygiad o’r cyllid a chanllaw cysylltiedig, er mwyn sicrhau cysondeb mewn canlyniadau, arfer da a hawliau cyfartal ar gyfer pobl anabl, waeth beth yw eu math o ddaliadaeth. Ar Lywodraeth yr Alban i **gynyddu’r adnoddau sydd ar gael ar gyfer addasiadau ar draws daliadaeth** i fodloni galw cynyddol.
- Ar Lywodraeth yr Alban i **gyflwyno rheoliadau yn unol ag adran 37 Deddf Cydraddoldeb 2010, sy’n darparu fod gan bobl anabl hawl i wneud addasiadau i rannau cyffredin parthed yr Alban.**

## Yng Nghymru rydym yn galw:

- Ar Lywodraeth Cymru i beilotio hyfforddiant ar gyfer landlordiaid sector preifat ar hygyrchedd yn rhan o’r cynllun Rhentu Doeth Cymru, i drwyddedu landlordiaid ac asiantau dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014.



# 4. Paru cartrefi gyda'r bobl sydd eu hangen

**Mae pobl anabl wedi eu cynrychioli'n llethol mewn tai cymdeithasol, oherwydd ei rhent fforddiadwy isel, sicrwydd daliadaeth a darpariaeth cefnogaeth, ond mae galw am i cymdeithasol yn fwy na'r cyflenwad ym mhob rhan o Brydain, ac mae polisïau ac arferion dyrannu yn aml yn anfanteisiol i bobl anabl.**

Mae pobl anabl yn adrodd fod prosesau dyrannu yn gymhleth ac yn aml byddant dan bwysau i dderbyn eiddo anaddas, neu'n cael eu gorfod i symud i ffwrdd o'u rhwydweithiau cefnogaeth a gofal, sy'n peri gofid.

> **"Parthed tai cymdeithasol, mae'r cyngor wedi awgrymu nad oes ganddo unman ar gael i mi. Pan gysylltais i â nhw, fe ddwedont y byddent fwy na thebyg yn gorfod fy rhoi mewn sefydliad. Mae hyn yn peri DYCHRYN MAWR i mi."**
>
> Ymatebydd i'r alwad am dystiolaeth

> **"Dwi wedi bod ar restr fy awdurdod lleol ers saith mlynedd, ond does yna ddim eiddo wedi bod ar gael yn y cyfnod hwnnw. Felly ar gyfer y ddwy flynedd ddiwethaf, dwi wedi gorfod golchi fy ngwallt mewn powlen tra fy mod yn eistedd ar y toiled."**
>
> Ymatebydd i'r alwad am dystiolaeth

> **“Cynnig yr awdurdod lleol oedd ‘dyma beth ydyn ni’n ei gynnig i chi, s nad ydych chi’n ei gymryd byddwn ni’n eich tynnu oddi ar y rhestr’. Doedd gen i ddim dewis o gwbl ynghylch y peth, ac roedd gen i blentyn 13 oed ar y pryd. Doedd ganddon ni ddim dewis – roedd rhaid i ni ei gymryd.”**
>
> Astudiaeth achos (EHRC, 2018b)

Mae yna bocedi o arfer da, yn arbennig ble mae yna dimau neu arbenigwyr anabledd penodedig mewn adrannau tai, a chysylltiadau gyda gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol eraill.

## Sut mae polisïau dyrannu yn gweithredu’n ymarferol?

Mae gan Gymru, Lloegr a’r Alban oll fframweithiau deddfwriaethol unigol, sy’n sefydlu’r gofyniad am bolisi dyrannu, a manylion ynghylch rheoli ‘blaenoriaeth rhesymol’ wrth ddyrannu eiddo. Mae blaenoriaeth rhesymol yn golygu y bydd grwpiau penodol yn cael rhywfaint o flaenoriaeth ar yr rhestr aros am dai, ond nid yw hynny o reidrwydd yn golygu y byddant yn cael eu trin fel achosion brys.

Yn 2015–16, roedd 446,000 o aelwydydd ar restrau aros awdurdodau tai lleol yn Lloegr yn y categori blaenoriaeth rhesymol. Y grŵp mwyaf, yn dilyn pobl yn byw mewn amodau gorlawn neu afiach, oedd ‘pobl oed angen symud ar sail meddygol neu lles, yn cynnwys seiliau yn ymwneud ag anabledd’, oedd yn cynnwys 113,400 o aelwydydd (DCLG, 2017b). Yn yr Alban, amcangyfrifir fod 10,000 o bobl ar restrau aros am dai (*I news*, 2018).

Er ei bod yn ofynnol i bob awdurdod lleol gael cynllun dyrannu, nid ydynt i gyd yn rheoli eu stoc tai eu hunain, na’n dyrannu llety’n uniongyrchol. Mae nifer yn gweithio mewn partneriaeth gyda Darparwyr Tai Cymdeithasol Cofrestredig (RPs)/Landlord Cymdeithasol Cofrestredig (RSLs) fel consortiwm i reoli a dyrannu eiddo sydd ar gael.

### Cofrestrau Tai Cyffredin

Mae Cofrestr Tai Cyffredin yn golygu fod angen i ymgeiswyr gwblhau un ffurflen yn unig i gael eu hystyried ar gyfer tai cymdeithasol yn eu hardal. Yna mae ymgeiswyr yn cael eu blaenoriaethu a’u graddio yn ôl y polisi dyraniadau sy’n weithredol yn eu hardal.

Mae awdurdodau lleol yn dynodi fod yna nifer o fanteision i weithredu Cofrestrau Tai Cyffredin mewn partneriaeth â darparwyr tai eraill, yn arbennig fel modd o arbed amser a chronni adnoddau, ac i ddarparu ymagwedd unedig a chyson i ddarparu cyngor a gwybodaeth am dai (Scottish Parliament Information Centre, 2012).

## Cofrestrau Tai Hygyrch

Gellir ystyried Cofrestrau Tai Hygyrch (AHRs) fel dim mwy na rhestr o gartrefi addas ar gyfer pobl anabl gydag anghenion mynediad penodol. Maent fel arfer yn cynnwys rhestr o eiddo hygyrch, a/neu restr o breswylwyr sydd angen tai hygyrch.

Er bod dulliau'n amrywio'n ymarferol, maent yn bennaf wedi eu sefydlu i roi ffordd i ddarparwyr tai gategoreiddio eu heiddo fel bod gan ymgeiswyr well dealltwriaeth o a fydd eiddo yn bodloni eu hanghenion. Mae hyn yn ei dro yn helpu darparwyr tai i wneud y defnydd gorau o'r stoc sydd ar gael.

Mae paru unigolion i eiddo wedi addasu yn broses gymhleth, a er bod AHRs yn fan cychwyn, mae angen gwell integreiddiad gydag elfennau eraill rheolaeth tai a thenantiaethau, fel timau addasiadau a'r rhai gydag arbenigedd mewn materion anabledd (fel therapyddion galwedigaethol), a sicrhau fod tenantiaid ac eiddo wedi eu paru'n briodol. Dylid cynnwys ffactorau eraill, fel agosatrwydd ar rwydweithiau cefnogaeth, trafnidiaeth hygyrch ac amwynderau lleol, yn y broses baru i roi cymaint o ffocws ar yr unigolyn â phosibl.

Canfu arolwg yn 2016 fod mwyafrif awdurdodau lleol yng Nghymru yn teimlo fod AHR yn effeithiol iawn o ran bodloni anghenion pobl anabl, ac yn eu galluogi i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael ac i arbed arian (Llywodraeth Cymru, 2016).

Ar draws Prydain, mae gan tua un o bob pump (22 y cant) o awdurdodau lleol Gofrestr Tai Hygyrch (EHRC, 2018a). Yng Nghymru, ble mae Llywodraeth Cymru wedi annog datblygiad a defnydd o Gofrestrau Tai Hygyrch yn helaeth, mae 52 y cant o awdurdodau lleol yn defnyddio'r dull hwn. Yn yr Alban, mae 26 y cant o awdurdodau lleol wedi adrodd fod ganddynt Gofrestr Tai Hygyrch (EHRC, 2018a).

**dim ond**

**22%**

**o gynghorau â chofrestr tai hygyrch**



## Gosod seiliedig ar ddewis

Mae gosod seiliedig ar ddewis (CBLs) yn ddull a ddilynir gan nifer o ddarparwyr tai ar draws Prydain. Er bod rhywfaint o wahaniaethau ynddynt, eu nodwedd gyffredin yw unwaith y bydd ymgeisydd yn cofrestru gyda'r darparwr tai, yna gall fynegi diddordeb (neu 'ymgeisio' ar gyfer) tai sydd ar gael, sydd fel arfer yn cael ei hysbysebu ar-lein. Mae'r gyfrifoldeb ar y sawl sy'n chwilio am lety i ymgeisio am dai, yn hytrach na gorfod aros i'r awdurdod lleol neu ddarparwr tai gynnig llety.

Efallai y bydd CBLs yn creu anfantais i rai unigolion oherwydd mae'r dull yn ddibynnol ar gael ymgeiswyr i wneud cais am eiddo, yn aml heb wybodaeth ddigonol ar hygyrchedd yr eiddo sydd ar gael. Yn ogystal, mae'r ddibyniaeth ar gofrestru a darpariaeth ar-lein hefyd yn creu rhwystr i rai grwpiau (Llywodraeth Cymru, 2013). Awgrymodd ymchwil yn 2011 ar ran y DCLG y dylid ad-drefnu dulliau CBL i sicrhau nad yw grwpiau penodol dan anfantais, yn arbennig y rhai gydag anawsterau dysgu neu nam ar y golwg.

> **"Bydd prosesau ymgeisio ar-lein yn anoddach i bobl gydag anableddau meddwl, gweledol neu anawsterau dysgu. Maent hefyd yn llai tebygol o fod â mynediad at TG. Er bod addasiadau rhesymol fel arfer ar gael, gall fod problemau gyda phobl anabl yn cael heibio'r rhwystr cyntaf o wybod sut i ymgeisio. Gall hefyd fod diffyg dealltwriaeth ymysg staff rheng flaen am beth mae hyn yn ei olygu'n ymarferol."**
>
> Ymatebydd i'r alwad am dystiolaeth, sefydliad pobl anabl

## Dyraniadau uniongyrchol

Mae rhai awdurdodau lleol a Darparwyr Tai Cymdeithasol Cofrestredig/Landlord Cymdeithasol Cofrestredig hefyd yn cadw rhestrau ar wahân, fel arfer ar gyfer tai sy'n gwbl hygyrch i gadeiriau olwyn, ac yn enwebu'r rhai maent yn credu sydd â'r angen mwyaf ar gyfer eiddo sydd ar gael. Ble gwneir dyraniadau uniongyrchol, maent yn aml wedi eu hysbysu gan weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol sy' golygu y ceir ymagwedd mwy cyflawn i asesu addasrwydd eiddo ar gyfer unigolyn. Fodd bynnag, mae'n ddibynnol ar y ffaith fod gan y darparwr tai wybodaeth ar hygyrchedd neu gallu i addasu ei stoc, sydd, fel y gwelwyd yn ein harolwg, yn anghyffredin.

Mae tystiolaeth gan ddarparwyr tai hefyd yn awgrymu eu bod yn ei chael yn gynyddol anodd i nodi unigolion ar restrau aros y mae eu gofynion hygyrchedd yn cyd-fynd ag eiddo sydd ar gael, ac o ganlyniad mae'r tai cyfyngedig sydd ganddynt yn aml yn mynd i bobl nad ydynt angen tai wedi eu haddasu. Mae'r ymagweddau gwahanol ac amrywiol hyn, yn aml yn digwydd o fewn un ardal, yn arwain at ddarlun dryslyd iawn ar gyfer nifer o bobl anabl yn chwilio am lety, sydd wedi ei waethygu gan rwystrau ac anawsterau eraill o ran ceisio a sicrhau tai priodol.

## Dyraniadau ar gyfer pobl yn byw mewn gofal preswyl neu ysbyty

Mae yna grŵp o bobl anabl nad ydynt yn ymddangos ar restrau aros am dai gan eu bod yn byw mewn gofal preswyl. Maent yn wynebu rhwystrau arwyddocaol i sicrhau cartref hygyrch gyda chefnogaeth i fodloni eu gofynion. Gofynnodd ein harolwg o therapyddion galwedigaethol a allai'r bobl roeddynt yn gweithio â nhw, a oedd yn byw mewn lleoliad gofal preswyl neu ysbyty, fyw'n annibynnol. Cytunai mwyafrif y therapyddion galwedigaethol y gallent, ond fe amlygwyd y diffyg tai hygyrch neu addasadwy fel rhwystr allweddol.

Adroddodd awdurdodau lleol yn ein harolwg eu bod leiaf hyderus am y nifer o bobl anabl mewn gofal preswyl ar hyn o bryd a allai fyw'n annibynnol pe byddai tai priodol ar gael. Roedd ychydig dros un ym mhob 10 (13 y cant) yn graddio eu data fel cyffredinol dda o gymharu ag oddeutu un traean (34 y cant) o ymatebwyr a deimlai fod eu data yn wael (EHRC, 2018a).

Canfu adroddiad gan y BBC fod pobl anabl yn aml yn cael eu gadael mewn ysbytai seiciatrig am gyfnodau hir a hyd yn oed blynyddoedd, oherwydd diffyg argaeledd tai a chefnogaeth (BBC, 2017). Fe glywsom fod yna ddiffyg eglurder rhwng awdurdodau lleol a'r GIG dros pa gorff cyhoeddus ddylai fod yn gyfrifol am gomisiynu tai i bobl adael ysbytai a lleoliadau preswyl. Tra bod yna duedd tuag at fwy o integreiddiad o iechyd, tai a gofal cymdeithasol, mae angen newid sylweddol ymysg Grwpiau Comisiynu Clinigol (CCGs) yn Lloegr, **Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol** yng Nghymru ac Awdurdodau Integredig yn yr Alban, i ddarparu mwy o ddatrysiadau i bobl fyw'n annibynnol o leoliadau gofal preswyl.

## Integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol

Mae integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol yn yr Alban yn golygu fod cydweithio a gwella rhannu data yn gwella cyflawniad rhywfaint o gefnogaeth o ran tai, addasiadau a gwasanaethau digartrefedd. Yn Lloegr, mae gan rai awdurdodau lleol dîm penodedig i gefnogi pobl anabl ac i'w paru gyda thai. Mae eraill yn cysylltu therapyddion galwedigaethol a gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol, yn anelu am ymagwedd sy'n rhoi gofynion yr unigolyn yng nghalon y broses o nodi cartrefi addas.

Dywedodd tua hanner (46 y cant) o'r awdurdodau a ymatebodd i'n harolwg fod ganddynt aseswyr mewnol wedi eu hyfforddi'n arbennig sy'n delio gyda cheisiadau tai gan bobl anabl. Roedd hyn yn fwy tebygol o fod yn wir yng Nghymru (65 y cant) a'r Alban (63 y cant) nad yn Lloegr (43 y cant), ac yn dueddol o fod mewn llefydd ble roedd gan awdurdodau boblogaethau mwy (EHRC, 2018a).

Ble ceir cysylltiadau da gyda therapyddion galwedigaethol a gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol eraill, mae'r canlyniadau ar gyfer pobl anabl yn fwy positif. Yn benodol, maent yn helpu Sicrhau bod gwybodaeth ar hygyrchedd eiddo sydd ar gael yn cael ei asesu a chyfathrebu yn fwy trylwyr, fel bod ymgeiswyr yn gallu gwneud dewis gwybodus wrth wneud cais.

### Y broses ymgeisio

Mae pobl anabl yn cael y broses ymgeisio y mae'n rhaid i denantiaid posibl fynd trwyddi yn un anodd ac ingol, yn arbennig ar gyfer rhai sy'n ymgeisio am y tro cyntaf.

Yn aml bydd ceisiadau ar-lein, yn sawl tudalen o hyd, ac angen cryn dipyn o wybodaeth gymhleth neu fanwl, nad yw wrth law i bobl anabl yn aml.

> **"Cafodd y ffurflenni cais eu llunio gan swyddogion tai ar gyfer swyddogion tai."**
>
> Cyfranogwr grŵp ffocws

Mae'r pwyslais ar y broses ymgeisio ar-lein yn ei gwneud yn anodd iawn i bobl sydd heb gyfrifiadur neu fynediad at gyfrifiadur ac sy'n gorfod defnyddio cyfleusterau lleol, er enghraifft cyfrifiaduron llyfrgell. Mae darpariaeth ar-lein hefyd yn golygu nad oes neb ar gael i ofyn am wybodaeth ganddynt, neu i wirio neu gadarnhau agweddau penodol o'r broses. Mae hyn yn broblem arbennig ar gyfer pobl anabl hŷn, phobl gyda nam ar eu golwg a phobl gydag **anableddau dysgu**, a allai fod angen cymorth wrth lenwi ceisiadau ar-lein.

Yn aml mae yna oedi wrth brosesu ceisiadau. Dywedodd un wrthym ei fod wedi aros dwy flynedd dim ond er mwyn cael prosesu ei gais, cyfnod ble nad oedd wedyn yn gallu ymgeisio am dai oedd yn dod ar gael.

## Sut mae'r broses asesu yn gweithio?

Unwaith y bydd unigolyn wedi cofrestru gyda darparwr tai, mae'n gorfod mynd trwy broses asesu i bennu pa flaenoriaeth ddylid rhoi i'w cais. Fe ystyrir y broses asesu i nodi gofynion tai ymgeiswyr, a'u lleoliad mewn categori blaenoriaeth, i fod yn annheg yn gyffredinol. Gall hyn fod oherwydd bod y systemau, prosesau a throthwyon a ddefnyddir yn amrywio yn sylweddol, ac yn aml nad oes tryloywder.

Yng Nghymru a Lloegr, mae namau corfforol, anableddau dysgu a chyflyrau iechyd meddwl yn sicrhau statws blaenoriaeth dan y maen prawf 'blaenoriaeth rhesymol'. Yn yr Alban, gwnaeth Deddf Tai (yr Alban) 2014 nifer o newidiadau i reolau dyrannu ar gyfer landlordiaid cymdeithasol sydd i ddod i rym yn 2018/19. Mae'r Ddeddf yn disodli'r categorïau 'blaenoriaeth rhesymol' gyda thri grŵp: tenantiaid tai cymdeithasol gyda deiliadaeth isel yn eu cartrefi; pobl digartref gydag anghenion tai heb eu bodloni; a phobl sy'n byw mewn amodau tai anfoddhaol gydag anghenion tai heb eu bodloni.

Nid yw derbyn lefel uchel o flaenoriaeth oherwydd anabledd yn golygu fod gwarant y bydd ymgeiswyr yn llwyddo i sicrhau cartref addas, fodd bynnag, gan y gall fod grwpiau blaenoriaeth eraill a fydd yn sicrhau'r eiddo cyfyngedig sydd ar gael.

Mae nifer o bobl anabl n canfod fod y broses asesu a ddefnyddir gan awdurdodau lleol a darparwyr tai yn aml yn feddygol iawn, ei fod yn blaenoriaethu iechyd corfforol dros anghenion iechyd meddwl, ac nad yw'n ystyried yr hawl i fyw'n annibynnol. Mae yna hefyd ddiffyg tryloywder, sy'n ychwanegu at sefyllfa sydd eisoes yn achosi straen: nid yw unigolion yn gwybod pryd fyddant yn cael gwybod beth yw canlyniad eu hasesiad, neu ni roddir rheswm iddynt pam y gwrthodwyd statws blaenoriaeth.

Yn ogystal, mae adroddiadau fod y bar wedi ei osod mor uchel ar gyfer asesiadau meddygol mewn rhai meysydd fel nad yw nifer o bobl gydag anghenion iechyd a chefnogaeth cymhleth iawn yn cael blaenoriaeth resymol, dim ond oherwydd nad oes digon o dai ar gael – yn arbennig eiddo sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn.

> **“Mae’r rhan fwyaf o awdurdodau yn defnyddio rhywun y cyfeirir ato fel Dr Na, o ran bod y prif benderfynydd meddygol. Dwi ddim yn gwybod beth yw ei enw go iawn, ond dyna ei lysenw mae’n debyg, Dr Na. Os oes rhywun gyda’r enw yna, rydych chi’n anobeithio’n llwyr.”**
>
> Cyfranogwr grŵp ffocws, Cynghorydd Tai Arbenigol

Mae yna dystiolaeth hefyd nad yw darparwyr tai yn dilyn ymagwedd fwy nigreedig i fodloni anghenion ymgeiswyr tai. Mae hyn yn cynnwys ystyried dyluniad ffisegol tai a’r amgylchedd adeiledig, a chysylltiadau i drafnidiaeth gyhoeddus ac amwynderau lleol, y ogystal â hygyrchedd yr eiddo ei hin wrth asesu angen (EHRC, 2018b).

## Amserau aros

Unwaith y bydd unigolyn wedi llwyddo i fynd trwy’r broses ymgeisio ac asesu aneglur a chymhleth am dai, yna byddant yn wynebu cyfnod aros hir.

Gofynnodd ein harolwg i awdurdodau lleol oedd â gwybodaeth ar hygyrchedd eu darpariaeth tai i adrodd am hyd cyfartalog yr amser a dreuliodd ymgeiswyr anabl ar y gofrestr tai. Dim ond 42 y cant o awdurdodau lleol a adroddodd amserau aros ar gyfer pobl anabl. Gall hyn fod oherwydd nad yw’r systemau a ddefnyddir i ddyrannu tai cymdeithasol bellach yn seiliedig ar restrau aros neu y gallai neu na allai systemau allu gwahanu amserau aros ar gyfer y rhai sydd angen tai hygyrch o ymgeiswyr eraill. O’r rhai a oedd yn gallu adrodd am amserau aros, hyd cyfartalog yr amser a arhosodd pobl anabl oedd 25 mis (EHRC, 2018a).

Daethom ar draws unigolion oedd yn aros llawer hirach, yn cynnwys un a gafodd wybod y gallai fod yn aros hyd at 10 mlynedd, ac un arall a ddywedodd ei fod wedi bod yn aros 20 mlynedd. Clywsom dro ar ôl tro gan asiantaethau cynghori fod eu cleientiaid yn aros yn hir am eiddo sy’n gwbl hygyrch i gadeiriau olwyn. Mae yna hefyd brinder penodol o eiddo hygyrch mwy o faint i deuluoedd.

## Chwilio am eiddo addas – y mater o fylchau data

Mae yna gymaint o ddiffyg o ran tai cymdeithasol, a chyn lleied o eiddo hygyrch neu wedi eu haddasu, fel y gall gymryd nifer o flynyddoedd i denantiaid anabl ddod o hyd i lety addas. Mae hyn wedi ei waethygu ymhellach gan ddiffyg gwybodaeth ar pa eiddo sy'n hygyrch, diffyg manylion ynghylch eu haddasiadau, a phwysau ar ymgeiswyr i dderbyn eiddo anaddas.

Mae data awdurdodau lleol ar dai hygyrch yn gyffredinol wael; nid yw 65 y cant yn gwybod os yw tai rhent cymdeithasol neu fforddiadwy yn eu hardal yn hygyrch neu beidio (EHRC, 2018a). Yn ogystal, nid oed data cenedlaethol ar gael ar stoc tai addasadwy.

Ble mae awdurdodau lleol yn berchen yn uniongyrchol ar eu stoc tai eu hunain, mae'r mwyafrif (84 y cant) yn graddio'r wybodaeth sydd ganddynt ar hygyrchedd eu heiddo fel da iawn neu dda. Po fwyaf yw'r awdurdod lleol, y mwyaf tebygol ydynt i raddio eu gwybodaeth fel da neu dda iawn (EHRC, 2018a).

Yn ogystal, tra bod 84 y cant o awdurdodau gyda eiddo yn nwylo'r cyngor yn dweud fod ganddynt wybodaeth ar addasiadau penodol a wnaethpwyd i'r eiddo hynny, dim ond 59 y cant a ddywedodd fod ganddynt wybodaeth fanwl ar lefel hygyrchedd yr eiddo, sy'n ei gwneud yn anodd iawn iddynt baru eiddo yn ôl angen (EHRC, 2018a). Mae'r diffyg data yma yn golygu fod systemau dyrannu yn aneffeithiol ac aflwyddiannus.

Ni all rhai awdurdodau lleol ddweud faint o bobl anabl sydd ar eu rhestrau aros, na beth yw eu gofynion parthed eiddo wedi addasu neu hygyrch. Dywedodd un awdurdod lleol wrthym eu bod wedi cael gwared ar 56 o ystafelloedd gwlyb (m gost o tua £10,000 yr un) yn 2016. Mae hyn oherwydd nad yw'r rhan fwyaf o breswylwyr nad ydynt yn anabl eisiau'r rhan fwyaf o addasiadau, o safbwynt esthetig ac oherwydd nad ydynt yn bodloni eu gofynion: er enghraifft, maent eisiau bath. Mae hyn yn awgrymu fod yna aneffeithiolrwydd sylweddol, oherwydd nad yw'r system dyrannu yn gallu paru pobl anabl ar y rhestr aros sydd angen addasiad o'r fath yn effeithiol.

Roedd gan bum deg y cant o awdurdodau lleol wybodaeth ar yr addasiadau penodol a wnaethpwyd, ond dim ond chwarter oedd â gwybodaeth fanwl am hygyrchedd yr eiddo.

Er gwaethaf y diffyg data yma, dywedodd 89 y cant o awdurdodau lleol oedd yn rheoli'r broses dyrannu eu bod yn llwyddiannus iawn neu'n eithaf llwyddiannus o ran paru eiddo addas a phobl anabl. Yn ogystal, mae'r mwyafrif o awdurdodau lleol yn adrodd neu bod naill ai'n effeithiol iawn neu'n weddol effeithiol o ran asesu anghenion pobl sydd angen tai hygyrch.

Mae rhai awdurdodau lleol yn gweithio'n galed i sicrhau y darperir gwybodaeth hygyrchedd i denantiaid posibl. Mae cyngor yng Ngogledd Orllewin Lloegr yn graddio ei eiddo yn ôl pedair lefel o hygyrchedd, er mwyn i ymgeiswyr allu asesu a fyddai eiddo yn addas i'w hanghenion. Mae awdurdodau lleol eraill yn dilyn dulliau tebyg.

Fodd bynnag, nid yw hyn yn cyd-fynd â phrofiadau pobl anabl, sy'n gweld nad oes fawr ddim manylion ar hygyrchedd eiddo. Nid yw darparwyr tai yn rhoi manylion llawn eiddo pob tro; er enghraifft, yn aml roedd ymgeiswyr yn cael gwybod yn rhy hwyr fod gan eiddo ystafell wlyb.

O ganlyniad, mae pobl yn ymgeisio am eiddo anaddas ac yna'n gorfod eu gwrthod wedi eu gweld am nad ydynt yn hygyrch. Roedd hyn yn arbennig o wir gyda hygyrchedd i gadeiriau olwyn; adroddodd pobl anabl nad oedd eiddo a hysbysebwyd fel hygyrch bob tro'n hygyrch mewn gwirionedd, gan fod drysau a meintiau ystafelloedd yn rhy fach i gadair olwyn symud. Mae gwneud cais am eiddo ac yna canfod ei fod yn anaddas yn siomedig ac yn blino rhywun yn emosiynol.

**"Mae gen i gleient arall ym mand A. Mae mewn cadair olwyn electrig ac mae'n gwneud ceisiadau'n gyson, ac wedi bod yn ymgeisio ers tua blwyddyn. Ac mae'n dal i aros am eiddo am nad oes digon sy'n addas i bobl gyda chadeiriau olwyn electrig."**

Ymatebydd i'r alwad am dystiolaeth, Cynghorydd Tai Arbenigol

Ategir y profiadau hyn mewn ymchwil sy'n dynodi fod rhai ymgeiswyr yn ymgeisio'n bwrpasol am eiddo nad ydynt yn addas i'w hanghenion, am ei bod yn poeni y bydd eu statws blaenoriaeth yn cael ei ddileu, ac felly y byddant yn aros yn hirach am gartref (EHRC, 2018b).

Weithiau bydd pobl yn cael cynnig eiddo filltiroedd i ffwrdd o'u rhwydwaith gefnogaeth neu amwynderau lleol, neu ble nad oedd yr ardal leol yn hygyrch iddynt (er enghraifft, llefydd ble nad oes pafin isel). Roedd yn rhaid i nifer wneud penderfyniadau ynghylch hygyrchedd eiddo yn gyflym iawn.

Mae rhai pobl yn cael eu hunain mewn cartrefi addas iawn, ond mae'r broses o gyrraedd y pwynt hwnnw yn aml yn anodd. Mae'n anodd i gyfranogwyr ganfod gyda phwy ddylent gysylltu; mae'n gofyn am ddyfalbarhad i gael canlyniadau, ac mae'n hawdd iawn i bobl gael eu hunain yn gaeth mewn cartref anaddas heb lawr o obaith o allu symud (EHRC, 2018b).

Ategwyd hyn gan ymatebwyr i'n galwad am dystiolaeth, a ddywedodd eu bod yn aml yn teimlo wedi eu gorfodi i dderbyn tai anaddas ac yna' gaeth yno, gan ad oeddynt bellach yn cael eu hystyried i fod ag angen blaenoriaeth.

**“Mae gen i un cleient sy’n byw mewn eiddo cymdeithas tai. Roedd ganddo gadair olwyn a wthir â llaw, ac mae wedi bod yn defnyddio hon ers peth amser. Ond mae ei gyhyrau wedi dirywio ac mae’n achosi cryn dipyn o boen a niwed iddo i ddal ati, felly mae wedi ei asesu i gael cadair olwyn electrig. Mae wedi cael un yn rhodd, ond mae’n byw mewn fflat stiwdio, ac mae’r gadair yn rhy fawr i’r drysau. Ni fydd yn gallu ffitio’r gadair yn yr eiddo, ac wedyn does ganddo unman i’w storio tu fewn am ei bod mor gyfyng yno.**

**Felly fe ddwedais wrth ei weithiwr cymdeithasol. Dyma’r gweithiwr cymdeithasol yn dweud ‘does yna ddim byd y galla i ei wneud. Mi alla i ysgrifennu llythyr cefnogi a’i roi i’r adran dai.’ Dywedodd yr Adran Dai ‘wel, dydy o ddim yn ddigartref felly mi wnawn ni ei roi ar y gofrestr a bydd ym mand C’. Ac mae’n gaeth yno, a phob dydd mae’n gorfod gwthio ei hun, mae’n niweidio ei hun. Felly nawr mae wedi ei gyfyngu. Mae’n aros adref yn fwriadol fel nad oes rhaid iddo wthio ei hun.”**

Cyfranogwr grŵp ffocws, Cynghorydd Tai Arbenigol

Ar y cyfan, mae pobl anabl yn adrodd fod y broses o ganfod tai addas yn flinderus, ac yn creu cryn dipyn o straen a gofid ar bob cam.

## Rhwystrau y mae grwpiau penodol yn wynebu

### Iechyd meddwl

> **“Mae iechyd meddwl yn cael ei anwybyddu fwy neu lai mewn polisïau dyrannu cymdeithasau tai, yn fy marn i. Dwi’n meddwl yn gyffredinol fod yna deimlad fod pobl yn cymryd mantais ac wedi cael llythyr doctor am eu bod yn trio gweithio’r system. Neu’n waeth byth, efallai fod yna rhyw fath o risg neu berygl i’r tenantiaid eraill. Efallai ei fod yn gelciwr neu’n dioddef anhwylder deubegwn, felly yn amlwg mae hynny’n golygu y bydd yn lofrudd gwyllt. Mae yna gryn dipyn o wahaniaethu. Dwi’n meddwl fod pobl gyda chyflyrau iechyd meddwl yn ddi-rym iawn yn y system.”**
>
> Ymatebydd i’r alwad am dystiolaeth, sefydliad pobl anabl

Datgelodd ein hymchwiliad fod pobl gyda chyflyrau iechyd meddwl yn wynebu rhwystrau penodol a chyson, sy’n amharu ar eu hawl i fyw’n annibynnol. Mae unigolion yn wynebu cryn dipyn o stigma gan ddarparwyr tai oherwydd camddehongliadau ac ystrydebau. Awgryma ymchwil y gall y straen yma yn aml waethygu neu hyd yn oed achosi cyflyrau iechyd meddwl (Mind, 2017).

Mae asiantaethau ac unigolion cynghori yn adrodd fod darparwyr tai yn ei chael yn anodd deall a chefnogi ymgeiswyr gyda chyflyrau iechyd meddwl, a blaenoriaethu gofynion mynediad corfforol o ganlyniad.

Mae hyn yn arbennig o bwysig ble dyrannir tai anghenion cyffredinol i bobl; fod bynnag, mae mynediad i gymorth fel y bo’r angen yn amrywio yn ôl rhanbarth, ac mae cyllid awdurdodau lleol ar gyfer gwasanaethau o’r fath wedi ei leihau’n aruthrol, sy’n golygu fod y gefnogaeth angenrheidiol hon yn cael ei lleihau’n gynyddol neu’n anodd i’w chyrchu.

Mae byw mewn tai sydd wedi eu rheoli’n dda, gyda chefnogaeth yn arwain at ddeilliannau positif i bobl gyda chyflyrau iechyd meddwl, gan eu galluogi i wella a byw’n annibynnol. Amcangyfrifi fod un o bob pump o bobl gyda chyflwr iechyd meddwl yn byw mewn llety â chymorth, tra bod tai o ansawdd da yn ategu triniaeth iechyd meddwl effeithiol (Rethink, 2017).

Fe'n hysbyswyd gan un corff cyhoeddus eu bod o'r farn fod diffyg cefnogaeth yn achosi i ddarparwyr tai (yn arbennig rhai Darparwyr Tai Cymdeithasol Cofrestredig/Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig masnachol, mawr) i dderbyn tenantiaid gyda chyflyrau iechyd meddwl: mae hyn oherwydd y diffyg cefnogaeth iechyd meddwl amserol a chost bosibl tenantiaeth sydd wedi methu mewn ffioedd cyfreithiol, colli refeniw ac amhariad cyffredinol.

Yn ogystal, mae sefydliadau pobl anabl yn adrodd fod y newidiadau a ddaeth i mewn yn Lloegr dan y Ddeddf Lleoliaeth 2011, sy'n galluogi darparwyr tai i ystyried 'ymddygiad dda' wrth ddyrannu statws blaenoriaeth i ymgeiswyr, yn cael effaith anghymesur ar unigolion gyda chyflyrau iechyd meddwl, gan fod darparwyr tai yn aml yn dehongli ymddygiad i fod yn wrthgymdeithasol (yn fwriadol neu fel arall) yn hytrach na bod o ganlyniad i'r amodau hyn.

## Anableddau dysgu neu nam synhwyraidd

**"Fe gawsom achos ble roedd rhywun yn eithaf ifanc a bregus, gydag anableddau dysgu, wedi bod yn sgwatio gyda ffrindiau nad oedd yn ffrindiau da iawn. Felly dyma ni'n mynd gyda'r person i ddweud ei fod yn ddigartref, a dyma'r awdurdod lleol – er i ni gynnwys y tîm diogelu a phopeth – dyma'r tîm tai fwy neu lai yn dweud 'wel, galli di fynd yn ôl yna, neu gallwn dy anfon i fwrdeistref x yn Llundain'. Yn y diwedd fe benderfynodd fynd yn ôl i'r lle roedd newydd ddianc ohono, dim ond i ganfod ei eiddo i gyd mewn bag du ar y stepen drws."**

Ymatebydd i'r alwad am dystiolaeth

Nod rhaglen Trawsnewid Gofal Llywodraeth y Deyrnas Unedig yw i wella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer pobl gydag anableddau dysgu ac awtistiaeth. Tra bod y rhaglen hon yn dilyn ymagwedd sy'n canolbwyntio ar unigolion, i sicrhau y gall pobl arfer dewis wrth gael mynediad at wasanaethau (yn cynnwys tai), mae gweithrediad yn araf iawn. Amcangyfrifir erbyn 2019, bydd dros 2,400 o unigolion gyda anableddau dysgu neu awtistiaeth angen tai, wedi cael eu rhyddhau o'r ysbyty neu ofal preswyl (NHS England, 2016). Mae cael cefnogaeth i ganfod a chynnal tai addas yn allweddol er mwyn galluogi pobl i fyw'n annibynnol.

Pan fydd dyraniad yn gweithio'n dda ac mae gan bobl gartrefi sy'n bodloni eu gofynion, mae'r gwahaniaeth i fywyd annibynnol a lles unigolyn yn arwyddocaol.

**"Mae fy nghartref presennol a fy Nghymdeithas Tai wedi newid fy mywyd yn ddi-ben-draw. Heb y cartref yma, mo fyddai fy mywyd yn wahanol iawn, ac mi fyddwn i'n debygol yn gaeth mewn cartref cwbl anhygyrch, yn dioddef afiechyd meddyliol a ffisegol. Yn benodol, mae fy ystafell sbâr a gardd yn gwneud gwahaniaeth mawr i'm bywyd, gan y gallaf gael golau'r haul adref a chael cathod, sy'n allweddol i'm lles. Mae fy mrawd yn gallu aros gyda'i deulu, mae ffrindiau yn gallu ymweld yn rheolaidd, dwi'n gallu mynd ar drywydd perthnasau rhamantaidd a chael rheolaeth dros fy mywyd."**

Ymatebydd i'r alwad am dystiolaeth

## Llais y tenantiaid

Rhaid grymuso tenantiaid i fynegi eu barnau i'w landlord ac i ymgysylltu'n weithredol o ran llunio polisïau a gwasanaethau. Yng Nghymru a Lloegr, fe glywsom fod tenantiaid anabl yn teimlo'n rhwystredig oherwydd eu diffyg dylanwad ar ddarparwyr tai; mae hyn wedi ei waethygu gan gau cyrff cynrychiadol ar gyfer tenantiaid yn Lloegr (National Tenants Voice) yn 2010 ac yng Nghymru (Tenantiaid Cymru) yn 2017. Yn yr Alban, mae system fwy cadarn ar waith. Mae'r Siarter Tai Cymdeithasol yn sefydlu beth ddylai tenantiaid ddisgwyl gan eu landlordiaid o ran ansawdd a gwerth am arian, safon eu cartrefi yn ogystal â chyfleoedd i gyfathrebu a chymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae Rheolydd Tai'r Alban yn monitro ac asesu perfformiad landlordiaid yn rheolaidd yn erbyn y Siarter.

Ar lefel leol, awgrymodd tystiolaeth i'r ymchwiliad fod effeithiolrwydd darparwyr tai cymdeithasol ac ymgysylltu awdurdodau lleol gyda'u tenantiaid yn amrywio gryn dipyn. Fe glywsom enghreifftiau rheolaidd am systemau araf a biwrocrataidd sydd wedi cael effaith fwy negyddol ar bobl anabl pan fydd pethau'n mynd o chwith. Pan fydd tenantiaid wedi eu cynnwys, fe glywsom am rai canlyniadau dramatig. Mewn un achos, daeth amserau gosod ar gyfer addasiadau i lawr o ddwy flynedd i dair wythnos, wedi cynnwys grŵp anabledd i'w adolygu ac yna symleiddio'r prosesau.

## Beth sydd angen newid?

Tra bod prosesau dyrannu tai yn amrywio'n sylweddol ar draws Prydain, un nodwedd gyffredin yw eu bod yn gymhleth ac yn achosi straen, ac yn aml yn methu darparu digon o wybodaeth i bobl anabl iddynt allu gwneud penderfyniadau gwybodus ynghylch os fydd y cartrefi a gynigir iddynt yn bodloni eu hanghenion. Mae diffyg cyngor arbenigol neu gefnogaeth i drafod cymhlethdodau ymgeisio am dai addas yn broblem gynyddol, sy'n gwaethygu'r anawsterau mae pobl anabl yn wynebu.

Mae galw am dai cymdeithasol ar draws Prydain yn golygu fod rhestrau aros yn hir iawn. Er mwyn targedu adnoddau'n fwy effeithiol, maw awdurdodau lleol ac RPs/RSLs angen gwybodaeth llawer gwell ynghylch pobl anabl a'u gofynion. Mae nifer o denantiaid anabl yn teimlo'n ddi-rym a heb fodd o godi pryderon gyda'u landlord.

Ceir tystiolaeth nad yw darparwyr tai yn deall gofynion posibl pobl gydag anableddau dysgu neu bobl gyda chyflyrau iechyd meddwl yn llawn, ac felly maent yn blaenoriaethu ymgeiswyr gyda nam corfforol dros eraill. Mae eiddo sy'n gwbl hygyrch i gadeiriau olwyn hefyd yn hynod brin, ac mae darparwyr tai yn ei chael yn anodd deall yn llawn beth mae hygyrchedd ffisegol yn ei olygu i bobl anabl, sy'n golygu eu bod yn cynnig eiddo anhygyrch.

Dylai awdurdodau lleol ac RPs/RSLs wella'r wybodaeth sydd ar gael i ymgeiswyr ar bob cam o'r broses dai yn arbennig parthed y broses ar gyfer ymgeisio a sicrhau llety addas, y tebygolrwydd o lwyddiant, addasrwydd (hygyrchedd/gallu i addasu) eiddo sydd ar gael, a'r amser aros tebygol. Dylai gwybodaeth fod ar gael mewn amryw o ffurfiau.

Mae'r prosesau asesu a ddefnyddir gan awdurdodau lleol ac RPs/RSLs wedi eu gwreiddio mewn model meddygol o anabledd, ac yn methu a rhoi pwysigrwydd dyledus i'r unigolyn a phwysigrwydd byw'n annibynnol. Dylai darparwyr tai sicrhau bod unrhyw broses asesu yn dilyn y model cymdeithasol o anabledd, ac yn ystyried yr holl rwystrau amgylcheddol ac agweddol, a allai leihau ansawdd bywyd unigolyn.

## Argymhellion

### Yng Nghymru, Lloegr, a'r Alban rydym yn galw:

- Ar awdurdodau lleol a Darparwyr Cofrestredig Tai Cymdeithasol/Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i **fewnosod egwyddorion byw'n annibynnol i bolisïau asesu a dyrannu** ar gyfer tai cymdeithasol, i sicrhau dewis a rheolaeth wirioneddol.
- Ar awdurdodau lleol i **gynyddu eu gwybodaeth o stoc tai cymdeithasol hygyrch presennol yn arwyddocaol** ac i ddatblygu gwasanaethau cymorth a gwybodaeth arbenigol i hwyluso paru addas.
- Ar awdurdodau lleol i weithredu arfer gorau ar ddefnyddio **cofrestrau tai hygyrch**, gyda'r nod mwy hirdymor o ddefnyddio methodoleg safonol ar draws yr holl awdurdodau lleol.
- Ar awdurdodau lleol i weithio gyda'r GIG i sicrhau bod pobl yn byw mewn gofal sefydliadol a phreswyl yn cael eu cefnogi i fyw'n annibynnol.
- Ar lywodraethau i **gyhoeddi safonau, a monitro ac adolygu effeithiolrwydd Cofrestrau Tai Hygyrch**.



# 5. Cefnogi pobl i fyw'n annibynnol

**Mae'n cymryd mwy na phedair wal i alluogi pobl anabl i fyw'n annibynnol; mae cefnogaeth hefyd yn allweddol. Gall cefnogaeth fod ar sawl ffurf, ac eto mae'r ddarpariaeth o gyngor o safon, eiriolaeth ac arweiniad ar gyfer tai yn dameidiog ac anodd i'w ganfod. Mae newidiadau i gyllid ar gyfer cyngor tenantiaeth a llety â chymorth wedi creu ansicrwydd ar gyfer pobl anabl a darparwyr tai.**

Mae cyngor, eiriolaeth ac arweiniad yn bwysig iawn wrth bwyso a mesur opsiynau tai. Awgryma ein tystiolaeth fod pobl anabl yn gallu arfer eu hawliau yn fwy effeithiol pan fydd ganddynt fynediad at wybodaeth a chymorth arbenigol o safon, ond ei bod yn anodd iawn cael mynediad at y math yma o gefnogaeth.

> **"Fe ymddengys nad oes unrhyw gyngor ar dai ar gael i bobl sydd ag anghenion corfforol uchel, ond nad ydynt eisiau byw mewn cartref preswyl. Does gen i ddim syniad gyda phwy ddylwn i gysylltu am gyngor a gwybodaeth ar sut i fynd ati i ganfod rhywle ble gallem fyw'n annibynnol fel cwpl."**
>
> Ymatebydd i'r alwad am dystiolaeth

Mae newidiadau i'r system fudd-daliadau a phrosesau asesu cysylltiedig wedi llethu nifer o wasanaethau cynghori. Mae asiantaethau cynghori arbenigol wedi dweud wrthym fod gwasanaethau cyngor arbenigol ar gyfer pobl anabl yn cau oherwydd diffyg cyllid, a bod pwysau ar wasanaethau cyngor cyffredinol i ddarparu cefnogaeth tu allan i'w maes arbenigedd. Mae darpariaeth yn dameidiog, ac oherwydd cymhlethdod darpariaeth tai a'r newidiadau i bolisi lles, yn fuan iawn y bydd gwybodaeth yn dyddio.

> **“Fe ymddengys nad oes unrhyw gyngor ar dai ar gael i bobl sydd ag anghenion corfforol uchel, ond nad ydynt eisiau byw mewn cartref preswyl. Does gen i ddim syniad gyda phwy ddylwn i gysylltu am gyngor a gwybodaeth ar sut i fynd ati i ganfod rhywle ble gallem fyw’n annibynnol fel cwpl.”**
>
> Ymatebydd i’r alwad am dystiolaeth

Mae newidiadau i’r system fudd-daliadau a phrosesau asesu cysylltiedig wedi llethu nifer o wasanaethau cynghori. Mae asiantaethau cynghori arbenigol wedi dweud wrthym fod gwasanaethau cyngor arbenigol ar gyfer pobl anabl yn cau oherwydd diffyg cyllid, a bod pwysau ar wasanaethau cyngor cyffredinol i ddarparu cefnogaeth tu allan i’w maes arbenigedd. Mae darpariaeth yn dameidiog, ac oherwydd cymhlethdod darpariaeth tai a’r newidiadau i bolisi lles, yn fuan iawn y bydd gwybodaeth yn dyddio.

> **“Mae yna ddigon o sefydliadau sy’n dweud eu bod yn [darparu cyngor], ond yn aml bydd yr wybodaeth yn anghywir a rhaid i chi ei gwirio. Yn aml mae yna nifer o sefydliadau sy’n gwneud yr un peth. Byddai’n well cael siop un stop, gyda dim ond un yn delio efo dyled, un arall yn delio efo materion trwsio ac ati. Mae’r trydydd sector yn orlawn o bobl yn dweud y gallant helpu, ond yn aml dydyn nhw ddim.”**
>
> Ymatebydd i’r alwad am dystiolaeth

Mae pobl anabl, ac yn arbennig y rhai gydag anableddau dysgu, nam synhwyraidd neu gyflyrau iechyd meddwl, yn adrodd eu bod yn cael anhawster cael cefnogaeth ddigonol gan ddarparwyr tai. Mae hyn yn amrywio o amharodrwydd i gyflenwi gwybodaeth ar ffurfiau hygyrch, fel ‘hawdd i’w darllen’, i ddiffyg manylder mewn hysbysebion am eiddo hygyrch, a diffyg cymorth gyda cheisiadau. Mae hyn yn cynnwys cytundebau tenantiaeth a gohebiaeth gan y landlord, sydd fel arfer yn cynnwys iaith ddeddfol ac anhygyrch i nifer o bobl, yn cynnwys rhai gydag anableddau dysgu.

Mae gan awdurdodau lleol ar draws Prydain ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Yn Lloegr, mae'r diffyg cefnogaeth yn mynd yn uniongyrchol groes i ofynion statudol darparwyr tai dan Ddeddf Tai 1996 (s166A(9)), sy'n dynodi y dylai ymgeiswyr allu derbyn gwybodaeth a chymorth yn rhad ac am ddim.

Cododd sefydliadau cynghori a ymatebodd i'n galwad am dystiolaeth y pryder fod nifer o wasanaethau cyngor arbenigol yn colli allan ar gyllid. Mae hyn wedi ei achosi gan bwysau ar gyllid; fe ymddengys fod yna duedd i awdurdodau lleol resymoli eu gwasanaethau cynghori i un contract, yn darparu gwasanaeth cyffredinol.

**"Os oes gan rywun sefyllfa dai mwy cymhleth ac angen cyngor diduedd, mae'n anodd dod o hyd i hynny yn y cyngor, ac mae'n fwyfwy anodd cael apwyntiad gyda'r CAB, oherwydd cymaint o alw."**

Ymatebydd i'r alwad am dystiolaeth

Thema allweddol yn y dystiolaeth a dderbyniom, trwy ein galwad am dystiolaeth, oedd fod yna gyswllt cryf rhwng iechyd corfforol a meddyliol, yn arbennig os oes oedi o ran dod o hyd i lety addas neu wneud addasiadau. Mae eirioli a chyngor effeithiol i lywio trwy'r systemau dryslyd yn allweddol o ran darparu cymorth ymarferol ac ysbrydol.

Dywedodd rhai pobl anabl eu bod wedi derbyn cefnogaeth gan eiriolwyr annibynnol, neu gan weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol, a hwylusodd eu chwiliad am lety addas yn arwyddocaol. Gweithiodd un awdurdodau lleol gyda phartneriaid trydydd sector i ddatblygu cynllun brocera arloesol sy'n darparu cyngor a chefnogaeth yn canolbwyntio ar unigolion, yn bennaf i bobl gyda chyflyrau iechyd meddwl.

## Herio penderfyniad

Mae pobl anabl yn adrodd y gall cyngor cyfreithiol fod bron yn amhosibl i'w gael. Fel arfer nid yw Cyngor ar Bopeth yn cefnogi apeliadau, ac fe adroddodd pobl anabl fod apwyntiadau cyngor wedi eu cyfyngu yn gyffredinol i un sesiwn hanner awr. Mae oedi yn beth cyffredin, er fod Darparwyr Tai Cymdeithasol Cofrestredig: (RPs)/Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (RSLs) weithiau yn talu i roi eu preswylwyr ar lwybr cyflym. Yn gynyddol, mae RPs/RSLs yn darparu'r gwasanaeth hwn yn fewnol, ac yn ei weld fel rhan angenrheidiol o helpu eu preswylwyr i gynnal eu tenantiaethau, er gwaethaf pwysau ariannol o ostyngiadau mewn rhent a fandadwyd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Gyda thwf cyflym y sector rhentu preifat yn Lloegr yn y blynyddoedd diwethaf, mae diffyg cyngor a gwybodaeth o safon yn bryder arwyddocaol.

Mae adroddiad y Pwyllgor Menywod a Chydraddoldebau (2017) i anabledd a'r amgylchedd adeiledig wedi amlygu'r ffaith ei bod yn anodd iawn i unigolion gyflwyno her gyfreithiol.

> "Nid yw dull sy'n dibynnu ar bobl anabl unigol yn cyflwyno her pob un tro y byddant yn dod ar draws rhwystr yn gynaliadwy yn foesol nac yn ymarferol. Yn anffodus, dyma yw'r prif ddull gorfodi a ddarperir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010." (p.7)

Yn dilyn diwygiadau yn 2013, mae tai yn gyffredinol tu allan i gwmpas cymorth cyfreithiol (Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012, Atodlen 1, Rhan 1). Pan gyniwyd y diwygiadau, roedd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cydnabod fod y bobl gyda'r mathau o hawliadau tai yr oedd yn bwriadu eu heithrio yn fwy tebygol o fod yn sâl neu anabl (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2011).

Ers cyflwyno'r diwygiadau, mae'r nifer o achosion tai a ariennir ar gyfer cyngor cyfreithiol cychwynnol wedi gostwng flwyddyn ar flwyddyn: 85,192 yn 2012–13 i 35,469 yn 2016–17, sy'n cynrychioli cwymp o 58 y cant (Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol, 2017). Mae cyllid ar gyfer canolfannau cyngor cyfreithiol wedi lleihau'n arwyddocaol, ac mae ardaloedd o 'anialwch' cynghori wedi codi mewn rhannau o'r wlad ble nad oes fawr ddim neu ddim darpariaeth (EHRC, 2015). Mae Cymdeithas y Gyfraith wedi canfod fod gan oddeutu traean o ardaloedd Cymru a Lloegr un neu ddim darparwyr cymorth cyfreithiol cyngor ar dai (Cymdeithas y Gyfraith, 2017). Gall hyn arwain at bobl yn aros am gymorth cyfreithiol maent ei angen ar frys, neu'n methu cael mynediad at gymorth cyfreithiol o gwbl.

Amlygodd ymchwiliad Comisiwn Low i ddyfodol cyfraith lles cymdeithasol yng Nghymru a Lloegr bwysigrwydd cyngor arbenigol i bobl gydag anableddau dysgu cymedrol, nam gwybyddol, neu nam ar y golwg. Fe ganfu fod gwasanaethau cefnogaeth arbenigol wedi dirywio, oherwydd toriadau i gymorth cyfreithiol, yn ogystal â'r lleihad mewn cyllid i awdurdodau lleol. Mae hyn wedi ansefydlogi a lleihau'r sector cyngor a chymorth cyfreithiol ar adeg mae angen yn cynyddu (Comisiwn Low, 2014).

## Cynnal tenantiaethau a chymorth fel y bo'r angen

Gellir teilwra cefnogaeth i denantiaethau neu 'gymorth fel y bo'r angen' i fodloni gofynion unigol, ond fel arfer mae'n cynnwys sawl awr o gefnogaeth yr wythnos i gynnal tenantiaeth, a gall gynnwys opsiynau cefnogaeth mwy dwys os oes angen. Mae'n aml yn cynnwys help gyda rheoli arian a budd-daliadau, neu faterion eraill megis unigedd neu aflonyddu. Rydym wedi gweld fod y math yma o gefnogaeth yn darparu gwerth cymdeithasol ac economaidd enfawr, oherwydd mae'n galluogi pobl i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi. Mae cefnogaeth i denantiaethau yn ataliol, a gall ragweld a delio â materion a allai arwain at gostau pellach yn hwyrach (er enghraifft, ôl-ddyledion rhent neu bobl angen gwasanaethau argyfwng).

Mewn adroddiad diweddar, nododd Mind fod cefnogaeth yn arbennig o bwysig wrth i bobl symud rhwng daliadaeth; er enghraifft, o lety â chymorth i anghenion cyffredinol neu lety rhent preifat (Mind, 2017).

## Rhaglen Cefnogi Pobl


Sefydlwyd y Rhaglen Cefnogi Pobl yn 2003. Fe ddaeth â ffrydiau cyllido yn ymwneud â thai ar draws Llywodraeth Ganolog ynghyd mewn un rhaglen. Roedd cyllid yn cael ei ddyrannu o fewn awdurdodau lleol, i ddarparu gwasanaethau cefnogaeth yn ymwneud â thai.

Roedd y gwasanaethau a ddatblygodd o'r gronfa hon yn dueddol o fod yn gyfuniad o wasanaethau ataliol, fel cymorth fel y bo'r angen, a gwasanaethau seiliedig ar lety. Roedd y Rhaglen yn gweithredu ar draws Cymru, Lloegr, a'r Alban, ond yn 2009 cafodd y ffrwd cyllid a neilltuwyd ei dileu.

Ers dileu'r neilltuad ar gyfer cyllid Cefnogi Pobl yn 2009, ceir tystiolaeth o leihad mewn cyllid ar gyfer costau cefnogaeth mewn llety â chymorth, yn arbennig yn awdurdodau lleol Lloegr (Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, 2014).

# 95%

**o gynghorau yn darparu gwasanaethau cymorth tenantiaeth. Fodd bynnag, dim ond**



# 30%

**yn dweud eu bod yn bodloni'r gefnogaeth ar gyfer cymorth tenantiaeth**

Mae'r Rhaglen Cefnogi Pobl yn dal i weithredu yng Nghymru; fodd bynnag, bydd y neilltuad ar gyfer y gyllideb yn dod i ben yn 2020. Ar hyn o bryd mae'r gronfa yn cefnogi 67,000 o bobl yng Nghymru (Swyddfa Archwilio Cymru, 2017), ac felly fe godwyd hyn fel pryder ddifrifol yn ein hadborth gan ddarparwyr tai Cymru.

Yn Lloegr, mae cyllid ar gyfer gwasanaethau cefnogaeth tenantiaethau wedi lleihau'n arwyddocaol ers dirywiad y gronfa Cefnogi Pobl. Awgryma tystiolaeth a gyflwynwyd i'n hymchwiliad gan ddarparwyr tai fod y bwlch hwn mewn ariannu cefnogaeth i gynnal tenantiaethau wedi cael effaith benodol ar bobl gyda chyflyrau iechyd meddwl, a'r rhai gydag anableddau dysgu cymedrol.

> **“Erbyn i ni allu cael therapydd galwedigaethol i asesu ein hanghenion tai, roeddwn i wedi gorfod cael fy nhynnu oddi ar y gwasanaethau cefnogaeth tenantiaeth oherwydd meini prawf newydd mwy caeth o ganlyniad i’r toriadau mewn cyllid.”**
>
> Ymatebydd i’r alwad am dystiolaeth

Mae tystiolaeth hefyd yn awgrymu fod yn ddiffyg eglurder gwirioneddol rhwng darparwyr tai, awdurdodau lleol, Grwpiau Comisiynu Clinigol a’r trydydd sector yn Lloegr o ran pwy sy’n gyfrifol am ddarparu cefnogaeth i lenwi’r bylchau (MHP Health, 2014). Mae RPs/RSLs yn teimlo dan bwysau mawr, gan ddweud wrthym fod cau’r gronfa a thoriadau i wasanaethau cyhoeddus eraill yn golygu eu bod yn teimlo’n gynyddol bod yn rhaid iddynt ‘wneud pethau’n iawn’, a delio gydag unrhyw faterion a fyddai wedi eu datrys yn flaenorol gan wasanaethau iechyd neu wasanaethau gwaith cymdeithasol. Mae hyn wedi ei waethygu ymhellach gan ddiffyg gwasanaethau cyngor ac eiriolaeth i gyfeirio eu tenantiaid tuag atynt.

Tra bod y rhan fwyaf o RPs/RSLs yn gwneud eu gorau i fodloni anghenion tenantiaid presennol, mae yna ddiffyg ysgogiad i dderbyn tenantiaid newydd nad ydynt yn ‘barod ar gyfer tenantiaeth’, gan nad yw’r gefnogaeth ar gael yn aml.

Mewn grŵp ffocws ac gyfer RPs/RSLs, roedd cydsyniad cyffredinol fod iechyd meddwl ar frig eu pryderon, a’u bod yn aml yn teimlo eu bod yn gorfod delio â methiannau mewn gwasanaethau eraill. Gall yr oedi a’r anhawster o ran cael mynediad at gefnogaeth brysuro methiant tenantiaeth.

Gall iechyd meddwl gwael hefyd effeithio ar allu pobl i reoli eu tenantiaethau yn llwyddiannus, gan eu gwneud yn agored i droi allan, a gall unrhyw ddirywiad mewn iechyd meddwl ei gwneud yn anodd i bobl ymgysylltu gyda gwasanaethau cefnogaeth (Sefydliad Joseph Rowntree, 2017). Fe adlewyrchir hyn yn nata’r GIG sy’n dangos mai dim ond 31 y cant o’r rhai sy’n derbyn triniaeth iechyd meddwl cymunedol sydd wedi setlo mewn llety (NHS Digital, 2017). Bydd y data yma yn cynnwys y rhai sy’n byw mewn llety â chymorth arbenigol, yn ogystal â’r rhai mewn hosteli neu sy’n ddigartref. Mae hyn yn ategu beth ydym wedi ei glywed yn ein tystiolaeth: fod y rhai sydd â chyflyrau iechyd meddwl yn ei chael yn anodd canfod tai mewn unrhyw sector. Bydd sut y bydd awdurdodau lleol **yn Lloegr yn** dehongli’r Ddeddf Lleihau Digartrefedd 2017 yn bwysig, ac yn gyfle i gynorthwyo’r rhai sydd ‘dan risg’, nifer ohonynt gyda chyflyrau iechyd meddwl.

## Beth yw rôl llety â chymorth?

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cynnal adolygiad maith o lety â chymorth, sydd wedi achosi elfen o ansicrwydd ar gyfer pobl anabl a darparwyr tai. Fe glywsom amrywiaeth barn ynghylch rôl llety â chymorth, yn cynnwys rhai pryderon nad yw llety â chymorth yn hyrwyddo'r hawl i fyw'n annibynnol ar bob adeg. Amlygodd y pryderon a godwyd gan randdeiliaid y gall fod pwysau gormodol i symud i lety â chymorth ac y dylai'r ffocws fod ar ddarparu cefnogaeth mae pobl angen i fyw'n annibynnol yn eu cartref eu hun, os mai dyna yw eu dewis.

Mae'r diffiniad o lety â chymorth yn eang iawn. Mae'n cynnwys unrhyw gynllun tai ble darperir llety ynghyd â gofal, cefnogaeth neu oruchwyliaeth. Mae llety â chymorth yn rhan arwyddocaol o ddarpariaeth tai, ac mae modelau yn amrywio'n sylweddol, yn ddibynnol ar ofynion y bobl sy'n byw yno.

Yn ôl yr Adolygiad o Lety â Chymorth, mae tua 71 y cant o dai â chymorth ar gyfer pobl hŷn gydag anghenion cefnogaeth. Fodd bynnag, mae cyfran arwyddocaol ar gyfer pobl gydag anghenion llawer mwy eang, yn cynnwys anableddau dysgu a chorfforol a phobl gyda chyflyrau iechyd meddwl. Amcangyfrifir fod yna 651,500 o unedau tai lety â chymorth ar draws Prydain. Mae'r mwyafrif (85 y cant) yn Lloegr, gyda naw y cant yn yr Alban a chwech y cant yng Nghymru (DCLG a DWP, 2016b).

Mae galw am lety â chymorth yn cynyddu, oherwydd y nifer cynyddol o bobl gydag anableddau dysgu, cau ysbytai arhosiad hir, lleihad mewn gofal preswyl a ddarperir gan awdurdodau lleol, a nifer cynyddol o bobl oedrannus. Awgryma ymchwil gan Rethink fod yna ddiffyg o 15,640 llety i'w osod ar gyfer pobl o oedran gwaith yn ystod 2015/16 (Rethink, 2017).

Mae lety â chymorth yn ddrytach na llety anghenion cyffredinol, ond mae'n gyffredinol yn llai drud na gofal preswyl, ac yn creu arbedion cost arwyddocaol ar gyfer rhannau eraill o'r sector cyhoeddus (Golden Land Housing, 2016). Amcangyfrifa dadansoddiad y DCLG fod budd ariannol net darparu llety â chymorth yn £3.53 biliwn y flwyddyn (DCLG a DWP, 2017a).

Mae'r Ffederasiwn Tai Cenedlaethol wedi adrodd fod yr arbediad blynyddol a gynrychiolir o lety â chymorth, ar gyfer tenantiaid oedrannus, trwy leihau dibyniaeth ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, yn £3,000 y pen, tra ar gyfer pobl ag anableddau dysgu a chyflyrau iechyd meddwl mae'r arbediad rhwng £12,500 a £15,500 (Ffederasiwn Tai Cenedlaethol, 2017).

Mae gwahanol fodelau fel arfer yn gweithredu ar gyfer pobl gydag anableddau dysgu; un math cyffredin o ddarpariaeth yw tai cyffredin neu bwrpasol a rennir gan nifer fechan o bobl anabl. Fel arfer, mae gan bob unigolyn ei ystafell wely ei hun ynghyd â lefel a ariennir o staff yn cefnogi, a allai fod yn staff ymweld neu'n gymorth 24 awr, yn ddibynnol ar ofynion pobl. Adroddodd rhanddeiliaid fod sicrhau y gallai pobl arfer dewis a rheolaeth dros gyda phwy maent yn byw, pwy sy'n gallu ymweld a phryd, yn bwysig iawn ac mae ganddynt enghreifftiau o adegau pan gyfyngwyd ar hyn. Codwyd pryderon gan randdeiliaid nad yw pobl gydag anableddau dysgu bob amser yn gallu arfer dewis a rheolaeth yn y cyd-destun hwn. Mae angen sicrhau fod gan bobl gydag anableddau dysgu fynediad at gyngor ac eiriolaeth hygyrch, o safon. Pryder arall a godwyd oedd fod pecynnau gofal yn aml yn cael eu darparu gan yr un darparwr â'r ddarpariaeth tai, gan ei gwneud yn anodd i newid gofalwyr os yw pobl eisiau.

Her arwyddocaol gyda llety â chymorth a iechyd meddwl yw y gall fod pwysau gormodol i 'symud ymlaen' wrth i'w cyflwr wella, yn arbennig pan fydd mor brin. Gall hyn liniaru ysgogiad i bobl wneud cymaint â phosibl iddynt eu hunain oherwydd os ydynt yn cael eu hystyried i fod yn 'gwella' yna byddant yn wynebu colli eu cartref a ffrindiau er mwyn symud ymlaen i 'fyw'n annibynnol'. Mae symud tŷ yn brofiad anodd i'r rhan fwyaf o bobl, a gall y straen yma waethygu cyflyrau iechyd meddwl.

Dyma un rheswm dros ddatblygu'r cysyniad o 'gymorth fel y bo'r angen', gyda'r egwyddor fod yr unigolyn yn aros yn ei gartref ei hun ac y gellir cynyddu neu leihau'r gefnogaeth – 'yn ôl yr angen' – yn unol ag anghenion y person.

## Cyflenwi llety â chymorth

Yn ystod yr ymchwiliad, mae'r Llywodraeth wedi bod yn cynnal adolygiad o bolisi a chyllid ar gyfer llety â chymorth, ond nid yw'n glir beth fydd ganlyniad yr adolygiad hwn. Mae darparwyr tai wedi amlygu'r ffaith fod diffyg sicrwydd o ran cyllid a phwysau ar gyllidebau gofal cymdeithasol llety â chymorth wedi arwain at leihad enfawr mewn cynlluniau arfaethedig er gwaethaf galw cynyddol.

Mae arolwg y Ffederasiwn Tai Cenedlaethol o 69 o gymdeithasau tai, sy'n darparu oddeutu traean o lety â chymorth ar y cyd, wedi datgelu fod y cymdeithasau wedi bwriadu adeiladu 8,800 uned llety â chymorth yn flaenorol, ond nawr gyda bwriad i adeiladu dim ond 1,350: golyga hyn fod 85 y cant o gynlluniau wedi eu gohirio yn 2017 a 2018 (NHF, 2017).

## Hawliau y rhai sy'n byw mewn llety â chymorth

Mae sicrhau bod yr hawl i fyw'n annibynnol wedi ei hyrwyddo yn y sector llety â chymorth yn allweddol.

Yn gyffredinol, mae awdurdodau lleol ac RPs/RSLs yn darparu hawliau tenantiaeth tebyg i denantiaethau safonol. Fodd bynnag, efallai na fydd hyn yn wir ble darperir llety â chymorth yn y sector preifat.  Pan fydd y sector preifat hefyd yn gallu darparu tenantiaethau sicr, yna efallai y byddant awydd darparu tenantiaethau byrddaliad yn eu lle, sy'n rhoi llai o sicrwydd daliadaeth i denantiaid.

Rydym yn eirioli dros safoni'r hawliau hyn ble bynnag fo'n bosibl, i sicrhau cydraddoldeb ar gyfer pobl anabl, pobl hŷn neu bobl gyda chyflyrau iechyd meddwl, fel bod gan denantiaid mewn llety â chymorth yr un hawliau ag y byddai ganddynt mewn tenantiaeth safonol.

## Llety tymor byr

Casglodd ein hymchwiliad dystiolaeth gan nifer o unigolion gyda phroblemau neu gyflyrau iechyd meddwl, oedd y byw mewn llety hostel dros dro. Clywsom dystiolaeth dro ar ôl tro parthed hosteli oedd yn berwi o fermin, wedi llwydo ac mewn cyflwr gwael, a arweiniodd ar waethygiad yn iechyd corfforol a meddyliol pobl. Yn ogystal, ychydig iawn o ystyriaeth a roddwyd i sut oedd pobl yn cael eu dyrannu, a gyda phwy y byddent yn rhannu cyfleusterau. Un enghraifft oedd o rywun gyda anoddefiad lactos difrifol yn orfod rhannu cegin, gan gyflwyno risg iechyd arwyddocaol. Mynegodd preswylwyr hefyd ofn i wrthod llety anaddas, rhag ofn eu bod yn cael eu categoreiddio fel bwriadol ddigartref a'u gadael heb cefnogaeth pellach gan eu hawdurdod lleol. Adroddodd defnyddwyr cadeiriau olwyn eu bod ofn am eu bywyd y byddent yn cael eu gwneud yn ddigartref oherwydd nad oedd yr un o'u hosteli lleol yn hygyrch i gadeiriau olwyn.

Roedd diffyg y gallu i gwyno yn thema gyffredin mewn llety byrdymor, gyda'r awdurdod lleol a landlordiaid yn ymddangos i fod yn peidio ymateb i bryderon tenantiaid.

Daeth y Cydbwyllgor Dethol ar Ddyfodol Llety â Chymorth i gasgliad tebyg, gan wneud yr argymhelliad ganlynol:

> **“Rhaid i denantiaid allu gwneud cwyn am ansawdd y gwasanaeth maent yn ei dderbyn heb fod ofn goblygiadau. Fodd bynnag, mae mecanweithiau unioni presennol yn Lloegr yn anfoddhaol ac angen adolygiad trylwyr gan y Llywodraeth. Dylai’r Llywodraeth Sicrhau bod tenantiaid wedi eu cefnogi’n briodol a digonol wrth geisio unioniad os yw ansawdd y gwasanaeth a dderbyniont yn annigonol.”**
>
> (Pwyllgor Dethol CLG, 2017)

## Model ariannu newydd ar gyfer cefnogaeth i denantiaid

Mae cau’r gronfa Cefnogi Pobl yn Lloegr wedi cael effaith arwyddocaol ar bobl anabl. Mae wedi lleihau’r gefnogaeth mae pobl angen i gynnal eu tenantiaethau ac atal sefyllfaoedd argyfwng posibl.

Byddai unrhyw gyllid ar gyfer llety â chymorth yn fwy effeithiol pe gellid ei ddefnyddio yn hyblyg, er mwyn darparu cefnogaeth i’r bobl sydd angen cefnogaeth, nid dim ond y rhai mewn llety â chymorth.

Er enghraifft, yn gyffredinol nid yw pobl gydag anableddau dysgu cymedrol yn bodloni’r meini prawf ar gyfer llety â chymorth, ond byddent yn elwa o gefnogaeth atodol yn eu cartrefi. Byddai hyn yn eu helpu i fyw’n annibynnol, yn ogystal ag ata aflonyddu ac ynysu. Eto, byddai’r gefnogaeth yma yn lleihau’r risgiau o argyfwng, gan arwain at bobl angen opsiynau tai mwy dwys, ond nid yw’n amlwg pwy ddylai ddarparu hyn.

Dylai unrhyw gronfa newydd ar gyfer llety dros dro ddarparu cefnogaeth barhaus, nid dim ond cefnogaeth ar ddiwedd yr argyfwng. Mae mesurau ataliol yn llawer rhatach na delio gydag argyfwng, ac mae ganddynt ddeilliannau llawer gwell: mae yna eisoes awdurdodau lleol sy’n buddsoddi yn yr ymagwedd hon.

Os yw awdurdodau lleol yn mynd i allu buddsoddi mewn gwasanaethau ataliol, byddai angen darparu cronfeydd atodol, o leiaf yn gychwynnol. Byddai’r arbedion o fuddsoddi mewn gwasanaethau ataliol yn cymryd amser i hidlo i lawr i leihad mewn galw, gan ysgafnhau’r baich ar wasanaethau argyfwng. Yn ogystal, byddai’r dull yma yn helpu hybu mentrau presennol i leihau digartrefedd.



## Beth sydd angen newid?

Mae angen i awdurdodau lleol gomisiynu ac ariannu darpariaeth ddigonol o gyngor penodol ar gyfer pobl anabl, mewn partneriaeth ag RPs/RSLs a'r trydydd sector.

Dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig ddyrannu adnoddau ychwanegol i'r gronfa llety dros dro arfaethedig ar gyfer Lloegr, i alluogi ei defnyddio'n hyblyg ar gyfer cefnogaeth tenantiaeth/cymorth fel y bo'r angen gan awdurdodau lleol i atal pobl rhag sefyllfaoedd argyfwng ac i ddarparu llety mewn argyfwng.

**Yn Lloegr**, dylai Grwpiau Comisiynu Clinigol ac awdurdodau lleol gomisiynu detholiad o gefnogaeth ar cyd, gan gynnwys cymorth fel y bo'r angen iechyd meddwl, i helpu pobl anabl i gynnal eu tenantiaethau. Yn yr Alban, unwaith y bydd cyllid ar gyfer llety â chymorth wedi ei ddatganoli i Llywodraeth yr Alban, dylai comisiynu gael ei reoli gan Awdurdodau Integredig. **Yng Nghymru, unwaith y datganolir arian ar gyfer tai â chymorth i Lywodraeth Cymru, dylai gael ei reoli gan Fyrddau Partneriaeth Ranbarthol**.

Mae angen i ddarparwyr tai ac awdurdodau lleol deimlo’n hyderus y bydd ymroddiad yn y tymor hir gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig i ddarparu cyllid sefydlog ac ysgogiadau digonol ar gyfer llety â chymorth, i fodloni’r twf a ragwelir mewn galw.

Dylai unrhyw ganllaw newydd a gyhoeddir i awdurdodau lleol ar gomisiynu llety â chymorth a chefnogaeth tai hefyd amlygu pwysigrwydd ymgysylltu gyda rhanddeiliaid anabl, er mwyn iddynt allu darparu mewnbwn ystyrlon i gynlluniau a chraffu ar raglenni parhaus.

Mae angen i hawliau, rhyddid a dewis fod yr un fath ar gyfer pobl anabl mewn llety â chymorth ag y maent ar gyfer rhai gyda thenantiaeth safonol, a dylid cael mecanweithiau cadarn ar waith.

## Argymhellion

### Ar draws Cymru, Lloegr, a’r Alban, rydym yn galw:

- Ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i sicrhau bod y polisi newydd a’r model cyllido **ar gyfer tai yn ategu hawliau tenantiaid**, ac nad yw rhyddidau a dewis wedi eu cyfyngu, yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (UNCRPD). Mae angen i’r model newydd daclo’r ansicrwydd presennol a darparu marchnad sefydlog i ddarparwyr tai a’r rhai sy’n darparu cymorth arbenigol hefyd.
- Ar awdurdodau lleol o sicrhau bod **gwasanaethau tai, gofal ac iechyd yn gwbl integredig a bod cronfeydd digonol ar gael i gefnogi pobl i fyw’n annibynnol,** a bod yna ffocws cynyddol ar ataliaeth.
- Ar awdurdodau lleol i **ddarparu gwasanaethau cyngor ac eiriolaeth anabledd arbenigol cynyddol** ar gyfer dewisiadau tai.

### Yng Nghymru a Lloegr rydym yn galw:

- Ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i sicrhau bod ei **adolygiad o’r Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012** yn ystyried effaith cael gwared ar dai o gwmpas cymorth cyfreithiol ar gyfer pobl anabl, ac yn cymryd camau effeithiol i liniaru unrhyw effeithiau a nodwyd.

# 6. Casgliadau



© Habinteg

**Mae adeiladu tai sy’n bodloni safon dda o hygyrchedd a gallu i’w haddasu yn amlwg yn bosibl, fel y gwelwyd gyda pholisïau Awdurdod Llundain Fwyaf yn ystod y 10 mlynedd diwethaf.**

Dengys yr ystadegau diweddaraf fod 93 y cant o’u heiddo newydd yn bodloni’r safon hon, a gyfeirir ati yn gyffredinol fel Safonau Cartrefi Gydol Oes. Mae’r swm llai o ddata a gofnodir yng ngweddill Lloegr yn awgrymu fod y gyfran o dai hygyrch sy’n cael ei adeiladu mewn ardaloedd eraill yn fychan. Mae’r manteision o sicrhau bod cyflenwad o dai newydd yn hygyrch ac addasadwy yn glir. Bydd mwy o gyflenwad yn sicrhau y gall pobl anabl fynnu eu hawl i fyw’n annibynnol a bydd yn lleihau costau gofal cymdeithasol ar gyfer awdurdodau lleol a chostau iechyd i’r GIG.

Er mwyn cyflawni mwy o gyflenwad o dai hygyrch, mae angen i awdurdodau lleol gydnabod fod pobl anabl yn arbenigwyr o ran pennu a hyrwyddo datrysiadau tai gwell iddynt eu hunain. Mae angen i lywodraethau ar lefel genedlaethol a lleol fod yn llawer mwy effeithiol wrth ymgysylltu â phobl anabl ar lefelau strategol a gweithredol i gynnwys eu mewnbwn mewn ffordd ystyrlon, mewn cylch parhau o welliant.

Yn yr adroddiad hwn, rydym wedi pwysleisio pwysigrwydd meddwl tu hwnt i ‘bedair wal’. Mae eiriolaeth, cyngor a chefnogaeth i wneud dewisiadau neu herio systemau pan aiff pethau o chwith yn allweddol. Roedd iechyd meddwl yn thema gyson; ynddo ei hun ac yn gysylltiedig i’r straen sy’n dod gyda llety anaddas. Dywedodd pobl anabl wrthym yn fynych fod dyraniad tai a systemau addasiadau yn gymhleth ac anodd i’w llywio. Fe welsom dystiolaeth pryderus o leihad mewn gwasanaethau sy’n ceisio cefnogi neu gynghori pobl anabl sydd mewn perygl o naill ai ddigartrefedd neu salwch oherwydd cartref anhygyrch. Ble gwelsom arfer da, roedd yr ymagwedd sy’n canolbwyntio ar unigolion ynghyd â mewnbwn gan arbenigwyr proffesiynol yn gwella llesiant corfforol a meddyliol pobl ac yn eu hatal rhag cyrraedd pwynt argyfwng.

I gadw cwmpas yr ymchwiliad yn ymarferol, nid ydym wedi edrych ar ofal cymdeithasol nac iechyd mewn manylder. Fodd bynnag, mewn gwirionedd mae iechyd, gofal cymdeithasol a thai oll yn gysylltiedig. Casgliad cyson yw fod adrannau iechyd, tai a gofal cymdeithasol yn Lloegr yn parhau i weithio ar wahân gydag anghytundeb ynghylch pwy sy’n talu am beth. Tra bod y gwledydd datganoledig yn ymdrechu i weithredu dull mwy integredig, mae yna dipyn o waith i’w wneud o hyd yn amlwg. Yn benodol, nid oes digon o sylw yn cael ei roi i’r rhai sydd mewn gofal preswyl ar hyn o bryd ac sydd eisiau byw’n annibynnol ac y gallent wneud hynny gyda’r gefnogaeth briodol.

Yn gyffredinol, mae fforddiadwyedd ac argaeledd tai yn fater trafod ac ar frig yr agenda wleidyddol. Ar gyfer pobl anabl, mae'r mater o fforddiadwyedd yn un arbennig o ddwys oherwydd fod pobl anabl yn llai tebygol o fod mewn cyflogaeth neu yn debygol o fod yn hŷn ac yn derbyn pensiwn. Mae'r sector rhent preifat, sydd wedi tyfu'n gyflym yn y blynyddoedd diwethaf, yn aml yn ddrud gyda thenantiaethau byrdymor yn gyffredin. Dywedodd pobl anabl ar draws Prydain wrthym am yr anawsterau yr oeddent yn wynebu mewn llety rhent preifat. Mewn tai cymdeithasol, canfu'r ymchwiliad fod yna alw cryf iawn nad yw'n cael ei fodloni gan bobl anabl, ble mae'r amser aros cyfartalog dros ddwy flynedd, ac mewn un achos yn 20 mlynedd. Mae angen i gynyddu argaeledd tai cymdeithasol fod yn rhan o'r ateb i brinder cartrefi hygyrch. Yn Lloegr, mae yna angen penodol i ddiwygio tenantiaethau sector preifat i gyflawni fforddiadwyedd a sicrwydd daliadaeth.

Dywedodd pobl anabl ledled Prydain wrthyn am rôl bositif addasiadau o ran sicrhau y gallant fyw'n annibynnol. Mae anghydraddoldeb trefniadau cyllido ar gyfer addasiadau yn yr Alban yn rwystr i gydraddoldeb, mae angen adolygiad o'r ddeddfwriaeth, polisi a chyllid ar gyfer addasiadau ar draws mathau o ddaliadaeth. Dylid croesawu'r cynnydd mewn cyllid ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yng Nghymru a Lloegr, ynghyd ag adolygiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar sydd â'r nod o ddileu'r fiwrocratiaeth sy'n bodoli mewn sawl awdurdod. Gyda dim ond saith y cant o gyllid yn mynd i'r sector rhentu'n breifat, mae yna rwystrau penodol y mae'n rhaid eu trechu yn y sector hon.

Mae'n annhebygol y byddwn yn gweld cynnydd i sicrhau bod gan bobl gartrefi hygyrch sy'n cefnogi eu hawl i fyw'n annibynnol oni bai fod pobl anabl yn cael eu cynnwys yn y gwaith o lunio polisi ac arferion tai. Adroddodd pobl anabl fod arferion awdurdodau lleol o ran ymgynghori gyda phobl anabl yn wan a bod hynny, ynghyd â lleihad mewn cyllid ar gyfer sefydliadau pobl anabl, yn ei gwneud yn anodd i gyfrannu i brosesau ymgynghori ffurfiol.

Mae yna fanteision enfawr i ddiogelu stoc tai Prydain ar gyfer y dyfodol. Gellir osgoi costau dynol ac economaidd tai anhygyrch os nodir gofynion pobl anabl a'u cynnwys mewn gwaith i gynllunio a chyflawni cyflenwad tai newydd.

# Llyfryddiaeth



Aspire (2016), 'Examining lives in adapted and unadapted homes'. Ar gael ar: https://www.aspire.org.uk/examining-lives-in-adapted-and-unadapted-homes [cyrchwyd: 20 Mawrth 2018]

Age UK (2017), 'Living in Fear: experiences of older private renters in London'. Ar gael ar: https://www.ageuk.org.uk/brandpartnerglobal/londonvpp/documents/opstp/living%20in%20fear%20-%20experiences%20of%20older%20private%20renters%20in%20london.pdf [cyrchwyd: 20 Mawrth 2018]

Aspire (2016), 'Examining lives in adapted and unadapted homes: The impact of housing spinal injured people in inaccessible housing'. Ar gael ar: https://www.aspire.org.uk/examining-lives-in-adapted-and-unadapted-homes [cyrchwyd: 20 Mawrth 2018]

BBC. 2017. Mental health patients stranded in units for years. [AR-LEIN]. Ar gael ar: http://www.bbc.co.uk/news/health-40631929 [cyrchwyd: 20 Mawrth 2018]

Beveridge.C., Biberbach.P., Hamilton.J. (2016), 'Empowering Planning to deliver great places: An independent review of the Scottish Planning System'. Ar gael ar: https://beta.gov.scot/publications/empowering-planning-to-deliver-great-places/ [cyrchwyd: 20 Mawrth 2018]

Chamberlain Walker (2017), 'The role of housebuilding pipelines in the UK housebuilding process'. Ar gael ar: https://cweconomics.co.uk/wp.../2017/10/CWEconomicsReport_Land_Banking.pdf [cyrchwyd: 20 Mawrth 2018]

Pwyllgor ar Hawliau Pobl ag Anableddau (2017), 'Concluding observations on the initial report of the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland'. Ar gael ar: http://tbinternet.ohchr.org/_layouts/treatybodyexternal/Download.aspx?symbolno=CRPD%2fC%2fGBR%2fCO%2f1&Lang=en [cyrchwyd: 20 Mawrth 2018]

Pwyllgor Dethol Cymunedau a Llywodraeth Leol (2017), 'Future of Supported Housing Inquiry'. Ar gael ar: https://publications.parliament.uk/pa/cm201617/cmselect/cmcomloc/867/86702.htm [cyrchwyd: 20 Mawrth 2018]

DCLG (2011), 'Choice-based lettings, potentially disadvantaged groups and accessible housing registers: a positive practice guide'. Ar gael ar: http://www.housingcare.org/information/detail-3135-choicebased-lettings-potentially-disadvantaged-groups-and-.aspx [cyrchwyd: 20 Mawrth 2018]

DCLG (2012a), 'Allocation of accommodation: guidance for local housing authorities in England'. Ar gael ar: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/5918/2171391.pdf [cyrchwyd: 26 Mawrth 2018]

DCLG (2012b), 'National Planning Policy Framework for England'. Ar gael ar: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment.../2116950.pdf [cyrchwyd: 26 Mawrth 2018]

DCLG (2012c), 'National Planning Policy Framework'. Ar gael ar: https://www.gov.uk/government/publications/national-planning-policy-framework--2 [cyrchwyd: 26 Mawrth 2018]

DCLG (2014), 'Housing Standards Review: Cost Impacts'. Ar gael ar: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/353387/021c_Cost_Report_11th_Sept_2014_FINAL.pdf [cyrchwyd: 06/03/18]

DCLG (2014a), 'Planning Practice Guidance', Paragraff 019. Ar gael ar: https://www.gov.uk/guidance/use-of-planning-conditions [cyrchwyd: 26 Mawrth 2018]

DCLG (2014b), 'The importance of good design'. Ar gael ar: https://www.gov.uk/guidance/design [cyrchwyd: 26 Mawrth 2018]

DCLG (2015a), 'English Housing Survey: Adaptations and Accessibility Report, 2014-15'. Ar gael ar: https://www.gov.uk/government/statistics/english-housing-survey-2014-to-2015-adaptations-and-accessibility-of-homes-report [cyrchwyd: 26 Mawrth 2018]

DCLG (2015b), 'Plain English Guide to the Planning System'. Ar gael ar: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/391694/Plain_English_guide_to_the_planning_system.pdf [cyrchwyd: 26 Mawrth 2018]

DCLG (2016b), 'Local Authority Housing Statistics: year ending March 2016'. Ar gael ar: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/582793/Local_Authority_Housing_Statistics_England_year_ending_March_2016.pdf [cyrchwyd: 26 Mawrth 2018]

DCLG (2017a), Table 209: permanent dwellings completed, by tenure and country. Live tables on house building: new build dwellings. Ar gael ar: https://www.gov.uk/government/statistical-data-sets/live-tables-on-house-building [cyrchwyd: 26 Mawrth 2018]

DCLG (2017b), Local authority housing statistics data returns for 2015 to 2016. Local authority housing statistics, Sheet C-Allocations, Column W. Ar gael ar: https://www.gov.uk/government/statistical-data-sets/local-authority-housing-statistics-data-returns-for-2015-to-2016 [cyrchwyd: 26 Mawrth 2018]

DoH a DCLG (2016a), 'Better Care Policy Framework 2016/17'. Ar gael ar: www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/490559/BCF_Policy_Framework_2016-17.pdf [cyrchwyd: 26 Mawrth 2018]

DCLG a DWP (2016b), 'Supported Accommodation Review'. Ar gael ar: https://www.gov.uk/government/publications/supported-accommodation-review [cyrchwyd: 26 Mawrth 2018]

DCLG a DWP (2017a), 'Funding Supported Housing: Policy Statement and Consultation'. Ar gael ar: https://www.gov.uk/government/consultations/funding-for-supported-housing-two-consultations [cyrchwyd: 26 Mawrth 2018]

Economics of Health and Social Care Systems Policy Research Unit (2017), 'Projected Demand for Supported Housing in Great Britain 2015 to 2030'. Ar gael ar: http://eshcru.ac.uk/publications/Wittenberg%20&%20Hu%20report.pdf [cyrchwyd: 26 Mawrth 2018]

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) (2017), 'Bod yn anabl ym Mhrydain: taith lai cyfartal?'. Ar gael ar: https://www.equalityhumanrights.com/en/publication-download/being-disabled-britain-journey-less-equal [cyrchwyd: 26 Mawrth 2018]

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) (2018), 'Tai a phobl anabl: Rôl awdurdodau lleol'. IFF Research. Ar gael ar: xxxxx [cyrchwyd: xxxxx]

EHRC (2015), 'Cydraddoldeb, hawliau dynol, a mynediad at gyfiawnder cyfraith sifil: Adolygiad llenyddiaeth. Ar gael ar: https://www.equalityhumanrights.com/en/publication-download/equality-human-rights-and-access-civil-law-justice-literature-review [cyrchwyd: 26 Mawrth 2018]

Galbraith, J. (2017), 'Choice Based Letting'. Available at: https://www.stir.ac.uk/research/hub/publication/24641 [cyrchwyd: 27 Mawrth 2018]

Golden Land Housing (2016), 'Value for Money Assessment'. Ar gael ar: www.glh.org.uk/wp-content/uploads/2013/01/GLH_VFM2016_4.pdf [cyrchwyd: 26 Mawrth 2018]

Awdurdod Llundain Fwyaf (2017), 'London Plan: Annual Monitoring Report 2015/16'. Ar gael ar: https://www.london.gov.uk/sites/default/files/amr_13.pdf [cyrchwyd: 26 Mawrth 2018]

Habinteg (2010), 'Mind the Step'. Ar gael ar: https://www.habinteg.org.uk/toolkit-calculating-unmet-housing-need [cyrchwyd: 26 Mawrth 2018]

Habinteg ac Ymddiriedolaeth Papworth (2016), 'The Hidden Housing Market'. Ar gael ar: https://www.habinteg.org.uk/download.cfm?doc=docm93jijm4n1527.pdf&ver=1820 [cyrchwyd: 26 Mawrth 2018]

Health Education England a'r Coleg Therapyddion Galwedigaethol (2016), 'An investigation into occupational therapy workforce in London'. Ar gael ar: https://www.rcot.co.uk/news/new-report [cyrchwyd: 26 Mawrth 2018]

Heywood, F.S. A Turner, L. (2007), 'Better outcomes, lower costs: implications for health and social care budgets of investment in housing adaptations, improvements and equipment – a review of the evidence'. Swyddfa dros Faterion Pobl Anabl. Ar gael ar: http://www.wohnenimalter.ch/img/pdf/better_outcomes_report.pdf [cyrchwyd: 26 Mawrth 2018]

Trysorlys Ei Mawrhydi (2017), 'Building the homes the country needs. Autumn Budget 2017 brief'. Ar gael ar https://www.gov.uk/government/publications/building-the-homes-the-country-needs-autumn-budget-2017-brief [cyrchwyd: 26 Mawrth 2018]

Horizon Housing a CIH (2012), 'Mind the step: an estimation of housing need among wheelchair users in Scotland'. Ar gael ar: http://www.cih.org/resources/PDF/Scotland%20Policy%20Pdfs/Wheelchair%20Housing/J13778%20Mind%20the%20Step%20-%20November%202012.pdf [cyrchwyd: 26 Mawrth 2018]

Horizon Housing and CIH (2012), 'Mind the step: an estimation of housing need among wheelchair users in Scotland'. Available at: http://www.cih.org/publication-free/display/vpathDCR/templatedata/cih/publication-free/data/Scotland/Mind_the_step_An_estimation_of_housing_need_among_wheelchair_users_in_Scotland [cyrchwyd: 26 Mawrth 2018]

Tŷ'r Cyffredin (2017), 'Building for Equality: Disability and the Built Environment. Nawfed Adroddiad Sesiwn 2016–17'. Ar gael ar: https://publications.parliament.uk/pa/cm201617/cmselect/cmwomeq/631/63102.htm [cyrchwyd: 26 Mawrth 2018]

Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin (2016), 'Stimulating housing supply – Government initiatives (England), Papur Briffio Rhif 06416.' Ar gael ar: http://researchbriefings.parliament.uk/ResearchBriefing/Summary/SN06416#fullreport [cyrchwyd: 26 Mawrth 2018]

Housing LIN (2017), 'Matching Up? A pilot study of effectiveness in letting adapted social housing'. Ar gael ar: https://www.housinglin.org.uk/Topics/type/Matching-up-A-pilot-study-of-effectiveness-in-letting-adapted-social-housing/ [cyrchwyd: 26 Mawrth 2018]

I news. 2018. Scotland's disabled housing waiting lists. [AR-LEIN]. Ar gael ar: https://inews.co.uk/news/uk/full-scotlands-disabled-housing-waiting-lists/ [cyrchwyd: 26 Mawrth 2018]

Independent Living in Scotland (ILIS) (2017), 'We Say: Our place, Our Space. The evidence on disabled people's housing issues from Scotland's Disabled People's Summit'. Ar gael ar: http://inclusionscotland.org/launched-our-space-our-place [cyrchwyd: 26 Mawrth 2018]

Ipsos MORI (2016), 'Accessible housing survey: Public perceptions of accessible housing'. Ar gael ar: https://www.ipsos.com/sites/default/files/publication/1970-01/sri-housing-accessible-housing-survey-2016.pdf [cyrchwyd: 26 Mawrth 2018]

ICESCR (2016), 'Concluding observations on the sixth periodic report of the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland', paras 40-42 a 49-50. Ar gael ar: http://tbinternet.ohchr.org/_layouts/treatybodyexternal/Download.aspx?symbolno=E%2fC.12%2fGBR%2fCO%2f6&Lang=en [cyrchwyd: 26 Mawrth 2018]

Sefydliad Joseph Rowntree (2017), 'Poverty, Eviction and Forced Moves'. Ar gael ar: https://www.jrf.org.uk/report/poverty-evictions-and-forced-moves [cyrchwyd: 26 Mawrth 2018]

Keall, M., Pierse, N., Howden-Chapman, P., Cunningham, C., Cunningham, M., Guria, J. A Baker, M. (2015), 'Home modifications to reduce injuries from falls in the home. Injury Prevention Intervention (HIPI) study: a cluster-randomised controlled trial', The Lancet, 385, tt. 231–38.

Kempton, O. A Warby, A. (2013), Measuring the Social Return on Investment of Stage 3 Adaptations and Very Sheltered Housing in Scotland. Llundain: Envoy Partnership.

Cymdeithas y Gyfraith (2017), 'Access denied? LASPO four years on: a Law Society review'. Ar gael ar: http://www.lawsociety.org.uk/support-services/research-trends/laspo-4-years-on/ [cyrchwyd: 26 Mawrth 2018]

Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (2017), Legal Aid Statistics: main tables July to September 2017. Ar gael ar: https://www.gov.uk/government/statistics/legal-aid-statistics-july-to-september-2017 [cyrchwyd: 26 Mawrth 2018]

Leonard Cheshire (2014), 'No Place like Home. 5 million reasons to make housing disabled-friendly'. Ar gael ar: https://www.leonardcheshire.org/sites/default/files/no-place-like-home-leonard-cheshire-disabiltiy.pdf [cyrchwyd: 26 Mawrth 2018]

Leonard Cheshire (2015), 'The Long Wait for a Home'. Ar gael ar: https://www.leonardcheshire.org/sites/default/files/Leonard-Cheshire-Disability-The-Long-Wait-for-a-Home.pdf [cyrchwyd: 26 Mawrth 2018]

Comisiwn Low (2014), 'Tackling the Advice Deficit'. Ar gael ar: https://www.lowcommission.org.uk/dyn/1389221772932/Low-Commission-Report-FINAL-VERSION.pdf [cyrchwyd: 26 Mawrth 2018]

Mackintosh, S. A Leather, P. (2016), The Disabled Facilities Grant Before and After the Introduction of the Better Care Fund (Foundations).

Maer Llundain (2011), 'London Accessible Housing Register: a good practice guide for social housing landlords'. Ar gael ar: https://www.london.gov.uk/sites/default/files/lahr_good_practice_guide_2011.pdf. [cyrchwyd: 26 Mawrth 2018]

Mencap (2012), 'Housing for people with a learning disability'. Ar gael ar http://www.mencap.org.uk/sites/default/files/documents/2012108Housingreport_V7.pdf [cyrchwyd: 26 Mawrth 2018]

MHP Health (2014), 'A review of how pioneer and whole-person care councils are considering housing in the planning of local health and care services'. Ar gael ar: https://www.housinglin.org.uk/_assets/Resources/Housing/OtherOrganisation/Health_and_housing_from_consensus_to_practice.pdf [cyrchwyd: 26 Mawrth 2018]

Mind (2017), 'Brick by Brick: a review of mental health and housing'. Ar gael ar: https://www.mind.org.uk/media/17947884/20171115-brick-by-brick-final-low-res-pdf-plus-links.pdf [cyrchwyd: 26 Mawrth 2018]

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2011), 'Proposals for the reform of legal aid in England and Wales: Equality impact assessment'. Ar gael ar: http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20111013060745/http://www.justice.gov.uk/downloads/consultations/legal-aid-reform-eia.pdf [cyrchwyd: 26 Mawrth 2018]

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (2014), 'Impact of funding reductions on local authorities'. Ar gael ar: https://www.nao.org.uk/wp-content/uploads/2014/11/Impact-of-funding-reductions-on-local-authorities.pdf [cyrchwyd: 26 Mawrth 2018]

Ffederasiwn Tai Cenedlaethol (2017), 'Government consultation on funding model for sheltered housing services: National Housing Federation response.' Ar gael ar: http://s3-eu-west-1.amazonaws.com/pub.housing.org.uk/Sheltered_housing_consultation_on_funding_-_Federation_response.pdf [cyrchwyd: 26 Mawrth 2018]

NHS England (2016), 'Building the right home'. Ar gael ar: https://www.england.nhs.uk/.../wp.../building-right-home-guidance-housing.pdf [cyrchwyd: 26 Mawrth 2018]

OHCHR (2014), 'Report of the Special Rapporteur on adequate housing by Raquel Rolnik', A/HRC/25/54/Add.2 Ar gael ar: http://www.ohchr.org/EN/HRBodies/HRC/RegularSessions/Session25/Documents/A_HRC_25_54_Add.2_ENG.DOC [cyrchwyd: 26 Mawrth 2018]

ONS (2014), 'Family Resources Survey 2012 to 2013'. Ar gael ar: https://www.gov.uk/government/statistics/family-resources-survey-2012-to-2013 [cyrchwyd: 26 Mawrth 2018]

ONS (2017), 'Family Resources Survey: financial year 2015/16'. Ar gael ar: https://www.gov.uk/government/statistics/family-resources-survey-financial-year-201516 [cyrchwyd: 26 Mawrth 2018]

Rethink (2017), 'Mental Health Supported Housing'. Ar gael ar: https://www.rethink.org/media/3042847/rethink-mental-illness-supported-housing.pdf [cyrchwyd: 26 Mawrth 2018]

Llywodraeth yr Alban. 2010. Social Housing Allocations: legislative framework and regulatory standards. [AR-LEIN]. Ar gael ar: http://www.gov.scot/Topics/Built-Environment/Housing/16342/management/socialhousingaccess/allocations/Guide/legislativeframework [cyrchwyd: 26 Mawrth 2018]

Llywodraeth yr Alban (2012), 'Scottish Social Housing Charter'. Ar gael ar: http://www.gov.scot/Resource/0039/00390305.pdf [cyrchwyd: 26 Mawrth 2018]

Llywodraeth yr Alban (2014), 'National Planning Framework 3'. Ar gael ar: https://beta.gov.scot/publications/national-planning-framework-3/ [cyrchwyd: 26 Mawrth 2018]

Llywodraeth yr Alban. 2015. Datganiad i'r wasg: 50,000 Homes Pledge. [AR-LEIN]. Ar gael ar: https://beta.gov.scot/news/50-000-homes-pledge/ [accessed: 26 March 2018]

Llywodraeth yr Alban (2015a), 'Scottish Household Condition Survey 2015: Key findings'. Ar gael ar: http://www.gov.scot/Topics/Statistics/SHCS/Downloads [cyrchwyd: 26 Mawrth 2018]

Llywodraeth yr Alban (2015b), 'Housing Advice Note'. Ar gael ar: http://www.gov.scot/Publications/2015/09/5619/0 [cyrchwyd: 26 Mawrth 2018]

Llywodraeth yr Alban (2016), 'A Fairer Scotland for Disabled People'. Ar gael ar: http://www.gov.scot/Publications/2016/12/3778 [cyrchwyd: 26 Mawrth 2018]

Llywodraeth yr Alban (2017), 'Evaluation of Adapting for Change'. Ar gael ar: http://www.gov.scot/Publications/2017/09/5539 [cyrchwyd: 26 Mawrth 2018]

Llywodraeth yr Alban (2017a), 'Scotland's People Annual Report 2016'. Ar gael ar: http://www.gov.scot/Publications/2017/09/9979/downloads [cyrchwyd: 26 Mawrth 2018]

Shelter. 2016. How councils allocate housing. Ar gael ar: https://england.shelter.org.uk/housing_advice/council_housing_association/how_councils_allocate_housing [cyrchwyd: 26 Mawrth 2018]

Shelter (2017), 'New Civic Housebuilding'. Ar gael ar: https://england.shelter.org.uk/professional_resources/policy_and_research/policy_library/policy_library_folder/report_new_civic_housebuilding [cyrchwyd: 26 Mawrth 2018]

Scottish Parliament Information Centre (2012), 'Allocation of Social Rented Housing'. Ar gael ar: www.parliament.scot/ResearchBriefingsAndFactsheets/Factsheets/SB_12-46.pdf [cyrchwyd: 27 Mawrth 2018]

Cenhedloedd Unedig Hawliau Pobl ag Anableddau (2017), 'Concluding observations on the initial report of the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland'. Ar gael ar: http://tbinternet.ohchr.org/_layouts/treatybodyexternal/Download.aspx?symbolno=CRPD%2fC%2fGBR%2fCO%2f1&Lang=en [cyrchwyd: 27 Mawrth 2018]

Swyddfa Archwilio Cymru (2017), 'Rhaglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru'. Ar gael ar: http://www.audit.wales/publication/welsh-governments-supporting-people-programme [cyrchwyd: 27 Mawrth 2018]

Swyddfa Archwilio Cymru (2018), 'Addasiadau Tai'. Ar gael ar: http://www.audit.wales/publication/housing-adaptations [cyrchwyd: 27 Mawrth 2018]

Llywodraeth Cymru (2013), 'Tai Cymdeithasol Hygyrch - Adolygiad o'r systemau asesu, cofnodi a pharu'. Ar gael ar: http://gov.wales/statistics-and-research/accessible-social-housing/?lang=en [cyrchwyd: 27 Mawrth 2018]

Llywodraeth Cymru (2015), 'Adolygiad o Addasiadau ar gyfer Byw'n Annibynnol'. Ar gael ar: http://gov.wales/statistics-and-research/review-independent-living-adaptations/?lang=en [cyrchwyd: 27 Mawrth 2018]

Llywodraeth Cymru (2016), '"Cofrestri Tai Cyffredin" a "Chofrestri Tai Hygyrch" Awdurdodau lleol: Adroddiad'. Ar gael ar: http://gov.wales/docs/caecd/research/2016/161003-local-authority-survey-accessible-housing-registers-en.pdf [cyrchwyd: 27 Mawrth 2018]

Pwyllgor Menywod a Chydraddoldebau (2017), 'Building for Equality': Disability and the Built Environment'. Ar gael ar: https://www.parliament.uk/business/committees/committees-a-z/commons-select/women-and-equalities-committee/inquiries/parliament-2015/disability-and-the-built-environment-16-17/ [cyrchwyd: 27 Mawrth 2018]

Young, G. A Donohue, T. (2018), 'Review of Strategic Investment Plans for Affordable Housing'. Ar gael ar: https://scotland.shelter.org.uk/__data/assets/pdf_file/0005/1488560/Shelter_AffordableHousingReport_Feb18.pdf/_nocache [cyrchwyd: 27 Mawrth 2018]

# Geirfa



**Tai hygyrch:** cartrefi sydd â nodweddion corfforol sy'n galluogi'r deiliaid i symud o'u hamgylch yn hawdd a hwylus a chael defnydd llawn o'i gyfleusterau. Gall hyn gynnwys mynediad ramp, cawodydd mynediad ar lefel, lifftiau grisiau, ystafelloedd gwely helaeth, coridorau a drysau llydan, sinciau ar lefel isel, socedi a switshis ac ati. Mae tai hygyrch yn arbennig o fanteisiol i bobl anabl gyda namau corfforol.

**Tai addasadwy:** tai y gellir eu haddasu i gynyddu hygyrchedd, ac i osod nodweddion sy'n caniatáu ar gyfer byw'n annibynnol.

**Addasiadau:** newidiadau i amgylchedd y cartref a fwriedir i sicrhau y gall pobl anabl fyw'n annibynnol. Gellir didoli'r rhain i ddau gategori:

- Mân addasiadau: mae'r enghreifftiau yn cynnwys rheiliau gafael / llaw, grisiau neu rampiau i ganiatáu mynediad i eiddo, addasu sinciau a thapiau. Fel arfer gellir eu gwneud yn gyflym ac am gost isel.
- Addasiadau mawr: mae hyn yn cynnwys newidiadau ffisegol a strwythurol mawr i eiddo, yn cynnwys trosi ystafell wlyb, lifftiau grisiau, taclau codi mecanyddol a newidiadau strwythurol i adeilad (fel estyniad i ystafell) neu i strwythur adeilad (parwydydd, ystafelloedd ychwanegol).

**Eiriolaeth:** cefnogi a chynrychioli unigolion er mwyn iddynt allu cyfathrebu eu dymuniadau, yn ogystal â sicrhau eu hawliau a chael mynediad at wasanaethau.

**Tai fforddiadwy:** mae hyn yn cynnwys tai rhent cymdeithasol, rhent fforddiadwy a chanolig, a ddarperir i aelwydydd nad yw eu hanghenion yn cael eu bodloni gan y farchnad.

**Rhent fforddiadwy:** math o rent sy'n amodol i reoliadau rent sy'n gofyn am rent o ddim mwy nag 80% o rent y farchnad leol (yn cynnwys taliadau gwasanaeth, ble fo'n berthnasol).

**Tai rhent fforddiadwy:** eiddo a osodir gan Awdurdodau Lleol, neu ddarparwyr cofrestredig preifat tai cymdeithasol(cymdeithasau tai), i'r rhai sy'n gymwys ac ar gofrestr tai'r Awdurdod Lleol. Mae rhent fforddiadwy yn amodol i reoliadau rent sy'n gofyn am rent o ddim mwy nag 80% o rent y farchnad leol (yn cynnwys taliadau gwasanaeth, ble fo'n berthnasol).

**Polisi dyrannu:** polisi dyrannu awdurdod lleol, RSL (gweler Landlord Cymdeithasol Cofrestredig) neu sefydliad cydweithredol yw'r rheolau maent yn defnyddio i benderfynu pwy sy'n gymwys am denantiaeth tai. Mae gan bob Awdurdod Lleol ac RSL ei reolau ei hun ar gyfer dyrannu tai. Mae rhai o'r rheolau yn seiliedig ar y gyfraith, tra bod eraill yn dibynnol ar y cyngor unigol neu'r RSL i'w pennu.

**Ymddygiad gwrthgymdeithasol:** ymddygiad ymosodol, aflonyddus neu ddinistriol sy'n cael effaith negyddol ar bobl eraill.

**Dogfen M Gymeradwy:** mae hyn yn cyfeirio at Ran 1 (Annedd) y Rheoliadau Adeiladu yn Lloegr: mae'n sicrhau y gall pobl anabl gael mynediad at a defnyddio adeiladau a chyfleusterau. Mae tri chategori penodol o adeilad:

- M4(1) Categori 1 – anheddau y gellir ymweld â nhw. Mae cydymffurfiad â hyn wedi ei sicrhau pan fydd annedd newydd yn gwneud darpariaeth resymol ar gyfer y rhan fwyaf o bobl, yn cynnwys defnyddwyr cadair olwyn, i gyrchu a chael mynediad i'r annedd, a chyrchu ystafelloedd cyfanheddol a chyfleusterau glanweithdra ar lefel y fynedfa.
- M4(2) Categori 2 – anheddau hygyrch ac y gellir eu haddasu. Bodlonir y gofyniad hwn pan fydd annedd newydd yn gwneud darpariaeth rhesymol i'r rhan fwyaf o bobl gael mynediad i'r annedd ac yn cynnwys nodweddion sy'n ei wneud yn addas ar gyfer amrywiaeth o ddeiliaid posibl, yn cynnwys pobl hŷn, unigolion â llai o fudoledd a rhai defnyddwyr cadair olwyn.
- M4(3) Categori 3 – anheddau i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn. Bodlonir y gofyniad hwn pan fydd annedd newydd yn gwneud darpariaethau rhesymol i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn fyw yn yr annedd a gallu defnyddio unrhyw ofod awyr agored, parcio a chyfleusterau cymunedol.

**Tenantiaeth fyrddaliol sicr:** fel arfer yn rhywbeth a welir yn y sector rhentu'n breifat, mae'r math yma o denantiaeth fel arfer yn parhau o chwe i ddeuddeg mis. Fel arfer fe delir blaendal o flaen llaw, ac mae'r tenant yn ymroi i dalu rhent drwy gydol y contract. Er yn gyffredin, mae'r math yma o denantiaeth yn llawr llai sicr na mathau eraill denantiaethau, fel y rhai sy'n fwy hirdymor.

**Tenantiaeth sicr:** cytundeb a gynigir fel arfer gan ddarparwyr tai cymdeithasol i'w tenantiaid. Gall tenantiaid fyw mewn eiddo cyhyd ag y maent eisiau, cyn belled â'u bod yn dilyn y cytundeb tenantiaeth. Mae'r math yma o denantiaeth yn gyffredinol yn fwy sicr na thenantiaeth fyrddaliol sicr.

**Prynu i osod:** eiddo preswyl a brynir gyda'r bwriad o'i osod i rywun arall.

**Gosod seiliedig ar ddewis (CBL):** un o'r dulliau a ddefnyddir gan ddarparwyr tai cymdeithasol i ddyrannu tai. Mewn system gosod seiliedig ar ddewis, mae'r darparwyr tai yn hysbysebu eiddo sydd ar gael ac yna bydd pobl yn bidio am eiddo maent eisiau byw ynddo.

**Y Gofrestr Tai Gyffredin (CHR) neu Gofrestr Tai:** rhestr Awdurdod Lleol o bobl sy'n ymgeisio am dai cymdeithasol, yn cynnwys tai sy'n eiddo i ac/neu yn cael ei reoli gan y Cyngor a chymdeithasau tai.

**Person anabl:** yn ôl Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae person yn anabl os oes ganddo nam corfforol neu feddyliol sydd yn cael effaith sylweddol a thymor hir andwyol ar ei allu i wneud gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.

**Grantiau am addasiadau:** cyllid gan y llywodraeth ar gyfer addasiadau i gartrefi. Mae cynlluniau yn cynnwys y Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl. Ar gyfer Cymru a Lloegr, Cynllun Cymorth ar gyfer Addasiadau Awdurdodau Lleol, addasiadau cam tri ar gyfer tenantiaid tai cymdeithasol, a chyllid awdurdod tai lleol yn yr Alban.

**Homes England:** enw olynydd yr Homes and Communities Agency (HCA). Corff cyhoeddus anadrannol, gweithredol a noddir gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol a'r corff sy'n gyfrifol am reoleiddio tai cymdeithasol.

**Adran dai:** adran mewn Awdurdod Lleol sy'n delio gyda materion tai megis dyraniad tai cyngor, cyngor ar dai a cheisiadau am dai gan bobl ddigartref.

**Ymagwedd hawliau dynol:** ymagwedd ragweithiol gan gorff cyhoeddus sy'n arfer ei rymoedd ac yn sicrhau y bodlonir ei rwymedigaethau cyfreithiol, fel y delir yn briodol ag unrhyw dramgwydd hawliau dynol.

**Byw'n annibynnol:** cael hawl cyfartal i fyw'n rhydd yn y gymuned ac i gymryd rhan yn llawn mewn cymdeithas. Mae cyflawni'r hawl hwn yn cynnwys diddymu rhwystrau sy'n atal mynediad at dai, fel bod gan bobl anabl yr un hawliau â phobl nad ydynt yn anabl i ddewis ble a gyda phwy i fyw. Nid yw byw'n annibynnol yn golygu fod pobl anabl o reidrwydd yn byw ar eu pennau eu hunain neu heb gefnogaeth.

**Tai canolradd:** cartrefi ar werth ac i'w rhentu a ddarperir am gost uwch na rhent cymdeithasol, ond yn is na lefelau'r farchnad (yn amodol i feini prawf wrth ddiffinio tai fforddiadwy, uchod). Gall y rhain gynnwys cartrefi gyda g ecwiti a rennir (benthyciadau cyd-berchnogaeth ac ecwiti) a chartrefi cost isel i'w gwerthu a'u rhentu, ond dim tai rhent fforddiadwy.

**Landlord:** person, sefydliad neu gwmni sy'n rhentu eiddo allan. Gall landlord fod yn berson sy'n rhentu ystafell yn ei gartref, neu mewn Awdurdod Lleol neu gymdeithas dai yn rhentu miloedd o gartrefi allan. Os yw landlord yn gosod eiddo er elw yn unig, fe'i gwelir yn landlord preifat. Mae Awdurdodau Lleol, cymdeithasau tai a mentrau tai cydweithredol yn cael eu galw yn landlord cymdeithasol.

**Cofrestr landlordiaid:** cofrestr ffurfiol o bob landlord ac asiant gosod o fewn ardal Awdurdod Lleol. Mae gan bob cyngor yng Nghymru a'r Alban 'gofrestr landlordiaid'.

**Safonau Cartrefi Gydol Oes:** cartrefi sydd wedi eu cynllunio i gynnwys nodweddion penodol a fwriedir i ychwanegu cysur a chyfleustod, yn arbennig ar gyfer pobl anabl a phobl hŷn. Fel arfer mae'n hawdd iawn addasu Cartrefi Gydol Oes heb fawr ddim cost.

**Awdurdod Lleol:** corff etholedig gyda chyfrifoldeb swyddogol dros lywodraethu ardal benodol, yn cynnwys darparu gwasanaethau a chymeradwyo datblygiad.

**Cymdeithas Llywodraeth Leol:** sefydliad trawsbleidiol, mantell sy'n gweithio ar ran cynghorai i sicrhau fod gan lywodraeth leol lais cryf, credadwy wrth gyfathrebu gyda llywodraeth genedlaethol.

**Cynllun Lleol:** mae Cynllun Lleol yn sefydlu gweledigaeth a fframwaith ar gyfer datblygiad yr ardal yn y dyfodol, gan ddelio ag anghenion a chyfleoedd parthed tai, yr economi, cyfleusterau cymunedol a seilwaith – yn ogystal â bod yn sail i ddiogelu'r amgylchedd, addasu i newid hinsawdd a sicrhau cynllun da. Bydd yn sefydlu'r polisïau cynllunio lleol ac yn nodi sut y defnyddir / dylid defnyddio tir, gan bennu beth fydd yn cael ei adeiladu a lle.

**Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol:** y polisi cynllunio cenedlaethol newydd ar gyfer Lloegr sy'n gweithredu fel fframwaith polisi ar gyfer awdurdod cynllunio lleol a phenderfynyddion, ar lunio Cynlluniau Lleol a gwneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio.

**Llety ansefydlog:** mae hyn yn cyfeirio at drefniadau llety sy'n ansicr, megis ble nad oes gan rywun ddim neu fawr ddim sicrwydd daliadaeth / preswylio yn ei lety arferol, ac felly fe all fod angen gadael ar fyr rybudd.

**Therapydd galwedigaethol:** gweithiwr proffesiynol sy'n cefnogi ac yn galluogi cyfranogiad pobl mewn gweithgareddau dyddiol er gwaethaf namau neu gyfyngiadau ar eu swyddogaeth gorfforol neu wybyddol. Yn aml bydd therapyddion galwedigaethol wedi eu cyflog gan Awdurdodau Lleol neu'r GIG.

**Yr Arolygiaeth Gynllunio (PINS):** y corff sy'n delio gydag apeliadau cynllunio, ceisiadau prosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol, archwiliadau o Gynlluniau Lleol, a gwaith achos arbenigol arall yn ymwneud â chynllunio yng Nghymru a Lloegr, ar ran y Gweinidog Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol. Mae arolygwyr cynllunio yn chwarae rôl bwysig wrth archwilio Cynlluniau Lleol, amhleidioldeb a chyhoeddusrwydd. Maent yn archwilio cynlluniau lleol a gynhyrchir gan Awdurdodau Lleol yng Nghymru a Lloegr ac yn penderfyni os ydynt yn addas i'r diben neu beidio.

**Tenantiaeth Preswyl Preifat (yr Alban):** tenantiaeth yn yr Alban sy'n disodli tenantiaethau sicr a thenantiaethau sicr byr. Mae'n cyflwyno tenantiaethau penagored, cyfyngiadau ar gynnydd mewn rhent, cyfnodau rhybudd hirach a phrosesau symlach.

**Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus:** sefydlir hyn yn adran 149 Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae'n datgan fod yn rhaid i awdurdod cyhoeddus, wrth gyflawni ei ddyletswyddau, dalu sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, a hybu cyfle cyfartal i bobl anabl. Mae'r ddyletswydd yn talu sylw dyledus yn benodol i'r angen i ddiddymu neu leihau anfanteision y mae pobl anabl yn eu dioddef, ac i gymryd camai i fodloni anghenion pobl anabl.

**Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (RSLs):** darparwyr tai di-elw, a elwir weithiau yn gymdeithasau tai. Fel darparwyr tai cymdeithasol, mae RSLs yn cael ei rheoleiddio a chofrestru gan Reolydd Tai'r Alban, a Llywodraeth Cymru yng Nghymru, tra RPs y fersiwn gyfatebol yn Lloegr, a gofrestrir ac a reoleiddir gan Homes England (a ddisodlodd yr Homes and Communities Agency yn Ionawr 2018).

**Sefydliad Tenantiaid Cofrestredig (RTO):** sefydliad annibynnol a sefydlir yn bennaf i gynrychioli buddiannau tai a chysylltiedig tenantiaid. Eu bod yw i roi llais i denantiaid a rôl gydnabyddedig o ran gwneud penderfyniadau yn lleol.

**Llety sefydlog:** mae hyn yn cyfeirio at lety, tymor canolig i hir. Prif nodwedd llety sefydlog yw fod gan y deiliad sicrwydd daliadaeth/preswylio..

**Landlord cymdeithasol:** darparwr tai di-elw, fel cyngor neu gymdeithas dai a fydd fel arfer yn codi rhent ar gyfraddau fforddiadwy (sydd fel arfer yn cael eu talu, i'r rhai ar incwm isel, trwy Fudd-dal Tai).

**Rhent cymdeithasol:** gosodir rhent targed r gyfer pob eiddo, yn seiliedig ar fformwla sy'n ystyried gwerth yr eiddo, nifer o ystafelloedd gwely, ac enillion lleol cyfartalog. Mae'r llywodraeth wedi gosod terfyn ar y swm uchaf y gellir ei godi, hyd yn oed os yw'r rhent targed yn uwch. Mae'r terfyn yn cynyddu'n flynyddol ar gyfradd chwyddiant (RPI) plws 1%. Mae rhenti yn cynyddu'n flynyddol, ac mae'r cynnydd yn dilyn y rheolau a sefydlir gan y r Asiantaeth Cartrefi a Chymunedau (asiantaeth y Llywodraeth sy'n rheoleiddio cymdeithasau tai).

**Tenantiaeth cychwynnol:** efallai y bydd tenantiaid newydd yn cael cynnig tenantiaeth cychwynnol ar sail prawf, fel arfer yn parhau am 12 mis.

**Llety â chymorth:** amrywiaeth o wasanaethau tai ar gyfer amrediad o bobl gyda gwahanol ofynion yn cynnwys byw â chymorth, cartrefi grŵp, llochesi, tai gwarchod, tai gofal ychwanegol a hosteli.

**Tai rhent cymdeithasol:** cartrefi sy'n eiddo i Awdurdodau Lleol a darparwyr cofrestredig preifat, ble pennir rhenti targed arweiniol trwy'r gyfundrefn rhent cenedlaethol. Efallai y bydd tai rhent cymdeithasol yn eiddo i bobl eraill hefyd ac yn cael eu darparu dan drefniadau rhentu cyfatebol, mewn cytundeb gyda'r Awdurdod Lleol neu gyda'r Asiantaeth Cartrefi a Chymunedau.

**Safon tai technegol:** mae hyn yn delio â gofod mewnol o fewn anheddau newydd, ac mae'n addas i'w weithredu ar draws pob math o ddaliadaeth. Mae'n sefydlu'r gofynion ar gael Ardal (llawr) Mewnol Gros anheddau newydd ar lefel ddiffiniedig o ddeiliadaeth, yn ogystal ag ardaloedd llawr a dimensiynau ar gyfer rhannau allweddol 'r cartref, yn arbennig ystafelloedd gwely, ardaloedd storio a nenfydau.

**Cytundeb tenantiaeth:** contract rhwng tenant a'i landlord. Mae'n sefydlu'r hawliau a chyfrifoldebau sydd gan denantiaid a landlordiaid, rhai ohonynt yn statudol.

**Gwasanaethau cefnogaeth tenantiaeth:** mae'r rhain yn galluogi pobl i gynnal tenantiaeth. Gallant gynnwys help i ddelio gyda:

- ôl-ddyledion rhent
- budd-daliadau
- cyllidebau domestig (yn cynnwys cynghori ar ddyledion)
- materion trwsio
- anghydfod rhwng cymdogion
- materion ymddygiad gwrthgymdeithasol, sy'n gysylltiedig i'r denantiaeth
- eirioli a chyngor wrth sicrhau mynediad at wasanaethau eraill.

**Sefydliad rheoli tenantiaid:** grŵp sy'n cynnwys tenantiaid Awdurdod Lleol yn Lloegr sy'n dilyn y rheoliadau Hawl i Reoli 2012.

Deiliadaeth: mae yna wahanol gategorïau o ddeiliadaeth ar gyfer tai, adeiladu tai ac aelwydydd. Sef:

- perchen-feddiannydd – llety mae'r deiliad yn berchen yn llwyr arno, neu sy'n cael ei brynu gyda morgais
- rhentu preifat
- rhentu gan gymdeithas dai
- rhentu gan Awdurdodau Lleol.

**Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (UNCRPD):** cytundeb cyfreithiol rhyngwladol ynghylch hawliau dynol pobl anabl.

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC):** mae hyn yn cynrychioli buddiannau awdurdod lleol ac yn hyrwyddo democratiaeth leol yng Nghymru. Prif ddibenion CLILC yw i hyrwyddo gwell llywodraeth leol ac enw da llywodraeth leol, ac i gefnogi awdurdodau wrth ddatblygu polisïau a blaenoriaethau a fydd yn gwella gwasanaethau cyhoeddus a democratiaeth.

# Atodiad: Telerau cyfeirio



Bydd yr ymchwiliad yn archwilio i ba raddau y mae hawl pobl anabl i fyw'n annibynnol yn cael ei gefnogi gan ddarparu tai hygyrch ac addasadwy, a gwasanaethau cymorth tenantiaeth.

The inquiry will cover England, Scotland and Wales and in each nation will:

1. Bydd yr ymchwiliad yn ymdrin â Lloegr, yr Alban a Chymru ac ym mhob cenedl bydd:

    i) sut mae darparu gwasanaethau cymorth tenantiaeth a thai hygyrch ac addasadwy wedi eu galluogi i gyflawni eu hawl i fyw'n annibynnol

    ii) y canlyniadau o beidio â chael tai hygyrch neu addasadwy neu wasanaethau cymorth tenantiaeth ar eu hawl i fyw'n annibynnol.

1A. Archwiliwch y dystiolaeth sy'n bodoli o ran maint unrhyw ddiffyg yn y ffaith bod tai hygyrch ac addasadwy ar gael, ac argaeledd gwasanaethau cymorth tenantiaeth.

1B. Archwilio systemau sydd gan awdurdodau lleol a darparwyr tai cymdeithasol eraill mewn perthynas â phobl anabl sy'n cael eu dyrannu eiddo:

    i) i asesu anghenion y person am eiddo hygyrch a / neu addasadwy

    ii) i adnabod eiddo i gyd-fynd ag anghenion y person hwnnw.

1C. Archwiliwch y dystiolaeth er mwyn asesu pa mor dda y mae systemau'n perfformio i ymgeiswyr mewn perthynas â phenderfynu ar geisiadau a gweinyddu:

    i) Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl o dan y Grantiau Tai, Adeiladu a Deddf Adfywio 1996

    ii) grantiau ar gyfer addasu anheddau ar gyfer pobl anabl o dan yr Deddf Tai (Yr Alban) 2006 a Deddf Tai (Yr Alban) 2006 (Cynllun o Gymorth) 2008, a chyllid ar gyfer addasiadau o leoliadau lleol awdurdodau neu Gymdeithasau Tai.

2. Archwiliwch pa gamau sy'n cael eu cymryd gan awdurdodau lleol a darparwyr tai cymdeithasol, gan gynnwys, yn achos awdurdodau lleol, mewn perthynas â defnyddio rheoliadau cynllunio a datblygu, i gynyddu argaeledd a darparu tai hygyrch ac addasadwy i alluogi pobl anabl i gyflawni eu hawl i fyw'n annibynnol.

3. Archwiliwch y dystiolaeth i asesu i ba raddau y mae awdurdodau lleol, wrth ystyried pa gamau i'w cymryd / cymryd camau mewn perthynas ag anghenion pobl anabl ar gyfer tai hygyrch ac addasadwy a gwasanaethau cymorth tenantiaeth:

   i) yn deall ac yn cydymffurfio â'u rhwymedigaethau o dan y Sector Cyhoeddus Dyletswydd Cydraddoldeb

   ii) mabwysiadu ymagwedd hawliau dynol a gweithredu yn unol â'u hawliau dynol dyletswyddau o dan Gonfensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR)

4. Archwilio effaith / effaith bosibl newidiadau diweddar a pholisi tai a'r gyfraith arfaethedig ar argaeledd a darparu tai hygyrch ac addasadwy a gwasanaethau cymorth tenantiaeth sy'n galluogi pobl anabl i fyw'n annibynnol. Lle bo'n briodol, gwnewch gasgliadau yn nodi lle mae newidiadau o'r fath, yn hyn o beth, yn debygol o hwyluso neu effeithio'n andwyol ar wireddu hawl pobl anabl i fyw'n annibynnol.

5. Gwneud argymhellion fel sy'n briodol.

# Gwybodaeth Ychwanegol

## Diffiniadau

Mae'r UNCRPD yn nodi beth mae hawliau dynol yn ei olygu yng nghyd-destun anabledd. Trwy gadarnhau UNCRPD yn 2009, mae'r DU wedi ymrwymo i hyrwyddo a diogelu mwynhad llawn hawliau dynol gan bobl anabl.

Yr hawl i fyw'n annibynnol o dan Erthygl 19 o'r UNCRPD yw'r hawl cyfartal i bobl anabl fyw yn y gymuned gyda dewisiadau sy'n hafal i eraill, a bod mesurau effeithiol a phriodol yn cael eu cymryd i hwyluso mwynhad pobl anabl o'r hawl hwn, a'u cynhwysiad llawn a chyfranogiad yn y gymuned. Mae hyn yn cynnwys bod gan bobl anabl y cyfle i ddewis ble a chyda phwy i fyw'n gyfartal ag eraill ac nad oes raid iddynt fyw mewn unrhyw drefniant byw penodol.

Erthygl 9 Mae UNCRPD yn ei gwneud yn ofynnol, er mwyn galluogi pobl anabl i fyw'n annibynnol a chymryd rhan lawn ym mhob agwedd ar fywyd, cymerir mesurau priodol i sicrhau mynediad i bobl anabl yn gyfartal ag eraill i'r amgylchedd ffisegol. Mae hyn yn cynnwys mesurau i ddileu rhwystrau i hygyrchedd mewn perthynas â thai.

Mae'r ECHR wedi'i hymgorffori yn ein cyfraith ddomestig gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

Mae Erthygl 8 ECHR yn amddiffyn hawl pobl i barchu eu bywyd preifat, eu bywyd teuluol, eu cartref a'u gohebiaeth. Mae'r cysyniad o fywyd preifat yn cwmpasu hawl pobl i ddatblygu eu hunaniaeth bersonol ac i greu cyfeillgarwch a pherthnasau eraill. Mae hyn yn cynnwys yr hawl i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol a hamdden hanfodol. Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd angen i awdurdodau cyhoeddus helpu pobl i fwynhau eu hawl i fywyd preifat, gan gynnwys eu gallu i gymryd rhan mewn cymdeithas.

Mae Erthygl 14 ECHR yn amddiffyn pobl rhag gwahaniaethu wrth fwynhau'r hawliau dynol hynny a nodir yn ECHR. Mae Erthygl 14 yn seiliedig ar yr egwyddor graidd bod pawb ohonom, ni waeth pwy ydym ni, yn mwynhau'r un hawliau dynol a dylent gael mynediad cyfartal iddynt.

Yn gyffredinol nid yw hawliau dynol o dan ECHR yn rhoi hawl i berson gael llety gwell, ond mae achosion difrifol o fethiant corff cyhoeddus i gydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol i ddiwallu anghenion person anabl yn gallu bod yn groes i hawliau dynol person dan ECHR.[1]

Drwy ymagwedd hawliau dynol, rydym yn golygu ymagwedd ragweithiol gan gorff cyhoeddus i arfer ei bwerau a sicrhau bod ei rwymedigaethau cyfreithiol yn cael eu bodloni, fel bod unrhyw risg o dorri hawliau dynol yn cael ei ddileu.

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wedi'i nodi yn adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'n darparu bod rhaid i awdurdod cyhoeddus, wrth gyflawni ei swyddogaethau, roi sylw dyladwy i'r angen i ddileu gwahaniaethu a hyrwyddo cyfle cyfartal i bobl anabl. Mae'r ddyletswydd yn cynnwys rhoi sylw dyladwy yn arbennig i'r angen i gael gwared ar anfantais neu bobl sy'n dioddef anawsterau gan bobl anabl a chymryd camau i ddiwallu anghenion pobl anabl.

Yn ôl gwasanaethau cymorth tenantiaeth, rydym yn golygu cefnogaeth i reoli neu gynnal tenantiaeth, er enghraifft cefnogaeth gyda rheoli

- ôl-ddyledion rhent
- buddion
- cyllidebu domestig gan gynnwys cynghori ar ddyledion
- materion atgyweirio
- anghydfodau cymydog
- materion ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig â'r denantiaeth
- eiriolaeth a chyngor wrth gael gafael ar wasanaethau eraill.

Wrth gyfeirio at dai hygyrch, rydym yn golygu tai sy'n hygyrch yn gorfforol gan y meddiannydd ac mae ganddo nodweddion ffisegol sy'n caniatáu byw'n annibynnol. Mae hyn yn cynnwys tai sy'n gwbl hygyrch i ddefnyddiwr cadair olwyn.

Mewn tai addasadwy, rydym yn golygu tai y gellir eu haddasu i gynyddu hygyrchedd ac i osod nodweddion sy'n caniatáu byw'n annibynnol.

---

[1] *Anufrijeva and Another v Southwark London Borough Council* [2003] EWCA Civ1406; [2004] Q.B. 1124

# Cysylltiadau

Mae'r cyhoeddiad hwn ac adnoddau cydraddoldeb a hawliau dynol cysylltiedig ar gael ar ein gwefan: www.equalityhumanrights.com

For advice, information or guidance on equality, discrimination or human rights issues, please contact the **Equality Advisory and Support Service**, a free and independent service.

| | |
|---|---|
| Gwefan | **www.equalityadvisoryservice.com** |
| Ffôn | **0808 800 0082** |
| Ffôn testun | **0808 800 0084** |
| Oriau | **09:00 tan 19:00 (Llun i Wener)**<br>**10:00 tan 14:00 (Sadwrn)** |
| Post | **FREEPOST EASS HELPLINE FPN6521** |

Gellir cyfeirio unrhyw gwestiynau a sylwadau parthed y cyhoeddiad hwn at: **correspondence@equalityhumanrights.com**. Rydym yn croesawu eich adborth.

# Fformatau amgen

Mae'r cyhoeddiad hwn hefyd ar gael fel ffeil Microsoft Word o **www.equalityhumanrights.com**. Am wybodaeth ar gael mynediad at gyhoeddiadau'r Comisiwn ar ffurf amgen, cysylltwch â: **correspondence@equalityhumanrights.com**

© 2018 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Cyhoeddwyd Mai 2018
ISBN: 978-1-84206-730-7

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Equality and Human Rights Commission

Gallwch chi lawrlwytho'r cyhoeddiad hwn oddi wrth

www.equalityhumanrights.com

© 2018 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Cyhoeddwyd Mai 2018

ISBN: 978-1-84206-730-7

Comisiwn **Cydraddoldeb a Hawliau Dynol** | **Equality and Human Rights** Commission